# Rhaglen Gyflawn

Cyfarfod

**BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU**

Dyddiad ac Amser

**2.30 y.h., DYDD GWENER, 30AIN MEDI, 2022**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol- Zoom**


Pwynt Cyswllt

**Annes Sion**

**01286 679490**

**annession@gwynedd.llyw.cymru**


(Dosbarthwyd 23/09/22)

# BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU

## Aelodau a phleidlais

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| Jason McLellan | Cyngor Sir Ddinbych |
| Llinos Medi Huws | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Mark Pritchard | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Ian B. Roberts | Cyngor Sir y Fflint |
| Charlie McCoubrey | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |

## Ymgynghorwyr - Heb Bleidlais

| | |
|---|---|
| Dafydd Evans | Grwp Llandrillo Menai |
| Maria Hinfelaar | Prifysgol Glyndwr |
| Yana Williams | Coleg Cambria |
| Askar Sheibani | Bwrdd Cyflenwi Busnes |
| Yr Athro Iwan Davies | Prifysgol Bangor |

## Prif Swyddogion - Heb Bleidlais

| | |
|---|---|
| Dylan Williams | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Iwan Davies | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Neal Cockerton | Cyngor Sir y Fflint |
| Dafydd Gibbard | Cyngor Gwynedd |
| Ian Bancroft | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Graham Boase | Cyngor Sir Ddinbych |

## Swyddogion yn bresennol

| | |
|---|---|
| Dewi Morgan | Swyddog Adran 151 |
| Iwan G. Evans | Swyddog Monitro |
| Alwen Williams | Portfolio Director |
| Hedd Vaughan Evans | Operations Manager |

# R H A G L E N


**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

**3. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**4. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL** 6 - 12

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 15 Gorffennaf, 2022 fel rhai cywir.

**5. DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL** 13 - 31

Hedd Vaughan-Evans, Pennaeth Gweithrediadau i gyflwyno'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

**6. ADOLYGIAD REFENIW A CYFALAF 2022/23 - AWST 2022** 32 - 42

Dewi A. Morgan, Swyddog Cyllid Statudol yr Awdurdod Lletya a Sian Pugh, Cyfrifydd Grŵp yr Awdurdod Lletya i ddarparu manylion y gwariant a'r incwm refeniw gwirioneddol hyd at ddiwedd Awst 2022, i Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, ynghyd â rhagamcaniad o'r alldro blwyddyn lawn yn erbyn ei gyllideb
flynyddol.

**7. CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG Y GOGLEDD (CBC) - SECONDIAD RHAN-AMSER CYFARWYDDWR PORTFFOLIO'R BWRDD UCHELGAIS FEL PRIF WEITHREDWR DROS DRO Y CBC** 43 - 51

Dylan J Williams, Prif Weithredol Arweiniol Cynghorau Gogledd Cymru ar gyfer y Bwrdd Uchelgais i gyflwyno cais gan Gyd-Bwyllgor Corfforaethol y Gogledd (CBC), i Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, i ryddhau rhan o amser eu Cyfarwyddwr Portffolio i gyflawni rôl Prif Weithredwr y CBC, yn y lle cyntaf dros dro tan 31 Mawrth 2023.

**8. STRATEGAETH YNNI RHANBARTHOL - CYNLLUN GWEITHREDU** 52 - 91

Henry Aron, Rheolwr y Rhaglen Ynni, Uchelgais Gogledd Cymru a Rhys Horan, Arweinydd Strategol, Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru i geisio cymeradwyaeth y Bwrdd i'r Cynllun Gweithredu drafft i Strategaeth Ynni Gogledd Cymru a'u hargymhellion ynghylch cymeradwyaeth awdurdod lleol.

**9. CYNLLUN TŴF GOGLEDD CYMRU - SGANIO'R GORWELION** 92 - 94

Alwen Williams, Cyfarwyddwr Portffolio a Hedd Vaughan-Evans, Pennaeth Gweithrediadau i gyflwyno adroddiad yw gosod egwyddorion a phroses arfaethedig er mwyn adnabod ffordd ymlaen a ffefrir pan gaiff prosiectau eu tynnu allan o Gynllun Twf Gogledd Cymru.

**10. RHEOLAETH NEWID: PROSIECT SAFLE STRATEGOL BODELWYDDAN** 95 - 98

Alwen Williams, Cyfarwyddwr Portffolio a David Mathews, Rheolwr Rhaglen Tir ac Eiddo i gyflwyno adroddiad yn argymell tynnu prosiect Safle Strategol Allweddol Bodelwyddan allan o Gynllun Twf Gogledd Cymru.

**11. RHEOLAETH NEWID: MORLAIS** 99 - 103

Henry Aron (Rheolwr y Rhaglen Ynni, Uchelgais Gogledd Cymru) i geisio cymeradwyaeth y Bwrdd i argymhellion y PMO ynghylch Cais i Newid Morlais

**12. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid cau allan y wasg a’r cyhoedd o’r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol am y rhesymau a nodir ym mharagraff 14 o Atodiad 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972Gwybodaeth ynglŷn â thrafodion ariannol neu fusnes unrhyw berson penodol( yn cynnwys yr awdurdod sydd yn dal y wybodaeth hynny).

Mae budd cyhoeddus cydnabyddedig mewn bod yn agored ynglŷn â defnydd adnoddau cyhoeddus a materion ariannol cysylltiedig. Cydnabyddir fodd bynnag fod adegau, er gwarchod buddiannau ariannol a masnachol cyhoeddus fod angen trafod gwybodaeth o’r fath heb ei gyhoeddi. Mae’r adroddiad yn benodol ynglyn a materion ariannol a busnes ynghyd a thrafodaethau cysylltiedig Byddai cyhoeddi gwybodaeth fasnachol sensitif o’r math yma yn gallu bod yn niweidiol i fuddiannau’r cyrff a’r Cynghorau ac yn tanseilio hyder rhai eraill sydd yn ymwneud a’r Gytundeb Twfi rannu gwybodateh sensitive ar gyfer ystyriaeth. Byddai hyn yn groes i’r budd cyhoeddus ehangach o sicrhau yr allbwn cyfansawdd gorau . Am y rhesymau yma rwy’n fodlon fod y mater yn gaeedig er y budd cyhoeddus.

## 13. PROSIECT TRAFNIDIAETH A DATGARBONEIDDIO (HYDROGEN) - CAMAU NESAF

Graham Williams, Rheolwr Prosiect a Hedd Vaughan-Evans, Pennaeth Gweithrediadau i gyflwyno'r adroddiad.

# BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU DYDD GWENER, 15 GORFFENNAF 2022

Yn bresennol:

Aelodau â Phleidlais – Y Cynghorwyr:- Llinos Medi Huws (Cyngor Sir Ynys Môn), Ian Roberts (Cyngor Sir y Fflint), Charlie McCoubrey (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy)Mark Pritchard (Cyngor Bwrdeistref Wrecsam) Jason McLellan (Cyngor Sir Ddinbych) a Dyfrig Siencyn (Cyngor Gwynedd) (Cadeirydd).

Ymgynghorwyr – Dafydd Evans (Grŵp Llandrillo-Menai), Yr Athro Maria Hinfelaar (Prifysgol Glyndŵr), Askar Sheibani (Bwrdd Cyflenwi Busnes) a'r Athro Paul Spencer (Prifysgol Bangor).

Prif Swyddogion – Dylan Williams (Cyngor Sir Ynys Môn), Iwan Davies (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), Neal Cockerton (Cyngor Sir y Fflint), Linda Roberts (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam), Graham Boase (Cyngor Sir Ddinbych) a Sioned Williams (Cyngor Gwynedd).

Swyddogion yn bresennol – Dewi Morgan (Swyddog Cyllid Statudol – Awdurdod Lletya), Gareth Owens (Swyddog Monitro – Cyngor Sir Fflint), Hedd Vaughan Evans (Rheolwr Gweithrediadau) Stuart Whitfield (Rheolwr Rhaglen Digidol), Henry Aron (Rheolwr Rhaglen Ynni), Robyn Lovelock (Rheolwr Rhaglen Cynllun Twf), David Matthews (Rheolwr Rhaglen Tir ac Eiddo), Kirrie Roberts (Rheolwr Prosiect Cysylltedd Digidol) Sian Pugh (Awdurdod Lletya) ac Annes Sion (Arweinydd Tîm Democratiaeth – Awdurdod Lletya).

Hefyd yn bresennol – Wendy Boddington (Llywodraeth Cymru), Darnley Reid (Llywodaeth y DU), Gareth Ashman (Llywodraeth y DU), Elen Edwards (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), Sioned Owen (Archwilio Cymru).

## 1. YMDDIHEURIADAU

Apologies were received from Professor Iwan Davies (Bangor University), Yana Williams (Coleg Cambria), Iwan Evans (Monitoring Officer - Host Authority), Dafydd Gibbard (Gwynedd Council), Alwen Williams (Portfolio Director) and Sheryl Le Bon (Senior Executive Officer).

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

## 3. MATERION BRYS

Dim i'w nodi.

## 4. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Mehefin 2022, fel rhai cywir.

## 5. CYNLLUN TWF GOGLEDD CYMRU - ADRODDIAD PERFFORMIAD CHWARTER 1

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Hedd Vaughan Evans (Rheolwr Gweithrediadau).

**PENDERFYNWYD**

**Nodwyd ac ystyried yr Adroddiad Perfformiad Chwarter 1 a Chofrestr Risg y Portffolio a oedd wedi ei ddiweddaru.**

**Nodwyd y gwaith i ail-broffilio'r cynllun cyflawni fel rhan o ddiweddariad Achos Busnes y Portffolio ac y bydd y wybodaeth ar gael yn adroddiad Chwarter 2.**

**Cymeradwywyd cyflwyno Adroddiad Perfformiad Chwarter 1 i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, ynghyd â phwyllgorau craffu'r awdurdodau lleol.**

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Mae adrodd chwarterol a blynyddol ar gynnydd yn erbyn Cynllun Twf Gogledd Cymru yn un o ofynion Cytundeb Terfynol y Cynllun Twf. Yn dilyn ystyriaeth gan Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, caiff yr adroddiadau eu rhannu gyda Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU a phwyllgorau craffu'r awdurdodau lleol.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi uchafbwyntiau'r Bwrdd Uchelgais ar gyfer chwarter cyntaf y flwyddyn. Cychwynnwyd gyda'r Rhaglen Ddigidol gan nodi fod hawliad cyntaf ar gyfer Prosiect DSP ar fin ei gyflwyno. Eglurwyd fod Achos Busnes Amlinellol (OBC) ar gyfer y prosiect Cysylltu'r Ychydig % Olaf yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd heddiw.

Amlygwyd yn y Rhaglen Ynni Carbon Isel fod cais am newid rhaglen Morlais wedi'i gymeradwyo gan y Bwrdd Rhaglen ar yr amod bod cyfyngiadau cytundebol ynghlwm gyda arian WEFO Morlais yn cael ei cyfarch yn briodol.. O ran cynllun Egni nodwyd fod Prifysgol Bangor wedi gwneud cais i oedi amserlen yr achos busnes er mwyn caniatáu adolygiad y prosiect. Wrth amlygu uchafbwyntiau'r Rhaglen Tir ac Eiddo eglurwyd fod Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi cymeradwyo cyllid i ddatblygu Uwch gynllun ar gyfer safle Prosiect Porth y Gorllewin. Yn ogystal a hyn nodwyd fod mecanwaith cyflawni wedi ei gytuno arno ar gyn Ysbyty Gogledd Cymru, Dinbych a oedd yn rhannu'r risg o ddatblygu gyda datblygiad tri cham mewn egwyddor.

O ran y Rhaglen Bwyd-Amaeth a Thwristiaeth nodwyd fod Grŵp Llandrillo Menai wedi cadarnhau strwythur y Rhwydwaith Talent Twristiaeth rhwng y coleg a phartneriaid yn y sector breifat, ac eu bod yn paratoi i gyflwyno cais cyn-cynllunio ar gyfer Hwb Economi Gweledig Glynllifon.

Amlygwyd fod pedwar prosiect yn adrodd yn goch ar hyn o bryd sydd yn lleihad o un a adroddwyd arno diwedd y flwyddyn ariannol diwethaf. Yn gyntaf nodwyd fod Prosiect Canolfan Ragoriaeth Ynni Carbon Isel (Egni) yn cael ei adolygu gan Brifysgol Bangor yn sgil y newidiadau arfaethedig i ragamcanion cyfalaf a refeniw a'r oedi gyda'r adolygiad prosiect.. Eglurwyd fod caniatâd cynllunio amlinellol ar Safle Strategol Allweddol Bodelwyddan wedi dod i ben, ac mae cais wedi ei wneud am wybodaeth ychwanegol ar sefyllfa polisi cynllunio tebygol y safle i Gyngor Sir Ddinbych. Nodwyd o ran cynllun Canolbwynt Economi Gwledig Glynllifon, fod angen caniatâd cynllunio angen ei sicrhau ac amlygwyd posibilrwydd o flwch ariannol yn sgil costau cyfalaf adeiladu yn cynyddu. Mynegwyd o ran cynllun Fferm Sero Net Llysfasi fod oedi yn dilyn angen i ymgorffori adborth adolygiad Porth 2.

O ran y gofrestr risg, eglurwyd fod y proffil risg wedi parhau'n sefydlog ac amlygwyd fod fforddiadwyedd yn parhau i fod y risg mwyaf sy'n wynebu'r portffolio ynghyd a chwyddiant, materion cadwyn cyflawni a chynnydd sylweddol mewn costau adeiladu. O ran y risg gwleidyddol mae'r risg hwn wedi gostwng yn dilyn etholiadau llywodraeth leol ym mis Mai 2022.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- O ran Safle Strategol Allweddol Bodelwyddan, holwyd beth yw'r amserlen ynghyd a opsiynau fydd yn cael eu cyflwyno ym mis Medi. Nodwyd fod y tîm wedi holi am ddiweddariad ac eu bod yn gobeithio dod ac adroddiad pellach yn ôl i'r Bwrdd Fis Medi neu Hydref.
- Holwyd os oes angen cryfhau'r risg melyn o ran risg ariannol o ganlyniad i gynnydd cyson mewn costau cyfalaf ac yr effaith y bydd hyn yn ei gael ar gynlluniau. Nodwyd o ran y Swyddfa Porffolio eu bod yn gnwued popeth o fewn eu gallu i gadw o fewn risg melyn, ac yn cyd-weithio yn agos ar rheolwyr rhaglen i sicrhau fod modd cwblhau'r prosiectau gan roi y buddion disgwyliedig o fewn y gyllideb. Nodwyd yr angen i ail edrych ar y lefel risg ac i adrodd yn ôl yn adroddiad chwarter 2.

## 6. DATGANIAD O GYFRIFON Y BUEGC AM 2021-22

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Dewi Morgan (Swyddog Cyllid Statudol – Awdurdod Lletya).

**PENDERFYNIAD**

Derbyniwyd a nodwyd Ddatganiad o Gyfrifon drafft y Bwrdd Uchelgais (yn amodol ar archwiliad) ar gyfer 2021/22.

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Nid oes gofyn statudol i'r Bwrdd gymeradwyo'r fersiwn ddrafft o Ddatganiad o Gyfrifon y Cyd-Bwyllgor, ond ystyrir ei gyflwyno fel datganiad drafft er gwybodaeth yn arfer da i'w ddilyn.

Nodwyd y bydd angen i'r Bwrdd gymeradwyo'r fersiwn terfynol ym mis Hydref ar ôl derbyn adroddiad Archwilio, ond eglurwyd fod cyflwyno'r fersiwn ddrafft yn gyfle i aelodau'r Bwrdd ystyried y cynnwys ac arfogi eu hunain gyda'r wybodaeth berthnasol.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi am y tro cyntaf eleni fod y Bwrdd wedi paratoi set gyflawn o ddatganiadau cyfrifon, yn hytrach na'r ffurflen swyddogol a ddefnyddiwyd mewn blynyddoedd blaenorol. Eglurwyd fod hyn oherwydd fod Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) yn nodi fod corff awdurdod lleol yn "gorff perthnasol mwy" pan fo'r incwm neu wariant blynyddol dros £2.5m.

Mynegwyd fod y Datganiad Cyfrifon blynyddol wedi eu paratoi yn unol â'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu mewn Awdurdod Lleol. Eglurwyd fod y Bwrdd Uchelgais wedi derbyn y wybodaeth mewn ffordd llawer mwy defnyddiol pan gyflwynwyd Sefyllfa Alldro Refeniw a Chyfalaf y Bwrdd yn ôl ym mis Ebrill. Nodwyd y penderfyniad a wnaethpwyd yn ystod y cyfarfod hwnnw. Amlygwyd fod y ffigyrau sydd yn ymddangos yn y datganiad yn gyson gyda'r adroddiad yn ôl ym mis Ebrill.

Pwysleisiwyd mai eleni yw’r flwyddyn gyntaf ble mae’r adran wedi paratoi adroddiad ar y ffurf yma, o ganlyniad maent wedi gorfod mynd yn ôl ac ail-osod sefyllfa 2020/21 er mwyn ei roi yn y ddogfen er cymhariaeth. Nodwyd fod yna reserfau yn ymddangos na ellir eu defnyddio, eglurwyd fod y rhain yn ymdrin â materion megis ymrwymiadau pensiwn yn y dyfodol. Mynegwyd fod y Swyddog Cyllid Statudol wedi arwyddo’r cofnodion o’r cyfrifon yn ôl ym mis Mehefin ac wedi tystio ei fod o’r farn fod y Datganiad o'r Cyfrifon wedi ei baratoi yn unol â'r ymarfer priodol fel a osodir yn y Còd Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol. Nodwyd ei fod yn credu fod y Datganiad yn cyflwyno darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol y Cyd-Bwyllgor Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ar 31 Mawrth 2022 ac incwm a gwariant y Cyd Bwyllgor am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny.

Eglurwyd y bydd y datganiadau yn mynd ymlaen i gael eu hadolygu gan Archwilio Cymru, sef archwilwyr allanol y Bwrdd Uchelgais, a bydd y cyfrifon terfynol, ynghyd ag adroddiadau yr archwiliwyd, yn cael ei cyflwyno yn ystod yr hydref.

Sylwadau’n codi o’r drafodaeth

- Diolchwyd i’r adran am eu gwaith yn partio’r dogfennau ac i ychwanegu y gair drafft i’r penderfyniad.

**7. CYNLLUN ARCHWILIO 2022 - CYD-BWYLLGOR BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Sioned Owen (Archwilio Cymru)

**PENDERFYNIAD**

**Derbyniwyd adroddiad Archwilio Cymru a oedd yn amlygu cynllun Archwilio’r Bwrdd Uchelgais ar gyfer 2022.**

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Er bod Cyd-bwyllgor Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (y Cyd-bwyllgor) wedi bod yn paratoi Ffurflen Flynyddol Cyd-bwyllgorau Llai yn flaenorol, hon fydd y flwyddyn gyntaf i’r Cyd-bwyllgor baratoi datganiadau ariannol llawn. Bydd Archwilio Cymru yn archwilio’r datganiadau ariannol i wneud yn siŵr y rhoddir cyfrif yn briodol am arian cyhoeddus.

Roedd y ddogfen hon yn nodi’r gwaith y bydd Archwilio Cymru yn bwriadu ei wneud yn ystod 2022 i gyflawni eu cyfrifoldebau statudol fel archwilydd allanol ac i gyflawni eu rhwymedigaethau dan y Cod Ymarfer Archwilio.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi gan mai eleni yw’r tro cyntaf i’w Bwrdd Uchelgais fod yn cyflwyno datganiadau ariannol llawn, credir ei bod yn briodol i’r Bwrdd Uchelgais dderbyn cynllun archwilio unigol yn hytrach nac wedi ei gyflwyno o fewn cynllun Cyngor Gwynedd. Amlygwyd risg arwyddocaol y gallai rheolwyr wrthwneud rheolaethau’n bresennol ym mhob endid, gan egluro fod y risg hwn i’w gweld ym mhob cynllun archwilio. Nodwyd gan fod y Cyd-bwyllgor wedi paratoi datganiadau ariannol llawn am tro cyntaf eleni, ei bod yn risg y bydd y datganiadau yn fwy tueddol o gynnwys camddatganiadau perthnasol.

Tynnwyd sylw at Raglen Archwilio gan y tîm perfformiad sydd wedi ei gynnwys yn ogystal. Derbyniwyd diweddariad am y tabl aelodau staff gan fod y Rheolwr Archwilio

Perfformiad bellach wedi gadael y sefydliad, ac eglurwyd y byddant yn hysbysu'r adran pan unigolyn wedi ei benodi.

Esboniwyd fod y cynllun yn nodi fod Archwilio Cymru yn gobeithio cwblhau y gwaith erbyn Gorffennaf / Awst ond eu bod yn trafod ar draws yr holl awdurdodau i wthio y dyddiad hwn yn ei flaen i fis Medi / Hydref.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Diolchwyd am y gwaith a cadarnhawyd fod y codiad mewn ffioedd o 3.7% i'w gweld ar draws holl ffioedd Archwilio Cymru.

## 8. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

**PENDERFYNIAD**

Penderfynwyd y dylid cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol am y rhesymau a nodir:-

Eitem 9 - gan ei bod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 14 o Atodiad 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 Gwybodaeth ynglŷn â thrafodion ariannol neu fusnes unrhyw berson penodol (yn cynnwys yr awdurdod sydd yn dal y wybodaeth hynny).

Mae budd cyhoeddus cydnabyddedig mewn bod yn agored ynglŷn â defnydd adnoddau cyhoeddus a materion ariannol cysylltiedig. Cydnabyddir fodd bynnag fod adegau, er gwarchod buddiannau ariannol a masnachol cyhoeddus fod angen trafod gwybodaeth o'r fath heb ei gyhoeddi. Mae'r adroddiad yn benodol ynglŷn a materion ariannol a busnes ynghyd a thrafodaethau cysylltiedig Byddai cyhoeddi gwybodaeth fasnachol sensitif o'r math yma yn gallu bod yn niweidiol i fuddiannau'r cyrff a'r Cynghorau ac yn tanseilio hyder rhai eraill sydd yn ymwneud a'r Gytundeb Twf i rannu gwybodaeth sensitif ar gyfer ystyriaeth. Byddai hyn yn groes i'r budd cyhoeddus ehangach o sicrhau yr allbwn cyfansawdd gorau.

Eitem 10 – Gan fod gwybodaeth sydd wedi ei chynnwys yn yr adroddiad yn gyfrinachol fel y diffinnir yn adran 100(A)3 Deddf Llywodraeth Leol 1972 gan iddi gael ei darparu gan Adran o'r Llywodraeth ar delerau sy'n gwahardd ei datgelu'n gyhoeddus.

Mae'n rhaid gwahardd y cyhoedd o gyfarfodydd pryd bynnag y bo'n debygol, oherwydd natur y busnes sydd i'w drafod, neu natur y trafodion, y byddai gwybodaeth gyfrinachol yn cael ei datgelu.

## 9. PROSIECT YR YCHYDIG % OLAF - ACHOS BUSNES AMLINELLOL

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Elen Edwards (Uwch Swyddog Cyfrifol y Prosiect), Stuart Whitfield (Rheolwr Rhaglen Ddigidol) a Kirrie Roberts (Rheolwr Prosiect)

**PENDERFYNIAD**

**Cymeradwywyd Achos Busnes Amlinellol ar gyfer y prosiect Cysylltu'r Ychydig % Olaf yn amodol ar gymeradwyaeth Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i'r broses sicrwydd a gynhaliwyd, â bod y Swyddfa Rheoli Portffolio yn mynd i'r afael â'r materion a nodir yn yr adroddiad, fel y nodir yn Adran 7 yn gofyn i Achos Busnes Llawn gael ei baratoi i'r Bwrdd ei ystyried yn dilyn y cadarnhad o**

**ganlyniad Adolygiad Cyhoeddus yr Adolygiad o'r Farchnad Agored (OMR) a chwblhau'r broses gaffael.**

**Nodwyd bod y nifer bresennol o eiddo gwyn sydd i'w targedu o fewn yr OBC yn rhai dros dro tra'n aros am ganlyniad yr Adolygiad Cyhoeddus ac y bydd y dull caffael terfynol yn cael ei gadarnhau yn dilyn canlyniad yr Adolygiad Cyhoeddus a'r Ymgysylltu â'r Farchnad.**

**Dirprwyo'r Cyfarwyddwr Portffolio mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd i gymeradwyo'r dull caffael gan ymgorffori canfyddiadau'r Adolygiad Cyhoeddus a'r Ymgysylltu â'r Farchnad a chymeradwyaeth derfynol o'r fanyleb gaffael a'r meini prawf gwerth cymdeithasol cyn dechrau caffael.**

**Nodwyd y cytunir ar y trefniadau ariannu terfynol ar gyfer y prosiect yn ystod y cam Achos Busnes Llawn ac yn awdurdodi'r Cyfarwyddwr Portffolio mewn ymgynghoriad â Swyddog Adran 151 a Swyddog Monitro yr Awdurdod Lletyai gytuno ar delerau drafft i'w cymeradwyo gan y Bwrdd.**

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Mae angen cefnogaeth y Bwrdd Uchelgais i'r Achos Busnes Amlinellol (OBC) ar gyfer y prosiect Ychydig % Olaf er mwyn symud y cynllun yn ei blaen.

**TRAFODAETH**

Trafodwyd yr adroddiad.

## 10. CYTUNDEB MENTER AR Y CYD ARFAETHEDIG AR GYFER CYFLENWI EIDDO AT DDIBENION CYFLOGAETH YNG NGWYNEDD

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Hedd Vaughan-Evans (Rheolwr Gweithrediadau).

**PENDERFYNIAD**

**Cefnogwyd yr egwyddor o fynd i Gytundeb Menter ar y Cyd gyda Llywodraeth Cymru ar gyfer darparu unedau cyflogaeth ymlaen llaw ar Blot C3 Parc Bryn Cegin fel y dangosir ar y cynllun ystâd amgaeedig (Atodiad A).**

**Dirprwywyd y gwaith o negodi Cytundeb Menter ar y Cyd yn unol â'r adroddiad hwn i'r Cyfarwyddwr Portffolio mewn ymgynghoriad â'r Swyddog Monitro a gofyn i fersiwn terfynol ddod yn ôl i'r Bwrdd am gymeradwyaeth.**

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Er mwyn galluogi'r prosiect fwrw ymlaen i'w wedd nesaf mae angen sicrhau Cytundeb Menter ar y Cyd er mwyn egluro rolau'r naill barti a'r llall. Eglurwyd fod cytundeb drafft wedi'i ddatblygu a bydd yn amodol ar adolygiad, negodi chytundeb terfynol gan y naill barti a'r llall.

**TRAFODAETH**

Trafodwyd yr adroddiad.

Dechreuodd y cyfarfod am 1pm a daeth i ben am 3pm

**CADEIRYDD**

Uchelgais Gogledd Cymru
Ambition North Wales

# ADRODDIAD I FWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU
## 30 Medi 2022

| | |
|---|---|
| **TEITL:** | Datganiad Llywodraethu Blynyddol |
| **AWDUR:** | Hedd Vaughan-Evans, Pennaeth Gweithrediadau |

**1. PWRPAS YR ADRODDIAD**

Derbyn a chymeradwyo y datganiad llywodraethu blynyddol.

**2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR**

2.1. Gofynnir i'r Bwrdd Uchelgais dderbyn a chymeradwyo y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

**3. RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

3.1. Fel nodir isod.

**4. CEFNDIR A PHROSES**

4.1. Mae Rheoliadau Cyfrifo ac Archwilio (Cymru) (Diwygio) 2018 yn gosod gofynion penodol ar gyrff cyhoeddus sydd yn gweithredu trefniadau rheoli partneriaethol trwy gyd-bwyllgorau ffurfiol.

4.2. Gofyniad Rhan 5 yw i'r Cyd-Bwyllgor adolygu a chymeradwyo datganiad rheolaeth fewnol. Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol wedi ei ddarparu i gyd-fynd â'r gofyniad hwn. Mae'r ddogfen wedi ei pharatoi i gynnig fframwaith i weithrediad y Bwrdd Uchelgais.

**5. GOBLYGIADAU ARIANNOL**

5.1. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn.

**6. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL**

6.1. Nid oes unrhyw oblygiadau cyfreithiol yn codi o'r adroddiad hwn.

**ATODIADAU:**

| | |
|---|---|
| **Atodiad 1** | Datganiad Llywodraethu Blynyddol |

**YMATEB SWYDDOGION STATUDOL:**

i. **Swyddog Monitro – Awdurdod Lletya:**
"Rwy'n fodlon fod y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn adlewyrchiad priodol o sefyllfa y Bwrdd Uchelgais fel Cyd-Bwyllgor."

ii. **Swyddog Cyllid Statudol (Swyddog Adran 151 yr Awdurdod Lletya):**
‘‘Rwyf yn fodlon fod y Datganiad Llywodraethu yn adlewyrchiad teg o drefniadau llywodraethu Uchelgais Gogledd Cymru yn 2021/22, a bod trefniadau ar gyfer atebolrwydd yn briodol. Mae’r datganiad yn cwrdd â’r gofyn i ddisgrifio fframwaith lywodraethu Uchelgais Gogledd Cymru, ac i asesu pa mor effeithiol mae’n gweithredu.”

Uchelgais Gogledd Cymru
Ambition North Wales

# Uchelgais Gogledd Cymru

# Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2021-2022

# Cynnwys

Cyflwyniad 2
Pwrpas 3
Y Fframwaith Llywodraethu 5
Llywodraethu'r Cynllun Twf 9
Sicrwydd 11
Archwilio 13
Rheoli Risg 14
Crynodeb a Chasgliad 16

# Cyflwyniad

## Uchelgais Gogledd Cymru

Sefydlwyd partneriaeth Uchelgais Gogledd Cymru yn 2012 er mwyn datblygu ymagwedd ranbarthol i dwf economaidd ac er mwyn rhoi sylw i'r heriau a'r rhwystrau sy'n wynebu economi'r Gogledd. Mae'r bartneriaeth yn cynnwys chwe ardal weinyddol Awdurdodau Lleol rhanbarth Gogledd Cymru, sef Cynghorau Gwynedd, Môn, Conwy, Sir Ddinbych, Wrecsam a Sir y Fflint. Mae'r bartneriaeth hefyd yn cynnwys Prifysgol Bangor, Prifysgol Glyndŵr, Coleg Cambria a Grŵp Llandrillo Menai. Ym mis Rhagfyr 2020, fe wnaeth y bartneriaeth gytuno ar Gynllun Twf Gogledd Cymru gyda Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru gan sicrhau buddsoddiad o £240miliwn i economi'r Gogledd fel rhan o'r cytundeb. Mae Swyddfa Rheoli Portffolio wedi'i sefydlu er mwyn cyflawni Cynllun Twf Gogledd Cymru a chymeradwywyd achos busnes y prosiect cyntaf ym mis Rhagfyr 2021 a bellach mae'n cael ei gyflawni.

## Ein Uchelgais

Ein huchelgais yw adeiladu economi mwy bywiog, cynaliadwy a gwydn ar gyfer Gogledd Cymru. Rydym eisiau:

- Canolbwyntio ar wella llesiant economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol y rhanbarth.
- Gweld y rhanbarth yn datblygu mewn modd cynaliadwy, gyda chyfleoedd i bobl ennill sgiliau newydd ar gyfer y dyfodol a datblygu gyrfaoedd gwerth chweil, gweld busnesau'n tyfu a chymunedau'n ffynnu.
- Hyrwyddo ein hiaith, ein diwylliant a'n treftadaeth ac yn unol â nodau llesiant Cymru.

# Pwrpas

Sefydlwyd y Bwrdd Uchelgais gan bartneriaid awdurdodau lleol fel cyd-bwyllgor yn 2019 a hwn yw'r corff sy'n gwneud penderfyniadau ar gyfer Cynllun Twf Gogledd Cymru, ynghyd ag arwain ar gydweithio economaidd rhanbarthol.

Wedi sicrhau'r Cynllun Twf ym mis Rhagfyr 2020, fe wnaeth y partneriaid gytuno i 'Gytundeb Llywodraethu 2'. Mae'r cytundeb, sy'n ddogfen sydd wedi'i rhwymo mewn cyfraith, yn diffinio rôl a swyddogaeth Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, a'i ddefnydd o bwerau dirprwyedig. Yn ogystal, mae'n amlinellu'r strwythurau gwneud penderfyniadau ac atebolrwydd democrataidd.

Mae trefniadau llywodraethu'r Cynllun Twf yn caniatáu i benderfyniadau gael eu gwneud mewn modd agored a thryloyw er budd y rhanbarth cyfan. Tra bod y Bwrdd Uchelgais yn gweithredu fel y corff gwneud penderfyniadau ar gyfer y Cynllun Twf, mae cysylltiadau ffurfiol ac anffurfiol cryf â Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU fel arianwyr y Cynllun Twf.

Mae'r Bwrdd Uchelgais wedi mabwysiadu model cyflawni sy'n seiliedig ar ddull arfer gorau ar gyfer rheoli'r portffolio, y rhaglenni a'r prosiectau. Mae'r dull hwn yn ffordd integredig o fodloni uchelgeisiau'r sefydliad, gan annog gwell penderfyniadau a chynyddu'r tebygolrwydd o gael deilliannau llwyddiannus.

## Cynllun Twf Gogledd Cymru

Nod y Cynllun Twf yw dod â dros £1 biliwn o fuddsoddiad i'r Gogledd er mwyn cynhyrchu dros 4000 o swyddi newydd a chynnydd mewn GVA o £2.4 biliwn. Mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i fuddsoddi £240 miliwn o gyfalaf ar y cyd dros gyfnod o 15 mlynedd, gyda'r gweddill wedi'i ddenu o ffynonellau preifat a chyhoeddus. Bydd y deilliannau a ddymunir o'r buddsoddiad hwn yn cael eu cyflawni dwy gyflawni portffolio o bum rhaglen ar wahân sy'n:

- adeiladu ar ein cryfderau rhanbarthol mewn gweithgynhyrchu ac ynni carbon isel
- targedu arloesedd ac isadeiledd digidol i gysylltu'r rhanbarth yn well
- buddsoddi mewn safleoedd ac eiddo allweddol ar gyfer y farchnad datblygu
- galluogi arloesedd i roi hwb i gynhyrchedd

- cefnogi ein diwydiannau allweddol o fewn twristiaeth ac amaeth i ddatblygu ar gyfer y dyfodol.

Y pum rhaglen yw **Ynni Carbon Isel, Bwyd-Amaeth a Thwristiaeth, Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel, Cysylltedd Digidol** a **Tir ac Eiddo.**

# Y Fframwaith Llywodraethu

Mae gan Uchelgais Gogledd Cymru fframwaith llywodraethu wedi'i sefydlu yn seiliedig ar arfer gorau. Mae Cytundeb Llywodraethu 2 yn diffinio swyddogaethau, pwerau a strwythurau atebolrwydd y Bwrdd a Chynllun Twf Gogledd Cymru. Mae gan Gynllun Twf Gogledd Cymru strwythur rheoli portffolio, rhaglenni a phrosiect wedi'i ddatblygu ac mae wedi datblygu fframwaith rheoli prosiectau i danategu'r gwaith o gyflawni Cynllun Twf Gogledd Cymru.

Mae'r Fframwaith Llywodraethu yn cynnwys y systemau, y prosesau, y diwylliannau a'r gwerthoedd y mae'r Bwrdd yn cael ei gyfarwyddo a'i reoli yn ei erbyn a hefyd y ffordd y mae'n atebol i'r Rhanbarth, yn ymgysylltu â'r Rhanbarth, ac yn arwain y Rhanbarth. Mae'n galluogi i'r Bwrdd fonitro cyrhaeddiad ei hamcanion strategol ac i ystyried p'un a yw'r amcanion hynny yn/wedi arwain at gyflawni prosiectau priodol, perthnasol a gwerth am arian.

Mae'r system o reolaeth fewnol yn rhan sylweddol o'r fframwaith hwnnw ac wedi'i dylunio i reoli risg i lefel resymol. Ei nod yw adnabod a blaenoriaethu'r risgiau allai rwystro gallu Uchelgais Gogledd Cymru i gyflawni ei bolisïau, ei nodau a'i amcanion. Mae'n gwerthuso tebygolrwydd ac effaith gwireddu'r risgiau sydd wedi'u hadnabod a rheoli risgiau unigol yn briodol.

Mae Uchelgais Gogledd Cymru wedi mabwysiadu a gweithredu cod Llywodraethu Corfforaethol yn seiliedig ar y Fframwaith *'Delivering Good Governance in Local Government'* a gyhoeddwyd gan y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) a Phrif Weithredwyr Ac Uwch Reolwyr y Gymdeithas Awdurdodau Lleol (SOLACE).

Mae'r fframwaith llywodraethu a ddisgrifir uchod wedi bod ar waith yn Uchelgais Gogledd Cymru am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022 ac mae'n parhau i fod yn berthnasol hyd at ddyddiad cymeradwyo'r Datganiad Cyfrifon.

Mae'r adran hon yn nodi sut mae Uchelgais Gogledd Cymru yn cyflawni yn erbyn saith egwyddor sylfaenol llywodraethu corfforaethol fel y'u nodir gan CIPFA/SOLACE:

## 1. Uniondeb a Gwerthoedd

Ymddwyn gydag uniondeb, yn dangos ymrwymiad cryf i werthoedd moesegol, a pharchu'r gyfraith.

- Mae disgwyliadau'r Swyddfa Rheoli Portffolio, Aelodau'r Bwrdd a'r Corff Atebol wedi'u nodi o fewn Cytundeb Llywodraethu 2. Mae'r Cytundeb yn nodi'r weithdrefn ar gyfer cyfarfodydd, strwythurau gwneud penderfyniadau, atebolrwydd democrataidd, polisi dirprwyaethau, trefniadau craffu ac yn cynnwys y Cod Ymddygiad.
- Mae polisi gwrthdaro buddiannau ar waith sy'n cwmpasu'r Cynllun Twf, yn benodol ar gyfer y byrddau portffolio, rhaglenni a phrosiectau. Mae datganiadau o ddiddordeb yn eitem sefydlog ar raglen y Bwrdd Uchelgais, Bwrdd Portffolio a phob Bwrdd Rhaglen a Phrosiect.
- Mae trefniadau Archwilio Mewnol ac Allanol yn eu lle.
- Mae pob adroddiad i'r Bwrdd Uchelgais yn cynnwys sylwadau statudol cyfreithiol/cyllid ymlaen llaw.
- Mae'r Swyddog Monitro yn sicrhau cydymffurfiaeth ar bob penderfyniad sy'n cael eu gwneud gan y Bwrdd Uchelgais.
- Mae trefniadau craffu ar waith gyda'r 6 awdurdod lleol.

## 2. Didwylledd ac ymgysylltu

Sicrhau didwylledd ac ymgysylltu cynhwysfawr gyda rhanddeiliaid.

- Mae cyfarfodydd y Bwrdd Uchelgais yn gyfarfodydd agored ac mae rhaglenni, papurau a chofnodion yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Corff Atebol.
- Mae'r broses gwneud penderfyniadau wedi'i hamlinellu o fewn Cytundeb Llywodraethu 2. Caiff adroddiadau eu trafod gan y Bwrdd Portffolio cyn eu cyflwyno i'r Bwrdd Uchelgais. Bydd ymgynghoriad priodol yn digwydd gyda Byrddau Rhaglenni a Phrosiectau, Llywodraethau a rhanddeiliaid allweddol.
- Mae'r trefniadau craffu yn caniatáu cyfranogiad gan aelodau o bob un o'r chwe awdurdod lleol.
- Mae'r Swyddfa Rheoli Portffolio yn hyrwyddo Uchelgais Gogledd Cymru ac yn annog ymgysylltu gyda'r gymuned ehangach yn y Gogledd fel yr amlinellir yn y Strategaeth Gyfathrebu.

## 3. Gwneud gwahaniaeth

Diffinio deilliannau o ran buddion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cynaliadwy.

- Mae gan Uchelgais Gogledd Cymru weledigaeth glir yn ei lle i gefnogi gwaith y Bwrdd; "Adeiladu economi mwy bywiog, cynaliadwy a gwydn yn y Gogledd."
- Mae gan Uchelgais Gogledd Cymru Ddatganiad a Methodoleg Newid Hinsawdd.
- Mae fframwaith gwireddu buddion wedi'i ddatblygu i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r Cynllun Twf.
- Mae'r Swyddfa Rheoli Portffolio yn cyflwyno adroddiadau cynnydd chwarterol a blynyddol i'r ddwy Llywodraeth a'r Bwrdd Uchelgais.

## 4. Gwneud yn siŵr ein bod yn cyflawni'r hyn a fwriadwyd

Pennu'r ymyraethau sydd eu hangen er mwyn gwneud y gorau wrth gyflawni'r deilliannau bwriadedig.

- Mae'r Bwrdd Uchelgais wedi penodi Swyddfa Rheoli Portffolio i sicrhau y cyflawnir y Cynllun Twf.
- Mae Uwch Swyddogion Cyfrifol wedi'u penodi i bob Rhaglen a Phrosiect.
- Caiff yr holl Raglenni eu cefnogi gan achosion busnes manwl.
- Bydd gofyn i bob Prosiect gyflwyno achosion busnes manwl.
- Caiff yr holl achosion busnes eu datblygu yn unol â'r canllaw *Better Business Case*.

## 5. Gwerthfawrogi ein pobl; ymgysylltu, arwain a chefnogi

Datblygu capasiti a gallu arweinyddiaeth ac unigolion.

- Mae Uchelgais Gogledd Cymru yn sicrhau bod gan swyddogion y Swyddfa Rheoli Portffolio y sgiliau a'r wybodaeth gywir i gyflawni eu rolau'n effeithiol. I sicrhau hyn, mae'r Swyddfa Rheoli Portffolio yn sicrhau bod yr holl swyddogion newydd yn cael eu croesawu'n gynhwysfawr ynghyd â darparu hyfforddiant perthnasol i'w swyddi.
- Mae'r strwythur llywodraethu yn cynnwys Bwrdd Cyflawni Busnes. Mae Cadeirydd y Bwrdd Cyflawni Busnes yn ymgynghorydd i'r Bwrdd Uchelgais Economaidd.
- Mae Cytundeb Llywodraethu 2 yn amlinellu'n glir rolau a chyfrifoldebau'r aelodau, yr ymgynghorwyr a'r swyddogion.
- Cyfarfodydd Bwrdd Portffolio a Bwrdd Uchelgais rheolaidd.

## 6. Rheoli risgiau, perfformiad a chyllid

Rheoli risgiau a pherfformiad drwy reolaeth fewnol gadarn a rheolaeth ariannol gyhoeddus gref.

- Mae Cynllun Rheoli Risg yn ei le, a chyflawnir Adroddiadau Perfformiad a Risg chwarterol i'r Bwrdd Portffolio a'r Bwrdd Uchelgais.
- Mae'r Portffolio, y Rhaglenni a'r Prosiectau yn cwblhau Asesiadau Proffil Risg cyn unrhyw weithgaredd sicrwydd.
- Caiff Achos Busnes y Portffolio ei ddiweddaru a'i gymeradwyo'n flynyddol.
- Mae Swyddog Adran 151 y Corff Atebol yn cyflwyno Adroddiadau Ariannol chwarterol i'r Bwrdd Portffolio a'r Bwrdd Uchelgais.
- Caiff y Gyllideb Flynyddol ei gosod ar y cyd gan Dîm Cyllid yr Awdurdod Lletya a'r Swyddfa Rheoli Portffolio. Caiff y Gyllideb Flynyddol ei chytuno gan y Bwrdd Portffolio a'r Bwrdd Uchelgais. Mae prosesau rheoli ariannol cadarn yn eu lle.
- Mae Uchelgais Gogledd Cymru yn ddarostyngedig i archwiliadau mewnol gan y corff atebol ac archwiliadau allanol gan Archwilio Cymru.
- Caiff adroddiadau Archwilio blynyddol eu cyflwyno gan y Corff Atebol i'r Bwrdd Uchelgais.

## 7. Tryloywder ac atebolrwydd da

Gweithredu arferion da mewn tryloywder, adrodd ac archwilio er mwyn cyflawni atebolrwydd effeithiol.


- Mae'r Swyddfa Rheoli Portffolio wedi datblygu Cynllun Sicrwydd a Chymeradwyaeth Integredig, Cynllun Monitro a Gwerthuso a Chynllun Busnes Portffolio.
- Caiff papurau cyfarfodydd y Bwrdd Uchelgais eu cyhoeddi ar wefan yr Awdurdod Lletya ynghyd â gwefan Uchelgais Gogledd Cymru. Mae hyn yn cynnwys adroddiadau perfformiad a risg chwarterol.
- Mae Uchelgais Gogledd Cymru yn cael Adolygiad Asesiad Prosiect (PAR) Portffolio a Rhaglen blynyddol gan ganolbwyntio ar gyflawni'r Cynllun Twf.
- Cyfarfodydd chwarterol gyda Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU.
- Mae prosiectau yn cael adolygiadau sicrwydd drwy gydol oes y prosiectau.
- Gweithredu argymhellion Archwilio Mewnol ac Archwilio Cymru.
- Mae'r Bwrdd Uchelgais wedi mabwysiadu'r Cod Llywodraethu Corfforaethol yn seiliedig ar fframwaith CIPFA.

# Llywodraethu'r Cynllun Twf

Mae'r Bwrdd Uchelgais wedi datblygu Fframwaith Rheoli Prosiect sy'n amlinellu sut caiff prosiectau'r Bwrdd Uchelgais eu cyfarwyddo, eu rheoli, eu diffinio a'u cyfathrebu.

Mae'r Fframwaith yn darparu ymagwedd arfer gorau a fydd yn helpu i gyflawni cydlyniad ar draws prosiectau'r sefydliad drwy fabwysiadu un dull fel y cânt eu gweithredu yn yr un ffordd, drwy felly ddarparu cysondeb, dilyniant ac eglurder yn yr ymagwedd, y cyfathrebu a'r cynnyrch a grëir. Mae'r Fframwaith hwn yn cyd-fynd â chanllawiau prosiect Llywodraeth EM gyda dulliau sydd wedi'u teilwra i fodloni gofynion Uchelgais Gogledd Cymru.

Mae'r diagram isod yn darparu trosolwg gweledol o'r fframwaith:




Caiff holl achosion busnes prosiectau Uchelgais Gogledd Cymru eu datblygu yn unol â chanllawiau *'Better Business Cases'* a'r model Pum Achos a ddatblygwyr gan Lywodraeth Cymru a Thrysorlys EM ynghyd â chanllaw Llyfr Gwyrdd Trysorlys EM. Mae'r holl achosion busnes yn ddarostyngedig i Adolygiadau Porth annibynnol gan Hwb Sicrwydd Integredig Llywodraeth Cymru, ym mhob cam penderfyniad allweddol, yn unol â Phrosesau Porth Swyddfa'r Cabinet. Caiff trefniadau caffael arianwyr eu craffu fel rhan o'r broses hon.

Mae gan Uchelgais Gogledd Cymru bolisi Gwrthdaro Buddiannau, sy'n pennu'r canllawiau a gweithdrefnau ar gyfer adnabod achosion o wrthdaro buddiannau, eu monitro a'u rheoli, p'un

a ydynt yn rhai go iawn neu'n rhai a allai ddigwydd. Yn unol â'r polisi, mae'r broses yn ei gwneud hi'n ofynnol i bob unigolyn ddatgan eu buddiannau drwy gofrestr pro forma, a gwelwyd tystiolaeth o hyn. Caiff disgrifiad, ynghyd â manylion unrhyw gyswllt sydd ynghlwm â'r rhaglen y mae'n ymwneud â nhw, ei gofnodi, a chaiff y pro forma ei lofnodi a'i gadw ar gofnodion y swyddfa portffolio. Roedd Aelodau Etholedig ac Ymgynghorwyr yn ddarostyngedig i'r trefniadau hyn mewn perthynas â gwrthdaro buddiannau drwy eu cod ymddygiad neu'r trefniadau cyfwerth yng Nghytundeb Llywodraethu (GA) 1 a 2.

Mae'r cytundeb ariannu rhwng Uchelgais Gogledd Cymru a phrif arianwyr y prosiectau yn cwmpasu gwrthdaro buddiannau ynghyd â'r angen i gaffael mewn modd tryloyw, cystadleuol a chynaliadwy.

# Sicrwydd

Gweithiodd y Swyddfa Rheoli Rhaglen â Chanolfan Sicrwydd Llywodraeth Cymru i ddatblygu Cynllun Sicrwydd a Chymeradwyo Integredig sy'n nodi'r gweithgareddau sicrwydd a gynhelir ar lefel portffolio, rhaglen a phrosiect ar gyfer Cynllun Twf Gogledd Cymru.

Fel rhan o'r Cynllun Sicrwydd a Chymeradwyo Integredig, bydd gweithgareddau sicrwydd yn digwydd ar draws pob lefel o'r Cynllun Twf - portffolio, rhaglen a phrosiect. Bydd Cynllun Twf Gogledd Cymru'n defnyddio'r Porth 0-5 sydd wedi'i ddiffinio'n barod a'r Adolygiadau Asesu Prosiect, fel sy'n briodol ac yn gymesur.

Mae IAAP Cynllun Twf Gogledd Cymru yn ymdrin â'r portffolio, y rhaglenni a'r prosiectau.

Bydd gofyn i'r portffolio, y pum rhaglen a'r holl brosiectau o fewn Cynllun Twf Gogledd Cymru gwblhau Asesiadau Proffil Risg (RPA) cyn i unrhyw weithgaredd sicrwydd ddigwydd.

Cytunwyd gyda Hwb Sicrwydd Integredig Llywodraeth Cymru y bydd Adolygiad Asesiad Portffolio, Rhaglen a Phrosiect blynyddol gan ganolbwyntio ar gyflawni'r Cynllun Twf.

Ar lefel prosiect, er y bydd union natur ac amseriad adolygiadau yn cael eu cytuno rhwng y Swyddfa Rheoli Portffolio, Hwb Sicrwydd Integredig Llywodraeth Cymru ac SRO y Prosiect, bydd yr egwyddorion a ganlyn yn cael eu cymhwyso:

- Cynhelir adolygiadau sicrwydd prosiectau drwy gydol cyfnod y prosiect ar gyfnodau y cytunir arnynt ymlaen llaw cyn pwyntiau penderfyniad allweddol. Gall lefel y sicrwydd amrywio fesul prosiect, ond byddai'n cynnwys o leiaf ddau adolygiad Porth allanol i bob prosiect, gan gynnwys adolygiad Porth 2 ac adolygiad gwireddu buddion. Nodir isod y rhesymeg dros bob dull arfaethedig:
    - Porth Prosiect 1 (Achos Amlinellol Strategol) - Dim ond ei angen ar gyfer prosiectau newydd neu'r rhai sydd yn y cam cysyniad ar hyn o bryd yn sgil yr Achos Busnes Rhaglen cymeradwy. Yr holl brosiectau eraill i gynhyrchu Achos Amlinellol Strategol/Achos Busnes Amlinellol ar gyfer Porth 2.
    - Porth Prosiect 2 (Achos Busnes Amlinellol) - Ei angen ar gyfer yr holl brosiectau o fewn y Cynllun Twf.

- Porth Prosiect 3 (Achos Busnes Llawn) - penderfyniad y Swyddfa Rheoli Portffolio ynghylch p'un a oes angen Porth 3 ar sail prosiect wrth brosiect. Cytunwyd rhwng y Swyddfa Rheoli Portffolio a Hwb Sicrwydd Integredig Llywodraeth Cymru gan ystyried argymhellion o Porth 2.
- Porth Prosiect 4 (Gweithredu) - penderfyniad y Swyddfa Rheoli Portffolio ynghylch p'un a oes angen Porth 3 ar sail prosiect wrth brosiect.
- Porth Prosiect 5 (Gwireddu Buddiannau) - Ei angen ar gyfer yr holl brosiectau o fewn y Cynllun Twf.

- Adolygiad Asesu Prosiect - Gellir ei ddefnyddio yn lle Porth 1-5 lle mae'r Swyddfa Rheoli Portffolio, mewn ymgynghoriad â Hwb Sicrwydd Llywodraeth Cymru yn ystyried ei fod yn fecanwaith adolygu mwy priodol.
- Mae'n bosib y bydd angen Adolygiadau Sicrwydd Ôl-ddilynol yn dilyn Adolygiad Porth lle mae prosiect yn derbyn asesiad hyder cyflawni Ambr/Coch neu Goch, neu lle codi materion neu bryderon rhwng y Pyrth 1-5 traddodiadol.

Mae'r tabl isod yn darparu crynodeb lefel uchel o'r Adolygiadau Pyrth mwyaf diweddar sydd wedi'u gwneud ar gyfer Cynllun Twf Gogledd Cymru:

**Crynodeb o Adolygiadau Pyrth diweddar Cynllun Twf Gogledd Cymru**

| | Math o Adolygiad | Dyddiad | Asesiad Hyder Cyflawni |
|---|---|---|---|
| Adolygiadau Portffolio a Rhaglen | | | |
| Cynllun Twf Gogledd Cymru | PAR Rhaglen a Phortffolio | Awst 2021 | AMBR/GWYRDD |
| Adolygiadau Prosiect | | | |
| Canolbwynt Economi Gwledig Glynllifon | Porth 2 | Ebrill 2021 | AMBR |
| Canolfan Prosesu Signal Digidol | Porth 2 | Mai 2021 | AMBR/GWYRDD |
| Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter | Porth 2 | Gorffennaf 2021 | AMBR/GWYRDD |
| Cyn Ysbyty Gogledd Cymru, Dinbych | Porth 2 | Hydref 2021 | AMBR |
| Fferm Sero Net Llysfasi | Porth 2 | Tachwedd 2021 | AMBR/GWYRDD |
| Yr ychydig % olaf | Porth 2 | Chwefror 2022 | AMBR/GOCH |
| | Porth 2 AAP | Mehefin 2022 | AMBR |

# Archwilio

## Trefniadau Archwilio Mewnol ac Allanol

Bydd Cyngor Gwynedd, fe yr Corff Atebol, yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau archwilio mewnol i'r Bwrdd Uchelgais a bydd adroddiadau archwilio yng nghyswllt y Bwrdd Uchelgais yn cael eu hystyried yn unol â'i reolau a'i arferion arferol. Bydd Archwilio Mewnol yn ymgymryd â'u gwaith yn unol, gyhyd ag sy'n ymarferol, â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus a'r *Local Government Application Note for the United Kingdom Public Sector Internal Audit Standards* Er mwyn osgoi amheuaeth, caiff adroddiad archwilio mewnol blynyddol ei gyflwyno gan Reolwr Archwilio'r Corff Atebol i'r Bwrdd Uchelgais.

Darperir gwasanaethau Archwilio Allanol drwy Archwilio Cymru a fydd yn adolygu a gwneud sylwadau ar agweddau ariannol Llywodraethu Corfforaethol sy'n cynnwys cyfreithlondeb trafodion ariannol, statws ariannol, systemau Rheolaeth Ariannol Mewnol a safonau ymddygiad ariannol a thwyll a llygredd.

## Adroddiad Archwilio Mewnol 2021

Pwrpas yr archwiliad oedd sicrhau bod trefniadau llywodraethu'r Bwrdd yn briodol. I gyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu adolygu trefniadau diwydrwydd dyladwy'r Bwrdd er mwyn craffu achosion busnes ac unrhyw fuddiolwyr posib, gan sicrhau nad oes unrhyw wrthdaro buddiannau, mewn ymateb i bryderon Gweinidog Cymru Llywodraeth y DU ynghylch gwendidau sydd eisoes wedi'u hadnabod mewn prosiect heb gysylltiad.

## Lefel Sicrwydd Archwilio

Archwiliwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risg. Daeth asesiad yr archwiliwr i'r casgliad bod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Sicrwydd | Disgrifiad |
|---|---|
| UCHEL | Gellir datgan sicrwydd priodoldeb oherwydd y gellir dibynnu ar reolaethau mewnol i gyflawni amcanion. |

# Rheoli Risg

Mae'r Bwrdd Uchelgais wedi mabwysiadu Fframwaith Risg a Materion ar gyfer cyflawni Cynllun Twf Gogledd Cymru. Mae'r Fframwaith yn nodi sut i reoli risgiau a materion ar y lefel briodol ar draws y portffolio, gyda phrosesau dyrchafu clir yn eu lle.

Mae ymagwedd y Portffolio at reoli risg wedi'i amlinellu yn Strategaeth Rheoli Risgiau a Materion y Cynllun Twf a'r Canllaw i Ddefnyddwyr. Mae'r ddogfen hon yn diffinio ac yn egluro'r egwyddorion rheoli risg, y cysyniadau, strwythurau, prosesau, teclynnau a'r rolau a'r cyfrifoldebau cysylltiedig a weithredir i sicrhau bod y risgiau i amcanion y Rhaglen yn cael eu rheoli'n effeithiol.

Tynnir y prif egwyddorion a'r cysyniadau a amlinellir yn y strategaeth hon o ddeunydd Rheoli Risg yr OGC. Mae'r egwyddorion a'r cysyniadau hyn wedi cael eu teilwra'n briodol ar gyfer gofynion Cynllun Twf Gogledd Cymru.

Mae'r Strategaeth Rheoli Risg a Materion ym mherchnogaeth y Swyddfa Rheoli Portffolio ac yn cael ei storio yn eu system rheoli dogfennau. Bydd angen i bob prosiect nodi eu strategaeth rheoli risg fel rhan o achosion busnes y prosiectau.


Mae'r Strategaeth yn nodi tair lefel o risg sy'n gysylltiedig â chyflawni'r Cynllun Twf gyda phroses uwchgyfeirio glir yn ei lle rhwng y tair lefel.

**Risgiau Lefel Portffolio** – Mae risg portffolio yn ddigwyddiad neu'n amod ansicr a fydd, os bydd yn digwydd, yn cael effaith ar un neu fwy o nodau strategol portffolio'r Cynllun Twf.

**Risg Lefel Rhaglen** – Mae risg rhaglen yn ddigwyddiad neu'n amod ansicr a fydd, os bydd yn digwydd, yn cael effaith ar o leiaf un budd rhaglen.

**Risgiau Lefel Prosiect** – Mae risg prosiect yn ddigwyddiad neu'n amod ansicr a fydd, os bydd yn digwydd, yn cael effaith ar o leiaf un amcan prosiect.

Figure 1.1 Proses Uwchgyfeirio Risgiau




Ffynhonnell: Uchelgais Gogledd Cymru

# Crynodeb a Chasgliad

Mae'r trefniadau llywodraethu a sicrwydd sydd yn eu lle yn gadarn, yn dryloyw ac wedi'u seilio ar yr arfer gorau. Wrth i'r Cynllun Twf aeddfedu a dechrau ar y cyfnod cyflawni mae'n bwysig bod y trefniadau a'r prosesau yn cael eu hadolygu a'u haddasu'n barhaus i sicrhau eu bod yn cyd-fynd yn briodol â cham perthnasol y Cynllun Twf. Bydd yn dod yn fwyfwy pwysig sicrhau hyblygrwydd ac ystwythder o fewn y prosesau y cytunwyd arnynt i wynebu'r heriau o sicrhau buddsoddiad gan y sector preifat a chyflawni'r cynllun mewn hinsawdd economaidd heriol.

**ADRODDIAD I FWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU**

**30/09/2022**

**Teitl:** Cyllideb Refeniw a Chyfalaf 2022/23 - Adolygiad Diwedd Awst 2022.

**Awdur:** Dewi A. Morgan, Swyddog Cyllid Statudol yr Awdurdod Lletya
Sian Pugh, Cyfrifydd Grŵp yr Awdurdod Lletya

**1. Pwrpas yr Adroddiad**

1.1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw darparu manylion y gwariant a'r incwm refeniw gwirioneddol hyd at ddiwedd Awst 2022, i Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, ynghyd â rhagamcaniad o'r alldro blwyddyn lawn yn erbyn ei gyllideb flynyddol. Mae hefyd yn dangos y rhaglen gyfalaf arfaethedig ddiwygiedig fel ag ar ddiwedd Awst 2022.

1.2 Er mwyn gweithredu'n effeithiol, mae angen i'r Cyd-bwyllgor fod yn ymwybodol o'i sefyllfa gwariant a ragamcanir yn erbyn ei gyllideb flynyddol gymeradwy.

**2. Y Penderfyniad a Geisir**

**Gofynnir i'r Bwrdd:-**

**2.1 Nodi a derbyn adolygiad refeniw diwedd Awst 2022 y Bwrdd Uchelgais (Atodiad 1), sy'n cynnwys hawlio swm llai o grant Cynllun Twf Gogledd Cymru er mwyn gadael sefyllfa niwtral ar gyfer y flwyddyn.**

**2.2 Nodi a derbyn diweddariad cronfeydd wrth gefn y Bwrdd Uchelgais (Atodiad 2).**

**2.3 Cytuno ar broffil gwariant cyfalaf diwygiedig a chynllun cyflawni prosiectau'r Bwrdd Uchelgais (Atodiad 3 a 4).**

**3. Y Rhesymau dros y Penderfyniad**

3.1 Nodi tanwariant a ragwelir o £189,048 yn erbyn y gyllideb refeniw yn 2022/23. Defnyddir unrhyw danwariant ar ddiwedd y flwyddyn ariannol i leihau'r swm a hawlir o Grant Cynllun Twf Gogledd Cymru.

3.2 Nodi llithriad ar y rhaglen gyfalaf ar draws yr holl bortffolio, gyda nifer is o achosion busnes wedi'u cymeradwyo nag a ragwelwyd yn wreiddiol ar y pwynt hwn.

**4. Cefndir ac Ystyriaethau Perthnasol**

4.1 Yn ei gyfarfod ar 25 Mawrth 2022, cymeradwyodd y Bwrdd Uchelgais ei gyllideb refeniw a chyfalaf ar gyfer 2022/23.

4.2 Parheir i fonitro ac adolygu'r gyllideb drwy gydol blwyddyn ariannol 2022/23, a chyflwynir adroddiad chwarter tri i'r Bwrdd Portffolio a'r Bwrdd Uchelgais ym mis Ionawr 2023.

**<u>Refeniw</u>**

**5. Gwariant ac incwm yn 2022/23**

5.1 Mae Atodiad 1 yn darparu dadansoddiad manwl o'r gwariant a'r incwm gwirioneddol hyd at ddiwedd Awst 2022, ynghyd â rhagamcaniad o'r alldro blwyddyn lawn yn erbyn ei gyllideb flynyddol.

5.2 Rhagwelir y bydd y sefyllfa alldro net ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2022/23 yn danwariant o £189,048.

<u>Swyddfa Rheoli Portffolio</u>

5.3 Mae rhagamcan o danwariant o £37,944 ar gyfer y Swyddfa Rheoli Portffolio yn 2022/23. Mae hyn yn bennaf yn sgil tanwariant o £11,026 ar wariant Gweithwyr; tanwariant o £18,480 ar gyfraniad y Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol (RET) a thanwariant o £10,000 ar y pennawd adroddiad Arfarniad ESF.

Gwasanaethau Cefnogol y Corff Atebol

5.4 Mae'r pennawd Gwasanaethau Cefnogol y Corff Atebol yn dangos gorwariant o £5,000, ac mae hyn yn sgil gorwariant ar y gyllideb Cyfreithiol.

Cyd-bwyllgor

5.5 Mae tanwariant net o £9,750 ar y pennawd Cyd-bwyllgor, sy'n cynnwys tanwariant o £18,000 ar Gefnogaeth Gyfreithiol Allanol, tanwariant o £5,000 ar Ffioedd Cyllidol Allanol a gorwariant o £13,250 ar y Ffioedd Archwilio Allanol. Mae'r ffioedd archwilio wedi'u hamcangyfrif yn seiliedig ar gynllun Archwilio, Archwilio Cymru ar gyfer 2022 a gyflwynwyd i'r Bwrdd ym mis Gorffennaf, a oedd yn cynnwys ffi ar gyfer y gwaith archwilio perfformiad nad oedd wedi'i chynnwys yn y gyllideb.

5.6 Yn adroddiad Cyllideb 2022/23, cymeradwyodd y Bwrdd Uchelgais gais y Bwrdd Cyflawni Busnes bod y tanwariant o £20,000 o 2021/22 yn cael ei gario ymlaen i 2022/23 i roi cyfanswm cyllideb o £40,000 iddynt, ond mae hi bellach yn annhebygol y bydd angen y swm ychwanegol hwn eleni.

Prosiectau

5.7 Mae'r pennawd Prosiectau yn dangos tanwariant o £160,500, ac mae hyn yn sgil llithriad ar y rhaglen gyfalaf.

Cynlluniau Grant

5.8 Y cynlluniau grant a ariennir 100% ar gyfer eleni, yw'r prosiectau Cronfa Adfywio Cymunedol sy'n cael ei dderbyn gan bedwar awdurdod lleol (Sir Ddinbych, Gwynedd, Ynys Môn a Wrecsam) a grant yr arolwg cwmpas ffonau symudol, a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru.

Cyfraniadau Ariannu

5.9 Mae'r prif ffrydiau Incwm ar gyfer 2022/23 yn cynnwys cyfraniadau partneriaid, Grant ESF, clustnodiad refeniw Grant Cynllun Twf Gogledd Cymru, cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd a grantiau penodol eraill a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn.

5.10 Gan byddai tynnu'r swm sydd wedi'i gyllidebu o £750,000 i lawr ar gyfer Cynllun Twf Gogledd Cymru yn rhoi tanwariant tebygol o £189,048 i'r Bwrdd Uchelgais ar gyfer y flwyddyn ariannol hon, awgrymir bod swm is o £560,952 yn cael ei hawlio (gyda'r union ffigwr i'w gadarnhau ar ddiwedd y flwyddyn) a fyddai wedyn yn gadael sefyllfa niwtral i'r Bwrdd eleni.

Cronfeydd Wrth Gefn y Bwrdd Uchelgais

5.11 Mae Atodiad 2 yn dangos y balansau wrth gefn agoriadol ar gyfer y flwyddyn, a'r balansau a amcangyfrif ar 31 Mawrth 2023.

5.12 Cyfanswm balans y gronfa wrth gefn gyffredinol a glustnodwyd, ar 31 Mawrth 2022 oedd £637,027, a defnyddir £85,000 o'r gronfa wrth gefn hon yn 2022/23 i roi amcangyfrif balans o £552,027 ar 31 Mawrth 2023. Mae'r Bwrdd eisoes wedi cymeradwyo defnyddio'r gronfa wrth gefn hon i ariannu staff y Swyddfa Rheoli Portffolio hyd at fis Mawrth 2024.

5.13 Balans y gronfa prosiectau wrth gefn ar 31 Mawrth 2022 oedd £195,000, a chaiff hwn ei neilltuo i gefnogi cyflawni blaenoriaethau'r Fframwaith Economaidd Rhanbarthol. Disgwylir cyfanswm o £100,000 o wariant yn ystod 2022/23 i roi amcangyfrif balans diwedd blwyddyn o £95,000.

5.14 Caiff y gronfa llog wrth gefn ei ddiogelu i ariannu cost benthyca yn y dyfodol. Ei balans ar 31 Mawrth 2022 oedd £699,145, a bydd cyfraniadau llog partneriaid o £264,600 ar gyfer 2022/23 yn cael eu hychwanegu i'r gronfa wrth gefn i roi amcangyfrif balans o £963,745 ar 31 Mawrth 2023. Bydd y llog ar y balans wrth gefn hwn ynghyd â'r llog ar y grant cyfalaf yn cael eu hychwanegu ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Yn sgil y balans grant cyfalaf o tua £34m ynghyd â'r cynnydd mewn cyfraddau llog yn y misoedd diwethaf, mae hyn yn debygol o fod tua £500k i £600k eleni.

**Cyfalaf**

5.15 Mae Atodiad 3 yn dangos y rhaglen gyfalaf arfaethedig ddiwygiedig ar ddiwedd Awst 2022 ac mae hyn yn cyfateb i'r Cynllun Cyflawni Prosiectau yn Atodiad 4. Er bod y prosiect canolfan Prosesu Signalau Digidol (DSP) yn parhau a rhagwelir gwariant pellach yn 2022/23, bu llithriad ar y rhaglen gyfalaf ar draws yr holl bortffolio, gyda nifer is o achosion busnes wedi'u cymeradwyo nag a ragwelwyd yn wreiddiol ar y pwynt hwn. Yn y gyllideb Cyfalaf a gymeradwywyd ym mis Mawrth 2022, y disgwyl oedd y byddai'r rhaglen gyfalaf yn rhedeg tan 2028/29, ond mae'r proffil diwygiedig nawr yn dangos y bydd un o'r prosiectau yn rhedeg tan 2032/33. Mae hyn felly yn rhoi ffigyrau llithriad diwygiedig yn erbyn y gyllideb wreiddiol a gymeradwywyd yn mis Mawrth 2022 o £1.86m yn 2021/22, llithriad a ragwelir o £26.55m yn 2022/23 a £32.46m yn 2023/24. Yn seiliedig ar y proffil diwygiedig hwn, bydd grant Cynllun Twf Gogledd Cymru yn ddigonol i gyllido'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer y tair blynedd gyntaf, ac ni fydd angen benthyca'n allanol tan 2024/25.

**6. Goblygiadau Staffio**

6.1 Mae'r holl swyddi gwag yn y Swyddfa Rheoli Portffolio wedi'u llenwi, ac mae amcangyfrif o'r sefyllfa alldro ar gyfer 2022/23 yn adlewyrchu'r holl recriwtio sydd wedi digwydd yn y misoedd diwethaf.

**7. Ymgynghoriadau a gynhaliwyd**

7.1 Cyflwynwyd yr atodiadau, ynghyd â chrynodeb o gynnwys yr adroddiad hwn, i'r Bwrdd Portffolio ar 16 Medi 2022.

**8. Atodiadau**

Atodiad 1 - Cyllideb Refeniw y Bwrdd Uchelgais Economaidd 2022/23 - Adolygiad Diwedd Awst 2022

Atodiad 2 - Cronfeydd y BUEGC.

Atodiad 3 - Cyllideb Cyfalaf y Bwrdd Uchelgais Economaidd 2022/23 - Adolygiad Diwedd Awst 2022

Atodiad 4 - Cynllun Cyflawni Prosiect Medi 2022

**YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:**

**i. Swyddog Monitro - Corff Atebol:**

Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.

**ii. Swyddog Cyllid Statudol - Corff Atebol:**

Awdur yr adroddiad hwn.

Cyllideb Refeniw y Bwrdd Uchelgais Economaidd 2022/23 - Adolygiad diwedd Awst 2022 **Atodiad 1**

| Gwariant | Cyllideb Sylfaenol (£) | Trosglwyddiadau unwaith ac am byth (£) | Cyfanswm Cyllideb (£) | Awst 2022 (£) | Ymrwymiadau Awst 2022 (£) | Amcangyfrif o'r Sefyllfa Derfynol (£) | Gor / (Tan)wariant (£) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Swyddfa Rheoli Portffolio** | | | | | | | |
| Gwariant Gweithwyr (Cyflog, Y.G. a Blwydd-dal) | 1,318,060 | 0 | 1,318,060 | 497,727 | 0 | 1,307,034 | (11,026) |
| Hysbysebu ac Asesu Ymgeiswyr | 570 | 0 | 570 | 3,195 | 0 | 6,195 | 5,625 |
| Teithio a Chynhaliaeth | 10,000 | 0 | 10,000 | 2,634 | 0 | 10,000 | 0 |
| Hyfforddiant | 12,500 | 12,500 | 25,000 | 2,850 | 250 | 20,000 | (5,000) |
| Ymgysylltu, Digwyddiadau a Chyfarfodydd | 12,500 | 0 | 12,500 | 1,500 | 426 | 7,500 | (5,000) |
| Cyfathrebu a Chysylltiadau Cyhoeddus | 35,000 | 22,500 | 57,500 | 24,175 | 15,940 | 57,500 | 0 |
| Cyflenwadau a Gwasanaethau | 10,000 | 0 | 10,000 | 6,088 | 3,173 | 15,000 | 5,000 |
| Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol | 42,290 | 0 | 42,290 | 0 | 1,990 | 23,810 | (18,480) |
| Eiddo | 30,000 | 0 | 30,000 | 13,664 | 0 | 30,937 | 937 |
| Arfarniad ESF | 0 | 40,000 | 40,000 | 0 | 0 | 30,000 | (10,000) |
| Datblygu Portffolio a Rhaglenni | 40,000 | 10,000 | 50,000 | 22,711 | 1,013 | 50,000 | 0 |
| **Cyfanswm Swyddfa Rheoli Rhaglen** | **1,510,920** | **85,000** | **1,595,920** | **574,544** | **22,792** | **1,557,976** | **(37,944)** |
| **Gwasanaethau Cefnogol y Corff Atebol** | | | | | | | |
| Cefnogaeth Gwasanaethau Cyllid | 104,840 | 0 | 104,840 | 0 | 0 | 104,840 | 0 |
| Cyfreithiol (yn cynnwys y Swyddog Monitro) | 26,530 | 0 | 26,530 | 0 | 0 | 31,530 | 5,000 |
| Cefnogaeth Gorfforaethol | 38,160 | 0 | 38,160 | 2,983 | 0 | 38,160 | 0 |
| Technoleg Gwybodaeth | 24,850 | 0 | 24,850 | 0 | 0 | 24,850 | 0 |
| Yswiriant | 2,980 | 0 | 2,980 | 0 | 0 | 2,980 | 0 |
| **Cyfanswm Gwasanaethau Cefnogol y Corff Atebol** | **197,360** | **0** | **197,360** | **2,983** | **0** | **202,360** | **5,000** |
| **Cyd-bwyllgor** | | | | | | | |
| Cefnogaeth Gyfreithiol Allanol | 18,000 | 0 | 18,000 | 0 | 0 | 0 | (18,000) |
| Ffioedd Cyllidol Allanol | 10,000 | 0 | 10,000 | 0 | 0 | 5,000 | (5,000) |
| Ffi Archwilio Allanol | 11,400 | 0 | 11,400 | 0 | 0 | 24,650 | 13,250 |
| Bwrdd Cyflawni Busnes | 20,000 | | 20,000 | 0 | 0 | 20,000 | 0 |
| **Cyfanswm Cyd-bwyllgor** | **59,400** | **0** | **59,400** | **0** | **0** | **49,650** | **(9,750)** |
| **Prosiectau** | | | | | | | |
| Datblygu Achosion Busnes y Prosiectau | 350,000 | 0 | 350,000 | 17,000 | 77,436 | 279,500 | (70,500) |
| Cefnogaeth Gyfreithiol Allanol | 100,000 | 0 | 100,000 | 2,645 | 0 | 50,000 | (50,000) |
| Cefnogaeth Cyllidol Allanol | 18,000 | 0 | 18,000 | 0 | 0 | 18,000 | 0 |
| Cefnogaeth Caffael Allanol | 50,000 | 0 | 50,000 | 2,492 | 0 | 50,000 | 0 |
| Sicrwydd | 80,000 | 0 | 80,000 | 0 | 1,980 | 40,000 | (40,000) |
| **Cyfanswm Prosiectau** | **598,000** | **0** | **598,000** | **22,137** | **79,416** | **437,500** | **(160,500)** |
| **Cynlluniau grantiau** | | | | | | | |
| Prosiectau Cronfa Adfywio Cymunedol | 241,270 | 0 | 241,270 | 184,068 | 57,271 | 241,339 | 69 |
| Arolwg cwmpas ffonau symudol | 0 | 0 | 0 | 14,694 | 0 | 14,694 | 14,694 |
| **Cyfanswm Cynlluniau grantiau** | **241,270** | **0** | **241,270** | **198,762** | **57,271** | **256,033** | **14,763** |
| **Trosglwyddiadau i gronfeydd** | | | | | | | |
| Cyfraniadau llog y Partneriaid | 264,600 | 0 | 264,600 | 0 | 0 | 264,600 | 0 |
| **Cyfanswm trosglwyddiadau i gronfeydd** | **264,600** | **0** | **264,600** | **0** | **0** | **264,600** | **0** |
| **Cyfanswm Gwariant** | **2,871,550** | **85,000** | **2,956,550** | **798,426** | **159,479** | **2,768,119** | **(188,431)** |

**Cyllideb Refeniw y Bwrdd Uchelgais Economaidd 2022/23 - Adolygiad diwedd Awst 2022** **Atodiad 1**

| | Cyllideb Sylfaenol | Trosglwyddiadau unwaith ac am byth | Cyfanswm Cyllideb | Awst 2022 | Ymrwymiadau Awst 2022 | Amcangyfrif o'r Sefyllfa Derfynol | Gor / (Tan)wariant |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Incwm** | **(£)** | **(£)** | **(£)** | **(£)** | **(£)** | **(£)** | **(£)** |
| **Cyfraniadau Ariannu** | | | | | | | |
| **Cyfraniadau Partneriaid** | | | | | | | |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | (52,000) | 0 | (52,000) | (52,000) | 0 | (52,000) | 0 |
| Cyngor Sir Ddinbych | (52,000) | 0 | (52,000) | (52,000) | 0 | (52,000) | 0 |
| Cyngor Sir y Fflint | (52,000) | 0 | (52,000) | (52,000) | 0 | (52,000) | 0 |
| Cyngor Gwynedd | (52,000) | 0 | (52,000) | (52,000) | 0 | (52,000) | 0 |
| Cyngor Sir Ynys Môn | (52,000) | 0 | (52,000) | (52,000) | 0 | (52,000) | 0 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | (52,000) | 0 | (52,000) | (52,000) | 0 | (52,000) | 0 |
| Prifysgol Bangor | (26,000) | 0 | (26,000) | (26,000) | 0 | (26,000) | 0 |
| Prifysgol Glyndŵr Wrecsam | (26,000) | 0 | (26,000) | (26,000) | 0 | (26,000) | 0 |
| Coleg Cambria | (26,000) | 0 | (26,000) | (26,000) | 0 | (26,000) | 0 |
| Grŵp Llandrillo Menai | (26,000) | 0 | (26,000) | (26,000) | 0 | (26,000) | 0 |
| **Cyfraniadau Atodol Awdurdodau Lleol** | | | | | | | |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | (40,000) | 0 | (40,000) | (40,000) | 0 | (40,000) | 0 |
| Cyngor Sir Ddinbych | (40,000) | 0 | (40,000) | (40,000) | 0 | (40,000) | 0 |
| Cyngor Sir y Fflint | (40,000) | 0 | (40,000) | (40,000) | 0 | (40,000) | 0 |
| Cyngor Gwynedd | (40,000) | 0 | (40,000) | (40,000) | 0 | (40,000) | 0 |
| Cyngor Sir Ynys Môn | (40,000) | 0 | (40,000) | (40,000) | 0 | (40,000) | 0 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | (40,000) | 0 | (40,000) | (40,000) | 0 | (40,000) | 0 |
| **Cyfraniadau llog y Partneriaid** | | | | | | | |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | (31,770) | 0 | (31,770) | (31,770) | 0 | (31,770) | 0 |
| Cyngor Sir Ddinbych | (25,730) | 0 | (25,730) | (25,730) | 0 | (25,730) | 0 |
| Cyngor Sir y Fflint | (42,200) | 0 | (42,200) | (42,200) | 0 | (42,200) | 0 |
| Cyngor Gwynedd | (33,610) | 0 | (33,610) | (33,610) | 0 | (33,610) | 0 |
| Cyngor Sir Ynys Môn | (18,720) | 0 | (18,720) | (18,720) | 0 | (18,720) | 0 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | (36,280) | 0 | (36,280) | (36,280) | 0 | (36,280) | 0 |
| Prifysgol Bangor | (36,650) | 0 | (36,650) | (36,650) | 0 | (36,650) | 0 |
| Prifysgol Glyndŵr Wrecsam | (13,610) | 0 | (13,610) | (13,610) | 0 | (13,610) | 0 |
| Coleg Cambria | (13,560) | 0 | (13,560) | (13,560) | 0 | (13,560) | 0 |
| Grŵp Llandrillo Menai | (12,470) | 0 | (12,470) | (12,470) | 0 | (12,470) | 0 |
| **Eraill** | | | | | | | |
| Cyllid Blaenoriaeth 5 y Gronfa Gymdeithasol Ewropeaidd | (959,680) | 0 | (959,680) | (67,613) | 0 | (936,853) | 22,827 |
| Grant Bargen Twf Gogledd Cymru (Gwynedd) | (750,000) | 0 | (750,000) | 0 | 0 | (750,000) | 0 |
| Grant Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd | 0 | 0 | 0 | (8,681) | 0 | (8,681) | (8,681) |
| Cronfa Wrth Gefn wedi'i Chlustnodi | 0 | (85,000) | (85,000) | 0 | 0 | (85,000) | 0 |
| Cronfa Adfywio Cymunedol | (241,270) | 0 | (241,270) | (48,046) | 0 | (241,339) | (69) |
| Grant Arolwg cwmpas ffonau symudol | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | (14,694) | (14,694) |
| **Cyfanswm Incwm** | **(2,871,550)** | **(85,000)** | **(2,956,550)** | **(1,044,940)** | **0** | **(2,957,167)** | **(617)** |
| **Gor / (Tan) wariant Net** | **0** | **0** | **0** | **(246,514)** | **159,479** | **(189,048)** | **(189,048)** |

**Cronfeydd y BUEGC** **Atodiad 2**

| | £ |
|---|---|
| **Cyfanswm y gronfa wrth gefn ar 31 Mawrth 2022** | **(637,027)** |
| Dyraniad Cyllideb 2022/23 | 85,000 |
| **Cyfanswm y gronfa wrth gefn ar 31 Mawrth 2023** | **(552,027)** |

| | £ |
|---|---|
| **Cyfanswm y gronfa Prosiectau ar 31 Mawrth 2022** | **(195,000)** |
| Amcan gwariant 2022/23 | 100,000 |
| **Cyfanswm y gronfa Prosiectau ar 31 Mawrth 2023** | **(95,000)** |

| | £ | |
|---|---|---|
| **Cyfanswm y gronfa llog ar 31 Mawrth 2022** | **(699,145)** | |
| Cyfraniadau llog y partneriaid 2022/23 | (264,600) | |
| **Cyfanswm y gronfa llog ar 31 Mawrth 2023** | **(963,745)** | * |

* *Bydd llog ar falansau yn cael ei ychwanegu ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.*


**Cyllideb Cyfalaf y Bwrdd Uchelgais Economaidd 2022/23 - Adolygiad Diwedd Awst 2022** **Atodiad 3**

| Rhaglen | Prosiect | Ariannwr y Prosiect | 2021/22 (£m) | 2022/23 (£m) | 2023/24 (£m) | 2024/25 (£m) | 2025/26 (£m) | 2026/27 (£m) | 2027/28 (£m) | 2028/29 (£m) | 2029/30 (£m) | 2030/31 (£m) | 2031/32 (£m) | 2032/33 (£m) | 2033/34 (£m) | 2034/35 (£m) | Cyfanswm (£m) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Digidol | Canolfan Prosesu Signal Digidol | Prifysgol Bangor | 0.12 | 1.70 | 0.70 | 0.44 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 2.96 |
| Digidol | Safleoedd a Choridorau Allweddol Cysylltiedig | BUEGC | 0.00 | 0.00 | 1.00 | 3.83 | 4.04 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 8.87 |
| Digidol | Campws Cysylltiedig | BUEGC | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.29 | 3.88 | 5.83 | 5.83 | 4.85 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 20.68 |
| Digidol | Cysylltu ychydig ganrannau olaf | BUEGC | 0.00 | 0.00 | 1.46 | 1.47 | 1.01 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 3.94 |
| Ynni carbon isel | Morlais | Menter Môn | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 3.33 | 4.44 | 1.10 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 8.87 |
| Ynni carbon isel | Canolfan Ragoriaeth Carbon Isel | Prifysgol Bangor | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 5.91 | 9.85 | 4.92 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 20.68 |
| Ynni carbon isel | Gorsaf Bŵer Trawsfynydd | Cwmni Egino | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 1.97 | 2.96 | 4.92 | 9.85 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 19.70 |
| Ynni carbon isel | Datgarboneiddio Trafnidiaeth | BUEGC | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 5.61 | 5.62 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 11.23 |
| Ynni carbon isel | Ynni Lleol Blaengar | BUEGC | 0.00 | 0.00 | 2.46 | 2.46 | 2.46 | 2.46 | 2.46 | 2.46 | 2.46 | 2.47 | 2.47 | 2.47 | 0.00 | 0.00 | 24.63 |
| Tir ac eiddo | Porth Caergybi | Stena Line | 0.00 | 0.00 | 9.85 | 17.24 | 7.38 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 34.47 |
| Tir ac eiddo | Safle Strategol Warren Hall | BUEGC | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 14.77 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 14.77 |
| Tir ac eiddo | Safle cyn Ysbyty Gogledd Cymru, Dinbych | BUEGC | 0.00 | 0.00 | 1.97 | 1.97 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 3.94 |
| Tir ac eiddo | Safle Strategol Bodelwyddan[1] | BUEGC | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.49 | 0.99 | 5.42 | 2.95 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 9.85 |
| Tir ac eiddo | Safle Strategol Parc Bryn Cegin | BUEGC | 0.00 | 0.00 | 1.48 | 4.43 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 5.91 |
| Tir ac eiddo | Porth Wrecsam | BUEGC | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 7.19 | 1.77 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 8.96 |
| Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel | Canolfan Biotechnoleg Amgylcheddol | Prifysgol Bangor | 0.00 | 0.00 | 1.25 | 1.71 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 2.96 |
| Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel | Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter | Prifysgol Glyndŵr | 0.00 | 0.00 | 2.12 | 3.91 | 3.65 | 0.17 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 9.85 |
| Bwyd-amaeth a thwristiaeth | Canolbwynt Economi Gwledig Glynllifon | Grŵp Llandrillo Menai | 0.00 | 0.00 | 7.20 | 2.65 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 9.85 |
| Bwyd-amaeth a thwristiaeth | Fferm Sero Net Llysfasi | Coleg Cambira | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 5.00 | 4.00 | 0.40 | 0.45 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 9.85 |
| Bwyd-amaeth a thwristiaeth | Academi Twristiaeth | Grŵp Llandrillo Menai | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 4.43 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 4.43 |
| 1.5% ar gyfer ariannu cyllideb refeniw y BUEGC [2] | | | 0.22 | 0.75 | 0.75 | 0.30 | 0.30 | 0.25 | 0.20 | 0.20 | 0.15 | 0.10 | 0.10 | 0.10 | 0.10 | 0.08 | 3.60 |
| **Gwariant disgwyliedig erbyn 31/03** | | | **0.34** | **2.45** | **30.24** | **69.02** | **67.11** | **31.09** | **21.74** | **7.51** | **2.61** | **2.57** | **2.57** | **2.57** | **0.10** | **0.08** | **240.00** |
| **Cyllideb wedi ei chymeradwyo (Mawrth 2022)** | | | **2.20** | **29.00** | **62.70** | **67.24** | **42.59** | **19.08** | **14.20** | **2.99** | **0.00** | **0.00** | **0.00** | **0.00** | **0.00** | **0.00** | **240.00** |
| **Gwahaniaeth** | | | **(1.86)** | **(26.55)** | **(32.46)** | **1.78** | **24.52** | **12.01** | **7.54** | **4.52** | **2.61** | **2.57** | **2.57** | **2.57** | **0.10** | **0.08** | **0.00** |
| **Ariannu Cyfalaf** | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Grant Bargen Twf Gogledd Cymru | | | 0.34 | 2.45 | 30.24 | 44.29 | 20.44 | 20.44 | 20.45 | 7.51 | 2.61 | 2.57 | 2.57 | 2.57 | 0.10 | 0.08 | 156.66 |
| Benthyciad | | | | | | 24.73 | 46.67 | 10.65 | 1.29 | | | | | | | | 83.34 |
| **Cyfanswm Ariannu Cyfalaf** | | | **0.34** | **2.45** | **30.24** | **69.02** | **67.11** | **31.09** | **21.74** | **7.51** | **2.61** | **2.57** | **2.57** | **2.57** | **0.10** | **0.08** | **240.00** |

*[1] Y prosiect yn cael ei adolygu ar hyn o bryd.*

*[2] Bydd y cais grant blynyddol yn cael ei addasu i adlewyrchu y gwir wariant erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.*

# ATODIAD 4 - CYNLLUN CYFLAWNI PROSIECT MEDI 2022




| | | OBC | Dechrau ar y Safle | Cwblhau Prosiect |
|---|---|---|---|---|
| Digidol | Canolfan Prosesu Signalau Digidol | Rhag-21 | Ion-22 | Rhag-25 |
| | Coridorau Cysylltiedig | Meh-23 | Ion-24 | Maw-26 |
| | Campysau Cysylltiedig | Meh-23 | Ion-24 | Maw-26 |
| | Yr Ychydig % Olaf | Gorff-22 | Medi-23 | Rhag-24 |
| Ynni Carbon Isel | Morlais | Gorff-23 | Meh-24 | Meh-26 |
| | Canolfan Ragoriaeth Ynni Carbon Isel (Egni) | I'w Gadarnhau | | |
| | Trawsfynydd | Hyd-23 | Ion-25 | Ebr-31 |
| | Hwb Hydrogen a Datgarboneiddio Trafnidiaeth | Chwef-24 | Mai-25 | Mai-27 |
| | Ynni Lleol Blaengar | Maw-23 | Ion-24 | Ion-34 |
| Tir ac Eiddo | Porth Caergybi, Ynys Môn | Maw-23 | Gorff-23 | Medi-25 |
| | Neuadd Warren, Brychdyn | Medi-23 | Tach-24 | Medi-25 |
| | Cyn Ysbyty Gogledd Cymru, Sir Ddinbych | Mai-23 | Chwef-24 | Tach-24 |
| | Safle Strategol Bodelwyddan, Sir Ddinbych | I'w Gadarnhau | | |
| | Parc Bryn Cegin, Gwynedd | Medi-23 | Awst-24 | Meh-25 |
| | Porth y Gorllewin, Wrecsam | Medi-23 | Tach-24 | Medi-25 |
| Arloesi Mewn Gweithgynhyrchu Uwch | Canolfan Biotechnoleg Amgylcheddol | Ion-23 | Hyd-23 | Ion-24 |
| | Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter | Ebr-22 | Tach-23 | Ebr-25 |
| Bwyd-amaeth a Thwristiaeth | Hwb Economi Wledig Glynllifon | Awst-21 | Meh-23 | Rhag-24 |
| | Fferm Sero Net Llysfasi | I'w Gadarnhau | | |
| | Rhwydwaith Talent Twristiaeth | Maw-23 | Ion-24 | Ion-26 |

Cyfnod Datblygu a Chymeradwyo Achos Busnes (Cymeradwyo Achos Busnes Amlinellol cyn caffael)
Cam Caffael a Chyflawni Prosiect (Yn cynnwys cymeradwyo'r Achos Busnes Llawn ar ôl caffael)
Dechrau ar y Safle
Cyfnod Gweithredol a Gwireddu Manteision

**Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru**
**30 Medi 2022**

| | |
|---|---|
| **TEITL:** | Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd (CBC)<br>- Secondiad rhan-amser Cyfarwyddwr Portffolio'r Bwrdd Uchelgais fel Prif Weithredwr dros dro y CBC |
| **AWDUR:** | Dylan J Williams, Prif Weithredol Arweiniol Cynghorau Gogledd Cymru ar gyfer y Bwrdd Uchelgais |

**1. PWRPAS YR ADRODDIAD**

1.1. Mae'r adroddiad yn cyflwyno cais gan Gyd-Bwyllgor Corfforaethol y Gogledd (CBC), i Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, i ryddhau rhan o amser eu Cyfarwyddwr Portffolio i gyflawni rôl Prif Weithredwr y CBC, yn y lle cyntaf dros dro tan 31 Mawrth 2023. Mae'r cynnig yn cael ei gefnogi gan Brif Weithredwyr 6 Cyngor Gogledd Cymru.

**2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR**

2.1. Bod y Bwrdd Uchelgais yn ystyried yr argymhellion a ganlyn a'r trefniadau arfaethedig:

- Bod y Bwrdd Uchelgais yn cefnogi cais y CBC i ryddhau amser y Cyfarwyddwr Portffolio am ddau ddiwrnod yr wythnos tan 31 Mawrth 2023 ar sail secondiad rhan amser i ymgymryd â rôl y Prif Weithredwr dros dro.
- Bod yr holl gyflogaeth gysylltiedig a'r costau cysylltiedig yn cael eu hysgwyddo gan CBC y Gogledd
- Dirprwyo'r awdurdod i'r Cyfarwyddwr Portffolio mewn ymgynghoriad â Chadeirydd ac Is-Gadeirydd y Bwrdd Uchelgais i gytuno ar ail-ddyrannu cyfrifoldebau sydd o fewn y Swyddfa Rheoli Portffolio (PMO) er mwyn sicrhau fod y trefniadau dros dro yn cefnogi blaenoriaethau'r PMO a'r cyfrifoldeb i holl bartneriaid y Bwrdd Uchelgais.

**3. Y RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

3.1. Gan ystyried y penderfyniad mewn egwyddor y Cynghorau i drosglwyddo swyddogaethau Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru i gynorthwyo rhanbarth y Gogledd i sefydlu'r CBC, a sicrhau bod buddiannau'r Bwrdd Uchelgais yn cael eu diogelu wrth i'r CBC symud ymlaen.

**4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL**

4.1. Yng nghyfarfod y CBC ar 17 Mehefin, cytunwyd i ymestyn penodiadau swyddog statudol y CBC a wnaed yng nghyfarfod y CBC ar 14 Ionawr, h.y. y Prif Weithredwr (Dafydd Gibbard), y Prif Swyddog Cyllid (Dewi Morgan) a'r Swyddog Monitro (Iwan Evans) yn cael eu darparu gan Gyngor Gwynedd, a chymeradwyo'r trefniadau parhaus i Gyngor Gwynedd ddarparu gwasanaethau cefnogol i'r CBC.

4.2. Ystyriodd cyfarfod y CBC ar 22 Gorffennaf arfarniad o opsiynau ar gyfer llenwi rôl Prif Weithredwr y CBC. Cytunwyd i gyflwyno cais i'r Bwrdd Uchelgais, i ryddhau rhan o amser eu Cyfarwyddwr Portffolio i gyflawni rôl Prif Weithredwr y CBC ar sail secondiad tan 31 Mawrth 2023. Mae'r ffordd hon ymlaen yn ystyried rhagdybiaeth y bydd y Bwrdd Uchelgais yn cael ei ymgorffori yn rhan o'r CBC yn y dyfodol.

4.3. Fel y nodwyd yn y Niweddariad mis Medi'r CBC (Atodiad 1), mae nifer o faterion gweddilliol i'w datrys, ynghyd â'r gwaith sydd ei angen i weithredu'r pwerau y mae'r CBC yn eu dal. Mae'r cynnig hwn yn cyflwyno ffordd ymlaen sy'n galluogi i Gyfarwyddwr Portffolio'r Bwrdd Uchelgais chwarae rhan allweddol wrth arwain a dylanwadu ar y gwaith a fydd yn hwyluso'r broses o drosglwyddo'r PMO rhanbarthol yn y dyfodol (gan gynnwys y Weledigaeth Twf a'r Cynllun Twf) sy'n cael ei gyflawni ar hyn o bryd gan y PMO ar gyfer Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, i mewn i'r CBC.

4.4. Bydd y trefniant secondiad dros dro arfaethedig yn helpu i benderfynu a nodi'r opsiynau i ddatrys rôl Prif Weithredwr y CBJC ar sail fwy parhaol o fis Ebrill 2023. Yn ystod cyfnod y secondiad, gellir gwneud cynnydd i sefydlu'r is-bwyllgorau Cynllunio a Thrafnidiaeth, ac adnabod yr adnoddau sydd eu hangen i gyflawni dyletswyddau cychwynnol y CBC.

4.5. Mae'r CBC yn cydnabod ac yn cefnogi'r angen i wneud trefniadau cyllidebol a gweithredol priodol i sicrhau nad yw gwaith y Cyfarwyddwr Portffolio wrth arwain y PMO a chyflawni'r Cynllun Twf yn cael ei effeithio gan y trefniant dros dro arfaethedig hwn.

**Cyfleoedd a Risgiau**

4.6. Mae'r ffordd arfaethedig ymlaen yn cynnig cyfle i greu cydlyniant rhwng y Bwrdd Uchelgais a'r CBC ac i sicrhau bod buddiannau'r Bwrdd Uchelgais yn cael eu cynrychioli a'u diogelu wrth i'r gwaith o ddatblygu a gweithredu'r CBC ymhellach symud ymlaen. Nodir y cyfleoedd a'r risgiau allweddol i'w rheoli isod:

- Mae rhagdybiaeth bresennol yn penderfynu y gellid ymgorffori'r Bwrdd Uchelgais a'r PMO rhanbarthol o fewn y CBC yn y dyfodol. Byddai secondiad rhan-amser y Cyfarwyddwr Portffolio yn sicrhau bod y Cynllun Twf a'r Weledigaeth Twf yn parhau i gael eu cyflawni yn ystod ac ar ôl y cyfnod pontio hwnnw, gydag unrhyw gynnwrf yn cael ei leihau i'r eithaf.
- Byddai angen cyfraniad Cyfarwyddwr Portffolio'r Bwrdd Uchelgais i sefydlu'r CBC mewn perthynas a chydlynu'r swyddogaeth Lles Economaidd beth bynnag, ac felly mae ffurfioli'r trefniant hwn drwy gyfrwng y secondiad rhan-amser yn caniatáu i'r ymwneud hwnnw gael ei ganolbwyntio ac er mwyn osgoi dyblygu adnoddau.
- Bydd rhyddhau'r Cyfarwyddwr Portffolio am ddeuddydd yr wythnos i ymgymryd â rôl dros dro Prif Weithredwr y CBC yn creu her capasiti i'r Swyddfa Rheoli Portffolio y bydd angen cynllunio ar ei gyfer a'i reoli'n ofalus.
- Bydd y CBC yn ysgwyddo'r holl gostau cyflogaeth ar gyfer y secondiad arfaethedig sy'n galluogi ail-fuddsoddi cyllid y Bwrdd Uchelgais mewn trefniadau ôl-lenwi priodol.
- Gallai'r trefniadau ôl-lenwi ddarparu cyfleoedd datblygu i'r rhai sydd yn y PMO ar hyn o bryd trwy ymgymryd â chyfrifoldebau ychwanegol yn ystod y cyfnod secondiad. Mae'n debygol y bydd angen recriwtio adnoddau tymor byr ychwanegol.
- Efallai y bydd yr her gapasiti bosibl yn ei gwneud yn ofynnol i'r PMO ddad-flaenoriaethu rhai gweithgareddau i ganolbwyntio ar yr elfennau craidd i'w cyflawni sy'n ymwneud â'r Cynllun Twf, er hynny bydd pob ymdrech yn cael ei wneud i osgoi hyn.

**5. GOBLYGIADAU ARIANNOL**

5.1. Mae'r CBC wedi cynnig ariannu'r ôl-lenwi angenrheidiol arfaethedig er mwyn ymgymryd â rhai o ddyletswyddau'r Cyfarwyddwr Portffolio. Felly, byddai secondiad rhan-amser arfaethedig hwn y Cyfarwyddwr Portffolio yn gost niwtral net ar gyfer y Bwrdd Uchelgais.

## 6. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL

6.1. Mae'r Bwrdd Uchelgais wedi'i sefydlu yn unol â Chytundeb Llywodraethu 2 i weithredu fel y corff sy'n gwneud penderfyniad ar gyfer y bartneriaeth o awdurdodau lleol a'r cyrff addysg i gyflawn Cynllun Twf Gogledd Cymru a'r Weledigaeth Twf. Caiff ei swyddogaethau a'r deillian-nau y mae eu hangen i gyflawni wedi'u diffinio gan y cytundeb a'r Cynllun Busnes Cyffredinol a gwblhawyd law yn llaw â'r Cynllun Twf. Mae gofyn iddo hefyd benodi'r Cyfarwyddwr Portffolio i Arwain y Swyddfa Portffolio.

6.2. Er hynny, cafodd dyfodiad y Cyd-bwyllgorau Corfforedig ei ragarwyddo yn GA2 a chyfeirir ato'n benodol fel mater sydd wedi'i gadw i'r Cynghorau. Mae darpariaeth benodol yn y cytundeb sy'n cydnabod y bwriad i greu'r CBC ac y gallai trosglwyddo swyddogaethau ddigwydd. Adlewyrchir hyn yn y penderfyniad 'mewn egwyddor' gan y chwe weithrediaeth ym mis Rhagfyr 2021 i drosglwyddo swyddogaethau'r Bwrdd uchelgais i'r CBC ar yr amod bod y model a'r fframwaith statudol yn eu lle i gyflawni hyn. Mae'r CBC bellach wedi'i sefydlu ac mae'r model statudol fwy neu lai wedi'i gwblhau. Fodd bynnag, ar y pwynt hwn, mae'r gwaith o greu'r CBC fel corff cyhoeddus gweithredol gyda threfniadau llywodraethu a rheoli yn bwrw ymlaen. Mae angen i'r gwaith hwn adlewyrchu a pharatoi ar gyfer derbyn rôl y Bwrdd Uchelgais i mewn i'r CBC a'i fodel llywodraethu.

6.3. Yn nhermau GA2, nid yw'r secondiad arfaethedig yn ei gwneud hi'n ofynnol i adnoddau a chyf-raniadau'r Bwrdd Uchelgais gael eu cyfrannu i gefnogi'r CBC. Yn ogystal, mae darpariaeth yn y cyfamser i gynnal capasiti i gefnogi'r gwaith o gyflawni swyddogaethau'r Bwrdd Uchelgais. Mae hi hefyd yn berthnasol bod angen i drosglwyddo swyddogaethau'r Bwrdd Uchelgais i'r CBC gael ei gynllunio'n briodol ac y darperir adnoddau priodol ar ei gyfer i sicrhau y gellir ei wneud yn effeithiol ac yn effeithlon pan ddaw'r amser. Ar yr amod bod y Bwrdd Uchelgais wedi'i sicrhau am y materion hyn, yna gall gymeradwyo'n briodol y secondiad o fewn GA2.

---

**ATODIADAU:**

| | |
|---|---|
| Atodiad 1 | Diweddariad mis Medi y CBC |

---

**YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:**

**i. Swyddog Monitro - Awdurdod Lletya:**

"Rwyf wedi cynghori ar y mater hwn ac yn arbennig yr adran "Goblygiadau Cyfreithiol" yn yr adroddiad. Mae'r adroddiad yn rhoi cyngor priodol i'r Bwrdd Uchelgais ar ei swyddogaethau a'i gyfyngiadau. Mae hefyd yn adlewyrchu'n briodol y ffaith, er y gall fod elfen o aelodaeth gyffredin o'r Bwrdd Uchelgais a'r CJC, eu bod yn gyrff ar wahân gyda gwahanol adnoddau llywodraethu ac, yn achos gofynion partneriaeth y Bwrdd Uchelgais y mae angen eu hystyried. Mae angen i'r Bwrdd Uchelgais ddod i benderfyniad ar y mater hwn o fewn ei fframwaith llywodraethu ei hun a chan ystyried ei swyddogaethau fel y nodir yn GA2."

**ii. Swyddog Cyllid Statudol (Swyddog Adran 151 yr Awdurdod Lletya):**

"Gallaf gadarnhau cywirdeb Rhan 5 yr adroddiad. Bydd y Gwasanaeth Cyllid yn gweithredu i sicrhau fod y trefniant hwn yn parhau'n gost-niwtral i Uchelgais Gogledd Cymru yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol."

| | |
|---|---|
| Teitl: | **Cyd-Bwyllgor Corfforedig (CBC) y Gogledd** |
| Pwrpas: | **Diweddaru Aelodau'r Awdurdod ar ddatblygiadau** |
| Aelod Cabinet: | **Arweinydd y Cyngor** |
| Swyddogion Cyswllt: | **Y Prif Weithredwr a'r Swyddog Monitro** |

---

Ymhellach i ddeddfwriaeth Llywodraeth Cymru yn sefydlu Cyd-Bwyllgor Corfforedig (CBC) y Gogledd, mae 6 Cyngor y rhanbarth a'r Parc Cenedlaethol wedi gwneud trefniadau priodol, wedi cynnal pedwar cyfarfod o'r CBC, wedi cytuno ar y gyllideb ar gyfer 2022/23, ac yn paratoi i gyflawni swyddogaethau cychwynnol y CBC.

---

**Cefndir**

1. Gwnaed rheoliadau gan Lywodraeth Cymru ar 17 Mawrth 2021 yn creu pedwar Cyd-Bwyllgor Corfforedig yng Nghymru, a sefydlwyd y Cyd-Bwyllgor Corfforedig (CBC) y Gogledd ar 1 Ebrill 2021. Bydd y CBC yn gorfod cyflawni swyddogaethau sy'n ymwneud â chynllunio datblygu strategol a chynllunio trafnidiaeth ranbarthol, ac hefyd mae'n gallu hyrwyddo llesiant economaidd.
2. Yn wahanol i drefniadau cyd-bwyllgorau eraill, mae'r CBC yn gorff corfforaethol ar wahân sy'n gallu cyflogi staff a dal asedau. Yn y gorffennol, mynegwyd amheuon oherwydd gallai'r CBC arwain at "haen arall o fiwrocratiaeth", ond mae o yma rwan a does dim dewis heblaw gwneud iddo weithio.
3. Mae tair swyddogaeth gychwynnol wedi'u rhagnodi i'w cyflawni gan y CBC, dau syn fandadol, ac un sy'n cael ei gyflawni yn gydamserol ar hyn o bryd gan bob awdurdod lleol unigol a fan Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru:
    - rhaid i'r CBC baratoi, monitro, adolygu a diwygio Cynllun Datblygu Strategol rhanbarthol;
    - rhaid i'r CBC ddatblygu Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol gyda pholisïau ar gyfer trafnidiaeth rhanbarthol; a
    - gall y CJC wneud unrhyw beth sy'n debygol o hyrwyddo lles economaidd (mae lles economaidd rhanbarthol yn un o swyddogaethau'r NWEAB ar hyn o bryd).
4. Ym mis Rhagfyr 2021 / Ionawr 2022, cytunodd y Cabinet (neu gyfwerth) ym mhob un o 6 Cyngor y rhanbarth mewn egwyddor i drosglwyddo swyddogaethau Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru trwy gytundeb dirprwyo i'r CBC, pryd bydd y CBC yn sefydlu Is-Bwyllgor, ag aelodaeth i'w gytuno gyda'r Cynghorau, i gyflawni swyddogaethau'r Bwrdd Uchelgais Economaidd. Cynigir y trosglwyddiad hwn er mwyn cyflawni model llywodraethu symlach, gan osgoi dyblygu.
5. Bydd rheoliadau pellach yn dilyn ac mae Llywodraeth Cymru mewn cyswllt â Llywodraeth y DU a CaThEM, ayb, am fanylion statws TAW y CBC, ayb.
6. Roedd sefydlu'r CBC yn ofyniad cyfreithiol, ond mae'r amserlen yn parhau'n heriol, yn arbennig i gyflawni'r 'dyletswyddau di-oed' a ragnodir yn y ddeddfwriaeth (cynhyrchu Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol, a Chynllun Datblygu Strategol rhanbarthol).

7. O dan Reoliadau Llywodraeth Cymru, wrth ddatblygu cynigion a chyflawni ei ddyletswyddau, bydd y CBC yn ddarostyngedig i'r Ddeddf Cydraddoldeb, Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol, safonau iaith dan Fesur y Gymraeg 2011, a deddfwriaeth arall, yn yr un modd ag awdurdodau lleol.

8. Cyflwynir yr adroddiad diweddaru yma'n gyd-amserol i aelodau etholedig y 6 Cyngor: Conwy, Dinbych, Fflint, Gwynedd, Wrecsam ac Ynys Môn, ac i aelodau Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.

## Cyflogi Prif Swyddogion a Staff

9. Mae'r staff a gyflogir yn uniongyrchol gan y CBC wedi'i isafu ar hyn o bryd. Rhaid i CBC y Gogledd benodi swyddogion statudol, h.y. Prif Weithredwr, Swyddog Monitro, a Phrif Swyddog Cyllid (mae gan CBCau yr un gofynion adrodd a datgelu ariannol ag awdurdodau lleol). Fodd bynnag, yn hytrach na chyflogi'r rhain yn uniongyrchol, mae'r CBC wedi gwneud trefniadau gydag awdurdodau cyfansoddol i'w swyddogion fod ar gael i'r CBC.

10. Yng nghyfarfod y CBC ar 17 Mehefin, cytunwyd i ymestyn penodiadau swyddogion statudol a wnaed yng nghyfarfod 14 Ionawr y CJC, h.y. y Prif Weithredwr (Dafydd Gibbard), Prif Swyddog Cyllid (Dewi Morgan) a'r Swyddog Monitro (Iwan Evans) sy'n cael eu darparu ar hyn o bryd gan Gyngor Gwynedd, ac i gymeradwyo'r trefniadau sy'n parhau i Gyngor Gwynedd ddarparu gwasanaethau cefnogol i'r CBC.

11. Yng nghyfarfod y CBC ar 22 Gorffennaf, ystyriwyd arfarniad o opsiynau er mwyn llenwi rôl Prif Weithredwr y CBC ar sail fwy parhaol. Gan gadw mewn cof y tebygrwydd y bydd y BUE yn cael ei ymgorffori'n rhan o'r CBC yn y dyfodol, cytunwyd i gyflwyno cais i Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru i ryddhau rhan o amser eu Cyfarwyddwr Portffolio i gyflawni rôl Prif Weithredwr y Cyd Bwyllgor Corfforedig hyd 31 Mawrth 2023. Gellid ariannu'r costau sy'n gysylltiedig â'r trefniant hwn o fewn cyllideb cyfredol y CBC am eleni. Bydd y Bwrdd Uchelgais yn rhoi ystyriaeth ffurfiol i'r cais hwn ym mis Medi.


12. Yn dilyn hyn, gall y CBC wneud penderfyniadau 'cyflawni' fesul achos ar gyfer pob swyddogaeth unigol, h.y. cynllunio, trafnidiaeth, ayb. Gall y CBC gyflogi staff ei hun, neu gall y CJC ystyried 'secondio' capasiti presennol o'r awdurdodau i wneud y gwaith strategol ar y 'dyletswyddau di-oed' y mae'n rhaid eu cyflawni ar gyfer y CBC, neu gall y CBC ariannu capasiti ychwanegol mewn awdurdodau unigol i arwain a chyflawni'r swyddogaethau cynllunio a thrafnidiaeth rhanbarthol hyn. Gallai'r CBC, fel endid corfforedig, gytundebu gydag amrywiol drydydd partïon fel bo angen.

## Aelodau a Phwyllgorau'r CBC

13. Aelodau pwyllgor y CBC yw'r –

| **Arweinydd** | **Awdurdod** | *Rôl CBC* |
|---|---|---|
| Cyng. Dyfrig L Siencyn | Cyngor Gwynedd | *Cadeirydd* |
| Cyng. Mark Pritchard | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | *Is-gadeirydd* |
| Cyng. Charlie McCoubrey | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | |
| Cyng. Jason McLellan | Cyngor Sir Ddinbych | |
| Cyng. Ian B Roberts | Cyngor Sir y Fflint | |
| Cyng. Llinos Medi Huws | Cyngor Sir Ynys Môn | |
| Cyng. Annwen Hughes | Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri | |

14. Dangosir strwythur bwyllgorau arfaethedig y CBC a yn y siart a ganlyn, gan gynnwys y cerbyd rhagwelir ar gyfer cyflawni'r fargen twf (is-bwyllgor y Bwrdd Uchelgais). Mae gan aelod Eryri hawl i bleidleisio ar faterion i'w penderfynu gan y CBC ynghylch swyddogaethau cynllunio strategol.




** Dirprwyo i is-bwyllgorau statudol, sydd hefyd yn ddarostyngedig i'r gofynion tryloywder sy'n berthnasol i gyrff swyddogaeth weithredol.

**Is-bwyllgorau ar gyfer Cynllunio Strategol a Thrafnidiaeth Strategol**

15. Roedd consenswS clir fod angen strwythur llywodraethu gydag is-bwyllgorau i'r CBC ar gyfer Cynllunio Strategol a Thrafnidiaeth Strategol (ochr yn ochr â'r Bwrdd Uchelgais fel is-bwyllgor arall, os/pryd bydd yn trosglwyddo).

16. Yng nghyfarfod y CBC ar 17 Mehefin, cytunwyd i sefydlu Is-Bwyllgor Cynllunio Strategol ac Is-Bwyllgor Trafnidiaeth Strategol a chymeradwywyd yr aelodaeth a'r hawliau pleidleisio canlynol –

    i. Is-bwyllgor Cynllunio Strategol gyda 7 aelod â phleidlais, un o bob un o'r awdurdodau cyfansoddol (6 Chyngor ac APCE).

    ii. Is-bwyllgor Trafnidiaeth Strategol gyda 6 aelod â phleidlais, un o bob un o'r 6 Chyngor.

    iii. Aelodaeth yr Is-bwyllgor Cynllunio Strategol i gynnwys yr aelod Cabinet perthnasol o bob Cyngor cyfansoddol sy'n dal y portffolio ar gyfer Polisi Cynllunio, a chynrychiolydd APCE.

    iv. Aelodaeth yr Is-bwyllgor Trafnidiaeth Strategol gynnwys yr aelod Cabinet perthnasol o bob Cyngor cyfansoddol sy'n dal y portffolio ar gyfer Polisi Trafnidiaeth.

17. Gall yr Is-Bwyllgor Cynllunio Strategol a/neu'r Is-Bwyllgor Trafnidiaeth Strategol ystyried argymell i'r CBC ystyried cyfethol aelodau ychwanegol o sefydliadau sy'n bartneriaid maes o law, yn ôl y gofyn.

18. Bydd angen i Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri enwebu eu cynrychiolydd ar yr Is-Bwyllgor Cynllunio. Gweler isod Aelodau Cabinet awdurdodau lleol y rhanbarth ar gyfer Cynllunio a Trafnidiaeth –

| Aelodau Cabinet **Cynllunio** | **Cyngor** | Aelodau Cabinet **Trafnidiaeth** |
|---|---|---|
| Cyng. Emily Owen | Conwy | Cyng. Goronwy Edwards |
| Cyng. Win Mullen-James | Dinbych | Cyng. Barry Mellor |
| Cyng. Christopher Bithell | Fflint | Cyng. Dave Hughes |
| Cyng. Dafydd Meurig | Gwynedd | Cyng. Dafydd Meurig |
| Cyng. Terry Evans | Wrecsam | Cyng. David A Bithell |
| Cyng. Nicola Roberts | Ynys Môn | Cyng. Dafydd Rhys Thomas |

19. Gallai'r model llywodraethu dirprwyedig yma alluogi'r is-bwyllgorau i wneud y gwaith trwm, ond mae rhai materion na all y CBC eu dirprwyo, o ran y strwythur llywodraethu, penderfyniadau cyllidebol, a rhai penderfyniadau allweddol mewn perthynas â mabwysiadu'r cynlluniau statudol.

20. O ran y ddau swyddogaeth gychwynnol sydd wedi'u rhagnodi i'w cyflawni gan y CBC, bydd yn pennu'r cyfeiriad a'r blaenoriaethau, a bydd angen rhai swyddogaethau cydamserol, tra bydd Cynllun Datblygu Strategol rhanbarthol a Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol y CBC yn gosod fframwaith polisi rhaid i'r awdurdodau lleol roi sylw iddo. Fodd bynnag, yr awdurdodau lleol unigol fydd yn parhau i fod yn y sefyllfa orau i ymgymryd â gweithgarwch lleol o ran swyddogaethau cynllunio a thrafnidiaeth leol, gyda'r CBC yn grymuso ac yn cefnogi darpariaeth leol, ranbarthol a chenedlaethol.

21. Bydd angen i reolwyr polisi cynllunio yn awdurdodau lleol y Gogledd weithio gyda'r Is-Bwyllgor Cynllunio Strategol i edrych ar opsiynau cyflawni a goblygiadau o ran costau ar gyfer cynhyrchu Cynllun Datblygu Strategol rhanbarth y Gogledd, a bydd angen i'r Is-bwyllgor Cynllunio Strategol wneud argymhellion amserol i'r CBC er mwyn llunio cyllideb y CBC ar gyfer 2023/24.

22. Yn yr un modd, bydd angen i swyddogion trafnidiaeth proffesiynol y Gogledd weithio gyda'r Is-Bwyllgor Trafnidiaeth Strategol er mwyn ystyried sut y gellid datblygu Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol sy'n cydymffurfio ac yn ddigon cadarn. Deallwn bydd raid cwblhau'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol erbyn hanner cyntaf 2024, felly rhaid adnabod yr adnoddau angenrheidiol yn fuan.

23. Mae nifer o rwymedigaethau statudol ychwanegol, gan gynnwys yr angen i'r CBC sefydlu Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, ac Is-bwyllgor Safonau. Bydd rhain yn derbyn sylw yn 2022, ynghyd â mynd i'r afael â mater rôl pwyllgorau craffu. Byddai Cadeiryddion 7 pwyllgor safonau'r awdurdodau 'cyfansoddol' yn medru ffurfio un Is-bwyllgor Safonau i'r CBC.

24. Mae'r Rheoliadau CBC diweddaraf yn caniatáu i Bwyllgorau Craffu'r awdurdodau graffu ar waith y CBC. Nid yw'n ymestyn i alw penderfyniadau i mewn, ond mae'n gosod dyletswydd ar y CBC i ymateb i graffu ac ystyried yn ffurfiol unrhyw argymhellion sy'n deillio o'r broses. Mae trefniadau craffu presennol y Bwrdd Uchelgais Economaidd wedi'u rheoli drwy brotocol o fewn 'GA2', a gellid mabwysiadu model tebyg ar gyfer craffu ar y

CBC. Mae canllawiau Llywodraeth Cymru yn nodi rôl trefniadau trosolwg a chraffu awdurdodau lleol, fel rhan o'r fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd democrataidd y mae angen ei sefydlu yn ystod 2022/23. Mae cynigion ynglŷn â threfniadau craffu eto i'w datblygu, ond unwaith y byddwn wedi cadarnhau'r opsiynau bydd cyfle i'r awdurdodau / Aelodau roi mewnbwn.

**Trefniadau Ariannol**

25. Mae yna rwymedigaeth statudol i'r CBC gytuno ar ei ofynion cyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol mewn cyfarfod o'r CBC erbyn y 31 Ionawr blaenorol, a sut y caiff ei godi (ardoll).

26. Yng nghyfarfod y CBC ar 28 Ionawr, cymeradwywyd Cyllideb y CBC ar gyfer 2022/23, gyda chyfansymiau Cynllunio Strategol £87,950 a Swyddogaethau Eraill gan gynnwys Trafnidiaeth £274,310. Hefyd ar 28 Ionawr, cymeradwyodd y CBC ei Ardoll ar gyfer 2022/23, a ddyrannwyd ar bob awdurdod ar sail y boblogaeth berthnasol, gyda'r symiau'r awdurdodau unigol wedi'u dadansoddi isod –

| | **Cynllunio Strategol** | **Swyddogaethau eraill** | **Cyfanswm Ardoll** |
|---|---|---|---|
| | **£** | **£** | **£** |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | (14,270) | (46,220) | (60,490) |
| Cyngor Sir Ddinbych | (12,030) | (37,530) | (49,560) |
| Cyngor Sir y Fflint | (19,700) | (61,450) | (81,150) |
| Cyngor Gwynedd | (13,090) | (48,910) | (62,000) |
| Cyngor Sir Ynys Môn | (8,750) | (27,290) | (36,040) |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | (16,970) | (52,910) | (69,880) |
| Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri | (3,140) | | (3,140) |
| **Cyfanswm Ardoll** | **(87,950)** | **(274,310)** | **(362,260)** |

27. Fel nodwyd yn rhan 21/22 uchod, bydd angen i swyddogion polisi cynllunio a swyddogion trafnidiaeth proffesiynol yn awdurdodau'r y Gogledd weithio gyda'u Is-Bwyllgorau perthnasol i adnabod opsiynau cyflawni a goblygiadau cost cynhyrchu Cynllun Datblygu Strategol y rhanbarth a'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol, wedyn bydd angen i'r Is-bwyllgorau wneud argymhellion amserol i'r CBC er mwyn cytuno cyllideb 2023/24 y CBC cyn 31/01/2023.

28. Mae angen eglurhad deddfwriaethol ynghylch sgôp gallu'r CBC i fenthyca, buddsoddi a gweithredu'n fasnachol, ac ynghylch statws treth gorfforaeth a statws treth ar werth (TAW) y CBC. Mae Llywodraeth Cymru wedi datgan mai eu bwriad polisi yw y dylai'r CBC fod yn ddarostyngedig i'r un pwerau a dyletswyddau â phrif awdurdodau lleol yn y ffordd y maent yn gweithredu (gan gynnwys yn y bôn y gallu i fenthyca ac adennill TAW fel awdurdodau lleol unedol).

29. Mae datrysiadau i'r materion yma dal yn 'waith ar droed', ond yn allweddol mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi ein hysbysu bod Ysgrifennydd Ariannol y Trysorlys wedi cadarnhau y bydd Llywodraeth y DU yn deddfu i ganiatáu i'r pedwar CBC gael mynediad i'r cynllun ad-dalu TAW Adran 33, fel y bydd y CBC yn cael ad-daliad o'r TAW cymwys o'r dyddiad gwneir y Gorchymyn. Mae'r ddau Lywodraeth yn ymgysylltu â Thrysorlys EM ynglŷn â'r Gorchymyn hwn, ac maent yn disgwyl y daw i rym o fis Rhagfyr 2022. Yn y cyfamser, ni fydd y CBC yn gallu adennill TAW taladwy i awdurdodau lleol neu

gyflenwyr nwyddau a gwasanaethau eraill. Felly, ar hyn o bryd mae'n 20% yn ddrytach i dderbyn gwasanaethau cefnogol o Gyngor Gynedd, ayb. Ymhellach, gan y bydd yn ddrytach i secondio capasiti staff proffesiynol o'r awdurdodau, neu i dalu ymgynghorwyr i wneud y gwaith hwnnw, hyd nes bydd hyn wedi'i ddatrys mae yna anghymhelliad i ruthro ymlaen gyda gwaith ar ddyletswyddau Cynllunio a Thrafnidiaeth y CJC.

30. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru hefyd wedi ein hysbysu eu bod yn ymgysylltu â Llywodraeth y DU ynghylch gallu'r CBC i fenthyca o'r 'PWLB' ar gyfraddau llog mwy ffafriol fel awdurdodau lleol, ac hefyd statws y CJC o ran treth gorfforaeth (crybwyllwyd fod y ddau Lywodraeth yn ystyried 'Gorchymyn Adran 150' i ddatrys pethau), ond byddai'r datrysiadau hyn angen deddfwriaeth Llywodraeth y DU ar gyfer y rhain ac ni addawyd amserlen benodol. Gan fod telerau benthyca yn allweddol i'r cynllun twf, hyd nes bydd hyn wedi'i ddatrys, nid yw'r CBC yn medru symud ymlaen i drosglwyddo trefniadau'r BUE i'r CBC.

**Trosglwyddiad o Drefniadau'r Cynllun Twf**

31. Fel nodwyd uchod, mae angen datrysiadau ynghylch rhai materion ariannol a rhai materion rheoleiddio eraill cyn gellid trosglwyddo trefniadau presennol y Bwrdd Uchelgais Economaidd (BUE) i'r CBC. Mae angen eglurder ynghylch sawl mater, ond mae Llywodraeth Cymru wedi datgan mai eu bwriad polisi yw y dylai'r pedwar CBC rhanbarthol fod yn ddarostyngedig i'r un pwerau a dyletswyddau â phrif awdurdodau lleol yn y ffordd y maent yn gweithredu (gan gynnwys yn y gallu hanfodol i fenthyca ac adennill TAW).

32. Y nod o hyd yw i drosglwyddo trefniadau BUE y rhanbarth y Gogledd a threfniadau cyfredol y Cynllun Twf i'r CBC, gan osgoi dyblygu, ond mae hyn wedi profi'n fwy heriol a chymhleth nac oedd Llywodraeth Cymru wedi disgwyl yn wreiddiol, ac mae atebion i rai o'r materion yn dal i fod yn 'waith ar droed'.

33. Yn ogystal â llywodraethiant y CBC a'i is-bwyllgorau, bydd angen i ni ystyried symud ymlaen o gytundeb 'GA2' y Bwrdd Uchelgais Economaidd, fydd yn mynnu mewnbwn arbenigol sylweddol gan gyfreithwyr yr awdurdodau lleol, er na fwriedir gwahaniaeth sylweddol rhwng y modd y mae'r BUE yn gweithredu ar hyn o bryd a sut gallai'r CBC weithredu mewn perthynas â'r Cynllun Twf / Gweledigaeth Twf.

34. Rhagwelir gellid datrys yr amryw gymhlethdodau drwy ddeddfwriaeth, ayb, gan ganiatáu i ni deilwra gweithrediadau i adlewyrchu anghenion y rhanbarth, yn unol â'r Bwrdd Uchelgais Economaidd a 'GA2', ond byddai trosglwyddo'r Bwrdd Uchelgais Economaidd i'r CBC yn mynnu penderfyniad ffurfiol gan bob awdurdod lleol, a chytundeb gyda'r partïon eraill i 'GA2'.

**Camau Eraill a Casgliad**

35. Bydd angen rhoi sylw i nifer o dasgau eraill yn ystod 2022/23, gan gynnwys creu gwefan a 'brand' ar gyfer y CBC, ond y blaenoriaethau cyfredol yw datrys rôl y Prif Weithredwr ar sail fwy parhaol, sefydlu'r is-bwyllgorau Cynllunio a Trafnidiaeth, ac adnabod yr adnoddau sydd eu hangen i gyflawni dyletswyddau cychwynnol y CBC.

Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru
North Wales Economic Ambition Board

# Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru
## 30 Medi 2022

**TEITL:** Cynllun Gweithredu Strategol Ynni Gogledd Cymru

**AWDUR:** Henry Aron, Rheolwr y Rhaglen Ynni, Uchelgais Gogledd Cymru
Rhys Horan, Arweinydd Strategol, Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru

**1. PWRPAS YR ADRODDIAD**

1.1. Ceisio cymeradwyaeth y Bwrdd i'r Cynllun Gweithredu drafft i Strategaeth Ynni Gogledd Cymru a'u hargymhellion ynghylch cymeradwyaeth awdurdod lleol.

**2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR**

2.1. Cymeradwyaeth y Bwrdd i'r Cynllun Gweithredu drafft.

2.2. Cymeradwyaeth y Bwrdd i'r trefniadau llywodraethu arfaethedig ar gyfer goruchwylio'r gwaith o gyflawni'r Strategaeth a'r Cynllun Gweithredu Ynni Rhanbarthol.

2.3 Cymeradwyaeth i'r Cynllun Gweithredu gael ei ystyried gan bob Awdurdod Lleol, yn amodol ar gymeradwyaeth y Bwrdd.

**3. Y RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

3.1. Cafodd Strategaeth Ynni Gogledd Cymru ei chadarnhau gan Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a Gweinidog Newid Hinsawdd Llywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2021. Datblygu'r Cynllun Gweithredu yw cam nesaf y broses cynllunio ynni rhanbarthol a'i nod yw trosi blaenoriaethau yn gamau ac ymyriadau strategol.

**4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL**

**Y Strategaeth a'r Cynllun Gweithredu Ynni Rhanbarthol**

4.1. Ym mis Mawrth 2021, cymeradwywyd Strategaeth Ynni Gogledd Cymru gan y Bwrdd Uchelgais a Gweinidog Newid Hinsawdd Llywodraeth Cymru a chadarnhawyd cefnogaeth i ddatblygu'r Cynllun Gweithredu. Cafodd y Strategaeth hefyd sêl bendith Gweinidog Newid Hinsawdd Llywodraeth Cymru.

4.2. Mae Strategaeth Ynni Gogledd Cymru yn adnabod blaenoriaethau a chyfleoedd allweddol i gyflawni uchelgais y rhanbarth o ran datgarboneiddio ei system ynni. Mae'r Strategaeth yn nodi'r weledigaeth a ganlyn ar gyfer y Gogledd: *''Cyflawni'r buddion economaidd, cymdeithasol, ecolegol a llesiant lleol mwyaf wrth drosglwyddo i economi net sero, a bod yn allforiwr net o drydan carbon isel drwy gydweithrediad rhanbarthol ac ar draws ffiniau'*.

4.3. Y blaenoriaethau er mwyn cyflawni'r weledigaeth yw:

1. Harneisio'r doreth o adnoddau carbon isel lleol er mwyn bod yn bwerdy gwyrdd ac arallgyfeirio'r cymysgedd ynni

2. Bod yn arweinydd byd-eang mewn technoleg ynni ar y môr a morol
3. Gwella effeithiolrwydd ynni tai'r rhanbarth a chyflymu'r gwaith o ddatgarboneiddio stoc adeiladau Gogledd Cymru
4. Cyflawni symudiad at drafnidiaeth carbon isel

Drwy drafod gyda'r Grŵp Tasg a Gorffen, cafodd blaenoriaeth ychwanegol ynghylch y sector masnachol a diwydiannol ei gynnwys er dibenion y Cynllun Gweithredu Drafft.

5. Gwneud y mwyaf o'r cyfleoedd i'r sectorau masnachol a diwydiannol gefnogi'r trawsnewid ynni a sbarduno twf economaidd.

4.4. Datblygu'r Cynllun Gweithredu yw cam nesaf y broses cynllunio ynni rhanbarthol a'i nod yw trosi blaenoriaethau yn gamau ac ymyriadau strategol. Mae'r Strategaeth a'r Cynllun Gweithredu yn darparu'r cyd-destun strategol ar gyfer datblygu Cynlluniau Ynni Ardal Leol mwy manwl ym mhob Ardal Awdurdod Lleol.

4.5. Mae'r Cynllun Gweithredu yn cyflwyno camau strategol a gynhyrchir o bedwar gweithdy thematig a gynhaliwyd gyda thrawstoriad o randdeiliaid sectoraidd o bob rhan o'r rhanbarth. Datblygwyd pob gweithdy gyda chymorth gan arweinydd thematig sectoraidd o fewn y rhanbarth. Cynhaliwyd y gweithdai rhwng Tachwedd 2021 ac Ionawr 2022. Yn dilyn y gweithdai, mae'r Cynllun Gweithredu wedi cael ei ddrafftio gan yr arweinwyr thematig sectoraidd a Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru, gyda chymorth Uchelgais Gogledd Cymru a Llywodraeth Cymru. Mae ei ddatblygiad wedi cael ei oruchwylio gan Grŵp Tasg a Gorffen sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r sector gyhoeddus a'r gymuned fusnes ac wedi ei gadeirio gan Lywodraeth Cymru. Ymhlith y gynrychiolaeth mae Cyngor Busnes Gogledd Cymru Merswy Dyfrdwy, pob un o'r chwe awdurdod lleol, a'r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol.

Yn ogystal â'r sefydliadau ar y Grŵp Tasg a Gorffen, ymgynghorwyd â'r rhanddeiliaid a ganlyn ar y drafft:

- Pawb a fynychodd y gweithdy (tua 100 o unigolion yn cynrychioli 60 o sefydliadau)
- Bwrdd Rhaglen Ynni Uchelgais Gogledd Cymru
- Grŵp Swyddogion Cynllunio Gogledd Cymru
- Grŵp Datgarboneiddio Gogledd Cymru
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

4.6. Mae'r camau strategol wedi cael eu mapio yn erbyn y blaenoriaethau a amlinellir yn y Strategaeth Ynni. Lle mae gweithredoedd yn cyfrannu ar draws sawl blaenoriaeth, maent wedi'u diffinio fel gweithredoedd trawsbynciol. Mae sefydliadau arweiniol, sefydliadau galluogi, amserlenni dangosol, statws cyllid a statws cynnydd wedi eu pennu yn erbyn pob cam strategol. Mae'r holl sefydliadau arweiniol a galluogi wedi'u hymgynghori ar y Cynllun Gweithredu drafft ac wedi cael cyfle i roi adborth ar rolau a argymhellir iddynt.

**Cymeradwyo'r Cynllun Gweithredu**

4.7. Cadarnhaodd y Grŵp Gweithredol t Cynllun Gweithredu drafft ar 22 Gorffennaf 2022. Argymhellodd y Grŵp Gweithredol hefyd, yn amodol ar gymeradwyaeth y Bwrdd, y dylid cyflwyno'r Cynllun Gweithredu i'w gymeradwyo gan bob Awdurdod Lleol.

**Trefniadau Llywodraethu Arfaethedig ar gyfer y Strategaeth a'r Cynllun Gweithredu Ynni Rhanbarthol**

4.8. Mae'r Grŵp Tasg a Gorffen wedi ystyried y trefniadau llywodraethu priodol ar gyfer goruchwylio'r gwaith o gyflwyno ac adolygu'r Cynllun Gweithredu. Mae'r Grŵp Tasg a Gorffen wedi argymell ei bod angen trefniadau llywodraethu priodol i gyflawni'r dyletswyddau a ganlyn.

- Ddarparu arweiniad ar gyflawni / blaenoriaethu camau i arwain swyddogion
- Monitro cyflawni camau gweithredu
- Goruchwylio gwaith adrodd i Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, Awdurdodau Lleol a Llywodraeth Cymru
- Dylanwadu ar randdeiliaid rhanbarthol i gefnogi cyflawni'r camau gweithredu
- Goruchwylio adolygiad o'r Cynllun Gweithredu a'r Strategaeth

4.9. Yn debyg i'r Fframwaith Economaidd Rhanbarthol, mae'r Strategaeth Ynni wedi'i chyd-ddatblygu gan Uchelgais Gogledd Cymru a Llywodraeth Cymru. Argymhellir felly y dylai'r trefniadau llywodraethu arfaethedig gynnwys y ddau barti, gyda threfniadau wedi'u cytuno i gyflwyno adroddiad i Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, Awdurdodau Lleol a'r Gweinidog / Bwrdd priodol o fewn Llywodraeth Cymru. Yn dilyn adolygu'r opsiynau, mae'r Grŵp Tasg a Gorffen yn argymell bod y Grŵp Tasg a Gorffen presennol yn trosi i Grŵp Llywio / Bwrdd Prosiect gyda Chylch Gorchwyl diwygiedig. Mae'r Grŵp Tasg a Gorffen wedi llwyddo i oruchwylio datblygiad y Cynllun Gweithredu ac mae eisoes yn cynnwys rhanddeiliaid allweddol o sefydliadau allweddol. Byddai'r aelodaeth yn cael ei hadolygu fel blaenoriaeth gynnar a byddai'r Grŵp yn cwrdd yn rheolaidd a byddai'n cytuno ar drefniadau er mwyn adrodd i Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, Awdurdodau Lleol a Llywodraeth Cymru.

## 5. GOBLYGIADAU ARIANNOL

5.1. Dim goblygiadau ariannol uniongyrchol ar hyn o bryd. Yn ogystal â chefnogaeth barhaus gan Wasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru, mae Llywodraeth Cymru yn darparu arian grant ar gyfer swyddi newydd o fewn y Swyddfa Rheoli Portffolio. Bydd y swyddi'n cefnogi'r gwaith o gyflawni'r Cynllun Gweithredu drafft hwn a datblygu Cynlluniau Ynni Ardal Leol.

Mae'r Cynllun Gweithredu drafft yn cynnwys statws ariannu pob gweithred strategol. Dylid nodi nad oes angen cyllid ar lawer o'r camau, neu eu bod eisoes ar y gweill neu wedi'u cynllunio drwy raglenni neu fentrau sy'n bodoli eisoes, tra bydd eraill yn cael eu symud ymlaen yn amodol ar y cyllid neu'r adnoddau priodol yn cael eu sicrhau. Lle bo angen, bydd gwaith pellach yn digwydd yn ystod y flwyddyn hon i fesur yr adnoddau sydd eu hangen i symud ymlaen i weithredu'r gwahanol gamau a adnabuwyd.

## 6. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL

6.1. Bydd angen i'r cynllun gweithredu, os yw'r Bwrdd yn ei gymeradwyo, gael ei ystyried a'i gymeradwyo gan bob Awdurdod Lleol cyn ei weithredu.

6.2. Byddai'r trefniadau llywodraethu arfaethedig yn golygu bod adrodd yn rheolaidd i'r Bwrdd Uchelgais ar gynnydd yn erbyn y cynllun gweithredu yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth pob Awdurdod Lleol.

**7. GOBLYGIADAU STAFFIO**

7.1. Mae Llywodraeth Cymru'n darparu arian grant ar gyfer swyddi newydd o fewn Uchelgais Gogledd Cymru. Bydd y swyddi'n cefnogi'r gwaith o gyflawni'r Cynllun Gweithredu drafft hwn a datblygu Cynlluniau Ynni Ardal Leol.

**8. YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD**

8.1. Mae'r Cynllun Gweithredu drafft wedi'i rannu gyda phawb a fynychodd y gweithdy (tua 100 o unigolion yn cynrychioli 60 o sefydliadau) a'r grwpiau/byrddau a ganlyn:

- Y Grŵp Tasg a Gorffen
- Bwrdd Rhaglen Ynni Uchelgais Gogledd Cymru
- Grŵp Swyddogion Cynllunio Gogledd Cymru
- Grŵp Datgarboneiddio Gogledd Cymru
- Cymdeithas Lywodraeth Leol Cymru

Mae'r Cynllun Gweithredu drafft hefyd wedi'i rannu gyda phob arweinydd arfaethedig neu sefydliad galluogi a adnabuwyd o fewn y Cynllun Gweithredu drafft.

---

**ATODIADAU:**

**Atodiad 1** Strategaeth a Chynllun Gweithredu Ynni Gogledd Cymru ddrafft

---

**YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:**

**i. Swyddog Monitro - Awdurdod Lletya:**
“Byddaf yn darparu unrhyw sylwadau ar briodoldeb yn y cyfarfod.”

**ii. Swyddog Cyllid Statudol (Swyddog Adran 151 yr Awdurdod Lletya):**
““Gallaf gadarnhau cywirdeb Rhan 5 yr adroddiad. Mae Uchelgais Gogledd Cymru eisoes wedi derbyn y cynnig grant er mwyn ariannu staffio’r Cynllun hwn yn sgil cyflwyniad i’w gyfarfod ar 25 Mawrth 2022, ac mae’r llythyrau i dderbyn y grant wedi eu dychwelyd. Rwyf yn fodlon bydd Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid grant i dalu costau cyflawni'r cynlluniau maes o law.”

# Strategaeth Ynni Gogledd Cymru

# Cynllun Gweithredu Strategol



**Wedi'i ariannu a'i gefnogi gan:**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Datblygwyd gan:**

Uchelgais Gogledd Cymru
Ambition North Wales

**Datblygwyd ar y cyd â:**

Gwasanaeth Ynni
Energy Service

# Cynnwys

**Strategaeth Ynni Gogledd Cymru** .......... 1

**Cynllun Gweithredu Strategol** .......... 1

**Byrfoddau** .......... 3

**Cyflwyniad** .......... 4

**Cefndir** .......... 4

**Cynnwys y Cynllun Gweithredu** .......... 6

**Llywodraethu** .......... 7

**Monitro ac Adrodd** .......... 8

**Blaenoriaethau a chamau gweithredu strategol** .......... 9

**Camau trawsbynciol** .......... 9

**1. Harneisio’r doreth o adnoddau carbon isel lleol i ddod yn bwerdy gwyrdd ac arallgyfeirio'r cymysgedd ynni** .......... 10

**2. Dod yn arweinydd byd-eang ym maes technolegau gwynt ar y môr a morol** .......... 10

**3. Gwella effeithlonrwydd ynni tai'r rhanbarth a chyflymu’r broses o ddatgarboneiddio stoc adeiladau Gogledd Cymru** .......... 10

**4. Sicrhau newid i drafnidiaeth carbon is** .......... 10

**5. Manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i'r sector masnachol a diwydiannol gefnogi'r trawsnewid ynni ac ysgogi twf economaidd** .......... 10

## Byrfoddau

| | |
|---|---|
| IPCC | Panel Rhynglywodraethol ar y Newid yn yr Hinsawdd |
| LAEP | Cynllun Ynni Ardal Leol |
| NZIW | Diwydiant Sero Net Cymru |
| ORP | Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio |
| PV | Ffotofoltäig |
| RSP | Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol |
| BBaCh | Busnesau bach a chanolig |
| SPEN | Rhwydweithiau Ynni Pŵer yr Alban |
| DU | Y Deyrnas Unedig |
| SATC | Safon Ansawdd Tai Cymru |
| WWU | Wales & West Utilities |

**Cydnabyddiaethau:** Hoffem ddiolch i'r holl randdeiliaid a wnaeth gyfraniadau gwerthfawr i'r gwaith hwn drwy gymryd rhan mewn gweithdai, a thrwy gyfathrebu ychwanegol drwy e-bost. Hoffem ddiolch hefyd i holl aelodau'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen a'r Arweinwyr Thematig a roddodd oruchwyliaeth a chyfeiriad strategol i'r gwaith hwn.

## Cyflwyniad

**Mae'r ddogfen hon yn cyflwyno Cynllun Gweithredu Strategol ('y cynllun gweithredu' o hyn allan) ar gyfer Gogledd Cymru. Mae'n nodi camau strategol sy'n ofynnol i wireddu'r blaenoriaethau strategol a nodir yn Strategaeth Ynni Gogledd Cymru.**

## Cefndir

Mae Chweched Adroddiad Asesu y Panel Rhynglywodraethol ar y Newid yn yr Hinsawdd (IPCC) yn dweud ein bod eisoes yn profi effeithiau a chostau eang newid hinsawdd.[1] Mae Adroddiad Arbennig yr IPCC ar 1.5 yn nodi, oni bai bod cynhesu byd-eang yn cael ei gyfyngu yn agos i 1.5°C erbyn 2050, bydd effeithiau newid hinsawdd yn dod yn ansefydlog ac yn ddi-droi'n-ôl ar gyfer systemau naturiol a dynol. Erbyn hyn mae cydnabyddiaeth fyd-eang o'r wyddoniaeth hinsawdd ddiweddaraf ac mae'r ymrwymiadau cenedlaethol a wnaed o dan Gytundeb Paris yn cydnabod yr argyfwng newid hinsawdd a'r angen i weithredu ar frys i ddiogelu llesiant cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol.[2] Gyda chanllawiau gan y Pwyllgor Newid Hinsawdd[3] a thystiolaeth a gyhoeddwyd gan yr IPCC, mae Cymru wedi cydnabod brys y mater hwn ac, yn 2021, wedi deddfu er mwyn sicrhau allyriadau sero net erbyn 2050.



Mae Cynllun Cymru Sero-Net Llywodraeth Cymru[4] a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2021, yn cynnig trosolwg cynhwysfawr o bolisïau a chynigion allweddol ar draws sectorau allweddol ac yn pwysleisio pwysigrwydd trawsnewid cyfiawn wrth i ni symud i economi carbon isel. Mae Strategaeth Diogelwch Ynni Llywodraeth y DU[5] a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2022, yn cynnwys targedau ynghylch cynyddu'r defnydd o wynt ar y môr, cynhyrchu solar, cynhyrchu hydrogen a nifer o gyfleusterau niwclear. Bydd sicrhau sero net i Gymru yn gofyn am ymdrechion wedi'u cydlynu ar draws sawl sector, ac yn galw am ddull

---

[1] Chweched Adroddiad Asesu yr IPCC

[2] Adroddiad Arbennig yr IPCC, Cynhesu Byd-eang o 1.5°C

[3] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Chweched Cyllideb Carbon

[4] Cymru Sero Net | LLYW. CYMRU

[5] Strategaeth diogelwch ynni Prydain - GOV.UK (www.gov.uk)

gweithredu Tîm Cymru gyda chamau gweithredu ar bob lefel, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU, y sector cyhoeddus ehangach, busnesau a diwydiant Cymru a'r cyhoedd yng Nghymru (unigolion ac aelwydydd).

Bydd cyrraedd targed Cymru yn gofyn am drawsnewid ein systemau ynni yn sylweddol a newidiadau radical yn y technolegau yr ydym yn eu defnyddio i gynhesu ein cartrefi, teithio a chynhyrchu trydan. Dros y misoedd diwethaf, mae proffil diogelwch ynni a fforddiadwyedd ynni wedi codi'n sylweddol. Yn ddiweddar cadarnhaodd Ofgem fod y farchnad ynni'n parhau i fod yn gyfnewidiol iawn ac o ganlyniad maen nhw'n disgwyl cynnydd pellach mewn prisiau yn ddiweddarach eleni.[6] Mae effaith prisiau ynni cynyddol ar nifer o drigolion, cyrff cyhoeddus, mentrau cymunedol a busnesau yn sylweddol. Mae'r argyfwng costau byw wedi tanlinellu'r angen i gynyddu'r cyflenwad o'r mathau costau isaf o gynhyrchu ynni, yn enwedig lle maent yn darparu buddion lleol eraill (fel swyddi medrus) neu'n eiddo lleol neu'n cael eu harwain yn lleol. Mae pontio i system ynni fodern wedi'i datgarboneiddio sy'n addas ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain yn creu digon o heriau, ond mae ganddo hefyd y potensial i ddod â manteision mawr, i'r amgylchedd ac i les economaidd a chymdeithasol ein cymunedau.

Mae Gogledd Cymru wedi datblygu Strategaeth Ynni Rhanbarthol sy'n amlinellu ei flaenoriaethau strategol a'i ymrwymiad i ddatgarboneiddio'r system ynni i gyrraedd targed sero net Cymru. Mae Fframwaith Economaidd Rhanbarthol Gogledd Cymru yn cefnogi hyn ymhellach drwy gydnabod y cysylltiad cynhenid rhwng twf economaidd cynaliadwy a sero net ac yn nodi ymrwymiad Llywodraeth Cymru a Phartneriaid Rhanbarthol i baratoi cynllun gweithredu i gyflawni Strategaeth Ynni Gogledd Cymru.[7]

Mae cynnydd sylweddol hefyd wedi'i wneud fel rhan o Fargen Twf Gogledd Cymru. Mae Rhaglen Ynni Carbon Isel Gogledd Cymru, er enghraifft, yn un o bum rhaglen sydd wedi'u cynnwys yn y Fargen Dwf a'i nod yw datgloi manteision datblygu prosiectau ynni carbon isel yn y rhanbarth, gan wella statws y rhanbarth fel lleoliad blaenllaw ar gyfer buddsoddiadau ynni a chyflenwi carbon isel.

Mae Strategaeth Ynni Gogledd Cymru yn nodi blaenoriaethau a chyfleoedd allweddol i gyflawni uchelgais y rhanbarth o ran datgarboneiddio ei system ynni.

**Ein gweledigaeth** ar gyfer Gogledd Cymru yw:

***Sicrhau'r manteision economaidd, cymdeithasol, ecolegol a lles lleol mwyaf posibl o drosglwyddo i economi sero net a dod yn allforiwr net o drydan carbon isel drwy gydweithredu trawsffiniol a rhanbarthol.***

[6] Araith Jonathan Brealey yn nigwyddiad All Energy yn Glasgow

[7] Fframwaith Economaidd Ranbarthol Gogledd Cymru

**Ein blaenoriaethau strategol** ar gyfer cyflawni'r weledigaeth hon yw:

1. **Harneisio'r doreth o adnoddau carbon isel lleol i ddod yn bwerdy gwyrdd ac arallgyfeirio'r cymysgedd ynni**
2. **Dod yn arweinydd byd-eang mewn technolegau gwynt ar y môr a morol**
3. **Gwella effeithlonrwydd ynni tai'r rhanbarth a chyflymu'r broses o ddatgarboneiddio stoc adeiladau Gogledd Cymru**
4. **Sicrhau newid i drafnidiaeth carbon is**

Datblygu’r **cynllun gweithredu** hwn yw cam nesaf y broses o gynllunio ynni ac mae'n cael ei gyfeirio at droi'r blaenoriaethau uchod yn weithredoedd ac ymyriadau diriaethol.

Yn ystod datblygiad y cynllun gweithredu, tynnodd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen sylw at bwysigrwydd a chyfraniad sylweddol y sector masnachol a diwydiannol i gyflawni’r weledigaeth ynni ar gyfer y rhanbarth. Cytunwyd felly y byddai blaenoriaeth ychwanegol yn canolbwyntio ar y sector masnachol a diwydiannol yn cael ei chynnwys yn y cynllun gweithredu hwn.

5. **Manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i'r sector masnachol a diwydiannol gefnogi'r trawsnewid ynni ac ysgogi twf economaidd.**

## Cynnwys y Cynllun Gweithredu

Mae’r cynllun gweithredu’n cyflwyno camau a gynhyrchir o bedwar gweithdy thematig a gynhaliwyd gyda thrawstoriad o randdeiliaid sectoraidd o bob rhan o'r rhanbarth. Cynhaliwyd gweithdai rhwng mis Tachwedd 2021 a mis Ionawr 2022 ar y themâu canlynol:

1. Ynni domestig
2. Cynhyrchu pŵer
3. Cludiant
4. Masnach a diwydiant

Nodir y camau strategol isod ac maent wedi eu mapio yn erbyn y blaenoriaethau strategol (gweler Atodiad 1: am grynodeb). Pan fo camau gweithredu’n cyfrannu at sawl blaenoriaeth, maent wedi'u diffinio fel camau trawsbynciol.

Nodwyd amserlenni dangosol ar gyfer camau gweithredu pan fo digon o wybodaeth ar gael i wneud hynny. Pan fo hyn yn bosibl, mae'r canlynol yn berthnasol:

- Tymor byr: ar waith erbyn 2023
- Tymor canolig: ar waith erbyn 2025
- Tymor hir: ar waith erbyn 2035

Awgrymir rhanddeiliaid arweiniol neu **"Arweinwyr"** ar gyfer pob cam. Sefydliadau yw'r rhain yr ystyrir eu bod yn y sefyllfa orau i gymryd cyfrifoldeb am ddatblygu a chydlynu'r camau penodedig. Rhestrir rhanddeiliaid a fydd yn debygol o chwarae rhan hanfodol wrth hwyluso darpariaeth lwyddiannus y camau yn **"Galluogwyr".** Mae'n bwysig nodi bod rhanddeiliaid rhestredig wedi'u nodi mewn gweithdai thematig a/neu wedi'u cynnig oherwydd trafodaethau dilynol hyd yn hyn. Cydnabyddir na fydd y rhestr o randdeiliaid a grybwyllir yn gynhwysfawr ac y bydd yn debygol y bydd rhanddeiliaid eraill a fydd yn chwarae rhan wrth gyflawni pob cam gweithredu.

Mae'r Cynllun Gweithredu drafft yn cynnwys **statws cyllid** pob cam strategol. Mae yna gamau nad oes angen cyllid arnynt neu sydd eisoes ar y gweill neu wedi'u cynllunio drwy raglenni neu fentrau presennol, tra bydd eraill yn cael eu datblygu yn amodol ar sicrhau'r cyllid neu'r adnoddau priodol. Lle bo angen, bydd rhagor o waith yn cael ei wneud yn ystod y flwyddyn hon i fesur yr adnoddau sydd eu hangen i symud ymlaen â gweithredu'r gwahanol gamau a nodwyd.

Mae'r camau **statws cynnydd** yn rhoi manylion camau gweithredu sy'n bodoli eisoes a/neu wedi'u cynllunio sy'n cyfrannu at gyflawni pob cam. Cwblhawyd hyn yn seiliedig ar adborth o'r gweithdai thematig a chasglu gwybodaeth sydd ar gael yn gyhoeddus.



## Llywodraethu

Bydd strwythur llywodraethu cryf ac effeithiol yn hanfodol ar gyfer hwyluso ymdrech gydgysylltiedig i gyflawni'r camau strategol a amlinellir yn y cynllun gweithredu.

Wrth ddatblygu'r Strategaeth a'r cynllun gweithredu hwn, mae llywodraethu cryf drwy Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a Grŵp Gorchwyl a Gorffen pwrpasol wedi sicrhau goruchwyliaeth a chyfeiriad rhanbarthol i'r gwaith wrth iddo ddatblygu.

Mae'r Strategaeth eisoes wedi cael sêl bendith Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (Mawrth 2021) a gan Weinidog Newid Hinsawdd Llywodraeth Cymru. Bydd angen i'r Cynllun Gweithredu bellach gael sêl bendith ein harweinwyr democrataidd.

Mae gwaith eisoes ar y gweill gyda'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen i gytuno ar y trefniadau mwyaf effeithiol ar gyfer monitro a goruchwylio'r cynllun gweithredu yn y dyfodol wrth i ni symud ymlaen i gyflawni. Bydd yn bwysig sicrhau aliniad effeithiol ag unrhyw drefniadau llywodraethu presennol i wneud y defnydd gorau o'r rhai sydd eisoes ar waith yn y rhanbarth.

Y cam nesaf i'r rhanbarth, gyda chymorth tîm y Gwasanaeth Ynni, fydd gweithio gyda rhanddeiliaid i ddatblygu'r strwythur llywodraethu, a nodi rôl rhanddeiliaid allweddol o'r sectorau cyhoeddus, preifat a'r trydydd sector i ddarparu'r camau strategol a amlinellir isod. Bydd y gwaith hwn hefyd yn cynnwys nodi meysydd cydweithio ar draws y llywodraeth a'r sectorau allweddol sy'n hanfodol er mwyn cyflawni pob blaenoriaeth strategol.

## Monitro ac Adrodd

Bwriad y cynllun gweithredu yw bod yn ddogfen 'fyw' sy'n cael ei hadolygu a'i diweddaru'n rheolaidd. Bydd yn cael ei ddylanwadu gan gynlluniau lleol a rhanbarthol sy'n dod i'r amlwg, cynllunio ynni ardal leol yn y dyfodol (LAEP) a datblygiadau ac ymchwil perthnasol eraill yn y rhanbarth.

DRAFFT TERFYNOL

# Blaenoriaethau a chamau gweithredu strategol

## Camau trawsbynciol

Mae camau trawsbynciol yn cyfeirio at y camau hynny sy'n berthnasol i sawl sector o'r system ynni.

### Camau strategol



| Cyf | Cam | Amserlen | Arweinwyr | Galluogwyr Posibl | Statws cyllid | Statws cynnydd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **A** | **Sicrhau aliniad effeithiol rhwng strategaethau, cynlluniau a mentrau ynni lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.**<br>• Dylai'r trawsnewid gael ei arwain gan bolisïau cyson ar lefel genedlaethol sy'n hidlo i lawr i lefelau rhanbarthol a lleol. Wrth ddatblygu cynlluniau datblygu lleol a strategol dylid ystyried agweddau perthnasol y Strategaeth Ynni. | Tymor byr | Awdurdodau Lleol | Llywodraeth Cymru | *Dim angen cyllid* | *Mae cydweithio agos eisoes ar draws y strategaethau ynni rhanbarthol a Chynlluniau Ynni Ardal Leol (LAEP). Bydd Grŵp Cynghori Cenedlaethol a Grwpiau Rhanbarthol yn cael eu sefydlu er mwyn sicrhau aliniad effeithiol rhwng gwaith cynllunio ynni sy'n bodoli eisoes a rhai sy'n dod i'r amlwg.* |
| **B** | **Datblygu Cynlluniau Ynni Ardal Leol (LAEP) ym mhob ardal awdurdod lleol i gefnogi datblygiad map ffyrdd ar gyfer datgarboneiddio'r system ynni, drwy ddull system gyfan, aml-fector.**<br>• Nodi cyfleoedd lleol i ddatblygu prosiectau ynni, gan gynnwys ynni solar PV, gwynt ar y tir ac ar y môr, niwclear, hydro a llanw. | Tymor byr | Awdurdodau Lleol<br><br>Uchelgais Gogledd Cymru | SPEN<br><br>WWU<br><br>Llywodraeth Cymru | *Cyllid yn ei le* | *Mae cynllun treialu LAEP eisoes wedi'i fabwysiadu ym Mwrdeistref Sirol Conwy. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo cyllid i baratoi LAEP ar draws y pum ardal Awdurdod Lleol arall erbyn mis Mawrth 2024. Bydd y gwaith o ddatblygu LAEP yng Ngogledd Cymru yn cael ei gydlynu gan Uchelgais Gogledd Cymru gyda chefnogaeth dechnegol gan Energy Systems Catapult.* |

| Cyf | Cam | Amserlen | Arweinwyr | Galluogwyr Posibl | Statws cyllid | Statws cynnydd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | *Yn ddiweddar, rhyddhaodd Energy Systems Catapult ganllawiau technegol i gefnogi'r gwaith o ddatblygu LAEP, sy'n rhan o'u penodiad fel cynghorwyr technegol i Lywodraeth Cymru.* |
| **C** | **Arwain ar ddatblygu'r gofynion sgiliau a nodwyd yn Adroddiad Sgiliau Gwyrdd y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol (RSP) a Chynllun Gweithredu Sgiliau Sero Net Llywodraeth Cymru.**<br>• Adolygu'r galluoedd sgiliau a'r gallu presennol i gyflawni datgarboneiddio fel y cynigiwyd yng nghynllun Cymru Sero Net.<br>• Datblygu strategaeth i godi ymwybyddiaeth o alluoedd rhanbarthol (gan gynnwys gwynt ar y môr ac ar y tir, ynni morol, niwclear a solar PV).<br>• Sicrhau bod y cadwyni cyflenwi lleol yn weladwy i ddatblygwyr sy'n gweithredu yn y rhanbarth.<br>• Darparu hyfforddiant ac addysg briodol i alluogi pobl i gael mynediad at swyddi gwyrdd ar draws y cylch dysgu a dylid integreiddio cyfleoedd i addasu swyddi presennol i lwybrau gyrfa. | Tymor byr | Llywodraeth Cymru<br><br>Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol | Awdurdodau Lleol<br><br>Prifysgol Bangor / M-Sparc<br><br>Prifysgol Glyndŵr<br><br>Sefydliadau Addysg Bellach<br><br>SPEN<br><br>WWU | *Arian yn ei le ar gyfer Cynllun Sgiliau a Chyflogaeth. Angen rhagor o waith i benderfynu ar ofynion cyllid* | *Mae'r RSP wedi comisiynu adroddiad i'r swyddi a'r sgiliau sydd eu hangen ledled Cymru i gefnogi'r broses o drosglwyddo i economi werdd. Bydd y Cynllun Sgiliau a Chyflogaeth Ranbarthol nesaf yn cynnwys anecs Sgiliau Sero Net manwl a fydd yn adeiladu ar ganfyddiadau o ymchwil parhaus gan Lywodraeth Cymru, RSP a'r Grŵp Hyfforddiant a Sgiliau Ôl-osod er mwyn Optimeiddio (ORP). Bydd y Cynllun yn cael ei ddatblygu yn gynnar yn 2023.*<br><br>*Sefydlwyd Gweithgor Sgiliau a Hyfforddiant Morlais i nodi a darparu atebion ar gyfer unrhyw fwlch sgiliau a gyflwynir gan y cyfleoedd gwaith o Brosiect Morlais.*<br><br>*Clwstwr sgiliau a chadwyn cyflenwi yw'r Gynghrair Ynni Ar y Môr a sefydlwyd i fanteisio ar y cyfleoedd a gynigir gan ynni ar y môr yng Ngogledd Cymru. Cefnogwyd M-SParc â chymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru i fod y corff atebol.*<br><br>*Mae gwaith parhaus ar gyfer Arfaeth Sgiliau Datgomisiynu Sgiliau Niwclear gyda Magnox.*<br><br>*Mae profiad a dysgu o brosiectau diweddar fel Sero Net Gwynedd ynghylch datgarboneiddio tai yn* |

| Cyf | Cam | Amserlen | Arweinwyr | Galluogwyr Posibl | Statws cyllid | Statws cynnydd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | *cynnwys partneriaeth rhwng y sector cyhoeddus a mentrau cymdeithasol a bydd yn llywio'r camau gweithredu hyn.* |
| **D** | **Mewnbwn i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y Strategaeth Ymgysylltu â Newid Ymddygiad Cyhoeddus sy'n amlinellu sut y gall cymdeithas fod yn rhan o'r newidiadau y gall unigolion a chymunedau eu gwneud i helpu Cymru i gyrraedd sero net.** | Tymor byr | Awdurdodau Lleol | Sefydliadau addysg<br><br>Prifysgol Bangor<br><br>Prifysgol Glyndwr<br><br>SPEN<br><br>WWU<br><br>Llywodraeth Cymru | *Dim angen cyllid* | *Ymrwymodd Cymru Sero Net Cyllideb Garbon 2 i ailadrodd y Strategaeth Ymgysylltu â Newid Ymddygiad Cyhoeddus yn ystod Haf 2022.* |
| **E** | **Datblygu dull strategol o gefnogi'r economi hydrogen ddatblygol, gan ystyried prosiectau hydrogen arfaethedig ar draws y rhanbarth.**<br>Dylai hyn:<br>• Ddarparu gweledigaeth glir o rôl hydrogen yn y system ynni ranbarthol yn y dyfodol.<br>• Ystyried cyfleoedd ar gyfer datgarboneiddio diwydiannol, defnyddiau trafnidiaeth ac ynni domestig.<br>• Cefnogi'r gwaith o ddatblygu'r hybiau hydrogen gan Fenter Môn yng | Tymor canolig | Llywodraeth Cymru<br><br>Uchelgais Gogledd Cymru | Grwpiau Hydrogen y Diwydiant<br><br>Awdurdodau Lleol<br><br>Trafnidiaeth Cymru<br><br>SPEN<br><br>WWU | *Angen cyllid* | *Mae Strategaeth Hydrogen y DU wedi ei chyhoeddi ac mae disgwyl i Lwybr Hydrogen Cymru ddilyn yn ystod 2022. Bydd y strategaethau hyn yn rhoi cyd-destun i'r DU a Chymru ar gyfer strategaeth hydrogen ranbarthol.*<br><br>*Mae cynigion ar gyfer hybiau hydrogen gwyrdd yn cael eu datblygu gan Uchelgais Gogledd Cymru a gan Fenter Môn yng Nghaergybi.*<br><br>*Mae Fframwaith Economaidd Rhanbarthol Gogledd Cymru yn gosod ymrwymiad i'r rhanbarth "Parhau i ddatblygu map llwybr i ddeall y dull gorau i* |

| Cyf | Cam | Amserlen | Arweinwyr | Galluogwyr Posibl | Statws cyllid | Statws cynnydd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nghaergybi ac Uchelgais Gogledd Cymru.<br>• Archwilio rôl Dal, Defnyddio a Storio Carbon, yn enwedig yng nghyd-destun prosiectau traws-ffiniol fel Hynet. | | | Llywodraeth y DU<br><br>Prifysgol Bangor<br><br>Prifysgol Glyndŵr | | *ddarparu'r cyfle i ddefnyddio Hydrogen ar draws Rhanbarth Gogledd Cymru, gan wneud y mwyaf o'r arbenigedd a'r asedau sydd ar gael a'r manteision y gellid eu cael."* |
| F | **Parhau i archwilio a chefnogi cyfleoedd ar gyfer systemau ynni lleol clyfar yn y rhanbarth.**<br>• Archwilio cyfleoedd sy'n dod i'r amlwg o raglen Byw'n Iach Llywodraeth Cymru. Mae'r rhaglen yn cefnogi Awdurdodau Lleol Cymru i gyflwyno heriau i fusnesau sydd â chynnyrch, prosesau a gwasanaethau arloesol. | Tymor byr | Uchelgais Gogledd Cymru | Llywodraeth Cymru | *Cyllid yn ei le* | *Mae Prosiect Ynni Clyfar Lleol y Fargen Dwf yn ystyried opsiynau ar gyfer sut y gallai cynllun cymorth ariannol newydd gefnogi prosiectau sy'n helpu i ddatgarboneiddio'r system ynni yng Ngogledd Cymru.*<br><br>*Sicrhawyd Cyllid Adnewyddu Cymunedol i ddarparu astudiaethau dichonoldeb i Systemau Ynni Lleol Smart.* |
| G | **Nodi piblinell o bortffolios prosiect ynni rhanbarthol sy'n sicrhau'r cwmpas mwyaf posibl ar gyfer denu buddsoddiad.** | Tymor canolig | Awdurdodau Lleol<br><br>Llywodraeth Cymru | Uchelgais Gogledd Cymru<br><br>Prifysgol Bangor<br><br>Prifysgol Glyndŵr<br><br>Llywodraeth y DU | *Cyllid yn ei le* | *Bydd datblygu LAEP ym mhob rhanbarth yn helpu i lywio cyfres o brosiectau ynni posibl.*<br><br>*Bydd Prosiect Ynni Clyfar Lleol y Fargen Dwf yn casglu gwybodaeth am brosiectau rhanbarthol sydd angen cymorth ariannol.* |
| H | **Cryfhau'r cysylltiad rhwng blaenoriaethau ymchwil, datblygu ac arloesi a blaenoriaethau'r Strategaeth Ynni**. | Tymor canolig | Llywodraeth Cymru<br><br>Prifysgol Bangor / M-Sparc | | *Angen rhagor o waith i benderfynu ar ofynion cyllid* | *Cydweithrediad parhaus rhwng y Prifysgolion ac awdurdodau lleol drwy Bartneriaeth Uchelgais Gogledd Cymru a Rhaglenni Bargen Twf.* |

| Cyf | Cam | Amserlen | Arweinwyr | Galluogwyr Posibl | Statws cyllid | Statws cynnydd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Prifysgol Glyndwr | | | *Bydd cynnwys y ddwy Brifysgol mewn llywodraethu sy'n dod i'r amlwg ynghylch y cynllun gweithredu yn cael ei ystyried.* |
| **Fii** | **Parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol ar ddatblygu cynllun hirdymor ar gyfer y rhwydweithiau ynni ar draws y rhanbarth a Chymru.** | Parhaus | Awdurdodau Lleol<br><br>Uchelgais Gogledd Cymru<br><br>Llywodraeth Cymru | WWU<br><br>SPEN | *Cyllid yn ei le* | *Mae Astudiaeth Grid y Dyfodol i Gymru ar waith gan Lywodraeth Cymru, Gweithredwyr Rhwydwaith Ynni ac Ofgem. Bydd yn cael ei defnyddio ochr yn ochr â LAEP i ddatblygu Cynllun Ynni'r Dyfodol i Gymru erbyn 2024.*<br><br>*Bydd y prosiect hwn hefyd yn llywio gofynion Grid Ynni Cymru yn y dyfodol ac yn cyfrannu at ddarparu Cymru'r Dyfodol: Cynllun Cenedlaethol 2040, gan ddarparu tystiolaeth i alluogi gweithredwyr rhwydwaith i gynllunio ac adeiladu'r rhwydweithiau y bydd eu hangen ar gyfer y targed Sero Net erbyn 2050.*<br><br>*Yn ddiweddar mae SPEN wedi cyhoeddi Cynllun Datblygu Rhwydwaith a fydd yn helpu i ddeall faint o fuddsoddiad a'r math o seilwaith sydd ei angen ar draws gogledd Cymru.* |

## 1. Harneisio’r doreth o adnoddau carbon isel lleol i ddod yn bwerdy gwyrdd ac arallgyfeirio'r cymysgedd ynniError! Bookmark not defined.

## 2. Dod yn arweinydd byd-eang ym maes technolegau gwynt ar y môrError! Bookmark not defined. a morol

## Camau strategol

| Cyf | Cam | Amserlen | Arweinwyr | Galluogwyr Posibl | Statws cyllid | Statws cynnydd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 2A | **Ymgysylltu â Llywodraeth Cymru i nodi ac adeiladu ar y cyfleoedd y gallai Ynni Cymru eu darparu i Ogledd Cymru.** | Tymor canolig | Uchelgais Gogledd Cymru<br><br>Awdurdodau Lleol | Llywodraeth Cymru<br><br>Ynni Cymunedol Cymru | *Dim angen cyllid* | *Mae potensial i'r rhanbarth fwydo i mewn i'r meddylfryd ynghylch Ynni Cymru drwy Lywodraeth Cymru ac Ynni Cymunedol Cymru.* |
| 2B | **Archwilio sut i wella cyfathrebu ynghylch ffynonellau cyllid sydd ar gael ar gyfer datblygu a darparu amrywiaeth o brosiectau cynhyrchu pŵer carbon isel (e.e. gwynt ar y tir ac ar y môr, solar PV, niwclear, ac ynni llanw a morol).** | Tymor byr | Uchelgais Gogledd Cymru<br><br>Awdurdodau Lleol | Llywodraeth Cymru<br><br>Gwasanaeth Ynni | *Angen rhagor o waith i benderfynu ar ofynion cyllid* | *Heb ddechrau.* |
| 2C | **Ymgysylltu â Llywodraeth y DU i gefnogi datblygiad safleoedd Wylfa a Thrawsfynydd ar gyfer prosiectau niwclear newydd:**<br>• Nodi’r gofynion e.e. proses dewis safle ar gyfer safleoedd newydd a Datganiadau Polisi Cenedlaethol wedi'u diweddaru.<br>• Cefnogi cyflwyniadau rhanbarthol i'r Gronfa Galluogi Niwclear. | Tymor byr | Awdurdodau Lleol<br><br>Uchelgais Gogledd Cymru | Llywodraeth y DU<br><br>Prifysgol Bangor | *Dim angen cyllid* | *Mae ynni niwclear wedi'i nodi fel blaenoriaeth yn Strategaeth Diogelwch Ynni Llywodraeth y DU.*<br><br>*Mae Prifysgol Bangor yn cynnal y Sefydliad Dyfodol Niwclear, sydd â'r nod o sefydlu Gogledd Cymru fel canolfan fyd-eang mewn technoleg niwclear.* |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Llywodraeth Cymru | | | *Mae blaengynlluniau i sefydlu Cyfleuster Hydrolig Thermol Niwclear Cenedlaethol yng Ngogledd Cymru.*<br><br>*Cefnogir Prosiect Adweithydd Modiwlar Bach Trawsfynydd drwy Raglen Ynni Carbon Isel y Fargen Twf.* |
| **2D** | **Ymgysylltu â Llywodraeth Cymru i benderfynu sut y gellir darparu mwy o berchnogaeth leol ar brosiectau ynni yn unol â chanllawiau cyhoeddedig ar berchnogaeth leol a rhannol yng Nghymru.** | Tymor byr | Uchelgais Gogledd Cymru<br><br>Awdurdodau Lleol | Llywodraeth Cymru | *Dim angen cyllid* | *Cafodd canllawiau ar berchnogaeth leol a rhannol eu cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru ym mis Mehefin 2022.* |
| **2E** | **Archwilio potensial sefydlu canolfan gyngor i gefnogi mentrau datgarboneiddio / ynni carbon isel rhanbarthol.** | Tymor canolig | Llywodraeth Cymru<br><br>Awdurdodau Lleol<br><br>Uchelgais Gogledd Cymru | | *Angen rhagor o waith i benderfynu ar ofynion cyllid* | *Mae'r gwaith ymchwil manwl ynni adnewyddadwy diweddaraf yn argymell gwasanaeth cynghori hawdd ei gyrchu. Ymateb Llywodraeth Cymru yw bod angen iddi fwrw ymlaen â'r ymgynghoriad ar raglen Cartrefi Cynnes, ymgyrch ymgysylltu â'r cyhoedd fel rhan o Net Zero Wales a strategaeth wres genedlaethol sydd i fod i gael ei rhyddhau ar gyfer ymgynghoriad yng ngwanwyn 2023 fel y gall ddarparu cynnig cliriach ar gyfer gwasanaeth cynghori.*<br><br>*Daeth ymgynghoriad ar iteriad nesaf y Rhaglen Cartrefi Cynnes i ben ym mis Ebrill 2022, ac mae'n cael ei adolygu ar hyn o bryd.* |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | *Mae Llywodraeth y DU wedi lansio eu cyngor yn ddiweddar sy'n cynnig MOT ynni yn y cartref sydd ar gael trwy wasanaeth cynghori ar-lein newydd* |
| **2F** | **Manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd ar gyfer caffael cyhoeddus i gefnogi'r broses o gyflymu cynhyrchu ynni adnewyddadwy a sicrhau gwerth economaidd a chymdeithasol lleol.**<br>• Sicrhau bod caffael cyhoeddus yn cryfhau cadwyni cyflenwi lleol / swyddi lleol (gwerth cymdeithasol).<br>• Gofyn i'r gadwyn gyflenwi gyflawni uchelgeisiau carbon y sector cyhoeddus drwy fframweithiau caffael. | Tymor canolig | Llywodraeth Cymru<br><br>Awdurdodau Lleol<br><br>Cyrff sector cyhoeddus | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru<br><br>Llywodraeth Cymru Cyflawni Masnachol | *Dim angen cyllid* | *Ym mis Mehefin 2022, cafodd y Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus ei osod gerbron Senedd Cymru. Bydd y ddyletswydd gaffael sy'n gyfrifol yn gymdeithasol yn y bil yn ceisio sicrhau bod gwariant cyhoeddus ar nwyddau, gwaith a gwasanaethau yn cael ei wneud mewn ffordd sydd o fudd i bawb ac nid yn unig yn canolbwyntio ar y gost. Bydd y bil yn llywio'r gwaith o gyflawni'r camau hyn.* |
| **2G** | **Manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd ar gyfer cronfeydd buddion cymunedol o brosiectau seilwaith ynni mawr i gefnogi mentrau datgarboneiddio lleol a rhanbarthol, gan gydnabod yr angen i dargedu'r cymunedau a'r ardaloedd hynny yr effeithir arnynt fwyaf gan ddatblygiadau o'r fath.** | Tymor canolig | Llywodraeth Cymru<br><br>Awdurdodau Lleol | | *Angen rhagor o waith i benderfynu ar ofynion cyllid* | *Mae amryw o brosiectau seilwaith ynni mawr wedi eu cynllunio ledled gogledd Cymru, gan gynnwys gwynt ar y môr, niwclear, solar a llanw.* |
| **2H** | **Cefnogi gwelliannau arfaethedig i seilwaith porthladdoedd y rhanbarth er mwyn sicrhau mwy o fudd rhanbarthol o brosiectau ynni gwynt ar y môr a llanw sydd wedi'u cynllunio.** | Tymor byr | Llywodraeth Cymru<br><br>Uchelgais Gogledd Cymru | Awdurdodau Lleol | *Angen rhagor o waith i benderfynu ar ofynion cyllid* | *Mae gwaith parhaus gan y Rhaglen Ynni Morol ac mae'r Fargen Dwf yn cefnogi gwelliannau seilwaith arfaethedig ym Mhorthladd Caergybi a phorthladd Mostyn..* |
| **2I** | **Sicrhau bod y cyfundrefnau cynllunio morol a chydsynio yn addas i'r diben ac yn cefnogi cyfleoedd ar gyfer twf cynaliadwy ynni adnewyddadwy morol yn y rhanbarth.** | Tymor byr | Llywodraeth Cymru | Cyfoeth Naturiol Cymru | *Dim angen cyllid* | *Mae adolygiad Llywodraeth Cymru o gydsyniad a thystiolaeth a chyngor ategol, wedi ei gwblhau ac mae disgwyl adroddiad yr argymhellion yn ystod haf 2022.* |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **2J** | **Ymgysylltu â Llywodraeth Cymru ar ddatblygu dulliau cynnal refeniw ar gyfer prosiectau ynni morol.** | Tymor byr | Awdurdodau Lleol<br><br>Uchelgais Gogledd Cymru | | *Dim angen cyllid* | *Y Gweithgor a ffurfiwyd i ddilyn Argymhellion Gwaith Ymchwil Manwl Ynni Adnewyddadwy sy'n gyfrifol am adolygu'r rhwystrau i ariannu prosiectau ynni adnewyddadwy, a bydd yn sefydlu cysylltiadau rhwng rhanddeiliaid allweddol i lywio'r gwaith hwn. Mae hyn hefyd yn cael sylw ar hyn o bryd drwy Raglen Ynni Morol Llywodraeth Cymru.* |
| **2K** | **Parhau i archwilio'r potensial ar gyfer prosiectau môr-lynnoedd llanw yng Ngogledd Cymru.** | Tymor canolig i hir | Llywodraeth Cymru<br><br>Uchelgais Gogledd Cymru<br><br>Awdurdodau Lleol | Ynni Morol Cymru | *Dim angen cyllid* | *Mae Her Morlyn Llanw Llywodraeth Cymru wedi ei lansio er mwyn pennu'r awydd i ddatblygu cynigion. Mae'r ymarfer ymgysylltu â'r farchnad hon yn canfod a oes diddordeb mewn unrhyw gystadleuaeth/caffael posibl yn y dyfodol i ddarparu morlyn llanw a all gynhyrchu trydan gyda'r enillydd/enillwyr o bosib yn cael cymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru.* |

# 3. Gwella effeithlonrwydd ynni tai'r rhanbarth a chyflymu'r broses o ddatgarboneiddio stoc adeiladau Error! Bookmark not defined.Gogledd Cymru

D.S. Mae camau sy'n gysylltiedig â stoc adeiladau masnachol wedi'u cynnwys o dan Flaenoriaeth Strategol 5: Manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i'r sector masnachol a diwydiannol gefnogi'r trawsnewid ynni ac ysgogi twf economaidd.

## Camau strategol



| Cyf | Cam | Amserlen | Arweinwyr | Galluogwyr Posibl | Statws cyllid | Statws cynnydd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **3A** | **Rhoi cymorth a chymhellion i aelwydydd osod mesurau effeithlonrwydd ynni a systemau gwresogi carbon-isel, gan sicrhau bod cymorth o'r fath wedi'i dargedu at y rhai mewn tlodi tanwydd a/neu sydd â'r angen mwyaf.** | Tymor canolig | Llywodraeth y DU<br>Llywodraeth Cymru<br>Awdurdodau lleol<br>Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig | Ofgem | *Angen rhagor o waith i benderfynu ar ofynion cyllid* | ***D.S. Mae amrywiaeth eang o raglenni a chynlluniau Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud â'r cam hwn, gan gynnwys Strategaeth Trechu Tlodi Tanwydd 2021 i 2035, y Rhaglen Tai Arloesol a Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio (ORP). Mae ymrwymiad hefyd i gyhoeddi strategaeth wres i Gymru yn 2023.*** *Bydd* ***Strategaeth Gwres ac Adeiladau*** *Llywodraeth y DU* ***hefyd yn berthnasol yma.***<br>*O ran Tai Cymdeithasol, gan dynnu ar dystiolaeth gan ORP, bydd Safon Ansawdd Tai Newydd Cymru (SATC) 2022 yn canolbwyntio ar egwyddorion ffabrig yn gyntaf a cheisio dod â'r holl dai cymdeithasol mor agos ag y bo'n ymarferol i EPC A neu gyfatebol ymhen degawd.* |

| Cyf | Cam | Amserlen | Arweinwyr | Galluogwyr Posibl | Statws cyllid | Statws cynnydd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | *Mae mentrau fel cynllun Nyth Llywodraeth Cymru wedi darparu cyngor a gwybodaeth o ansawdd uchel i berchnogion tai i archwilio a gwireddu eu cyfleoedd effeithlonrwydd ynni.*<br><br>*Bydd landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yn ymgysylltu a gweithio â Chartrefi Cymunedol Cymru (CHC) i ddatblygu'r cam hwn.*<br><br>*Mae Llywodraeth Cymru a Chymdeithas Tai Clwyd Alyn wedi sefydlu Canolfan Perfformiad Tai Di-garbon i ddarparu adnodd canolog ar gyfer cyngor sero net.*<br><br>*Mae Cynllun Wardeiniaid Ynni eisoes wedi treialu cydweithrediad landlordiaid cymdeithasol Gogledd Cymru a dylai dysgu o gynlluniau o'r fath lywio'r camau hyn.*<br><br>*Gall y Grant Uwchraddio Boeleri a ddarperir drwy Lywodraeth y DU helpu perchnogion eiddo gyda chostau ymlaen llaw i symud i fathau carbon isel o wres.*<br><br>*Bydd Rhwymedigaeth Cwmni Ynni (ECO4) yn rhedeg rhwng 2022 a 2026 ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i gyflenwyr ynni ddarparu targed effeithlonrwydd ynni a mesurau gwresogi i gartrefi. Mae ECO yn* |

| Cyf | Cam | Amserlen | Arweinwyr | Galluogwyr Posibl | Statws cyllid | Statws cynnydd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | *canolbwyntio ar gartrefi incwm isel, agored i niwed mewn tlodi tanwydd ond â phwyslais ar gefnogi'r cartrefi lleiaf effeithlon o ran ynni.* |
| **3B** | **Adolygu mecanweithiau ariannol presennol ac archwilio mecanweithiau ariannol newydd posibl i gefnogi perchennog-feddianwyr a pherchnogion adeiladau sy'n ceisio gwneud gwaith ôl-osod effeithlonrwydd ynni.** | Tymor canolig | Llywodraeth Cymru<br>Awdurdodau Lleol | | *Angen rhagor o waith i benderfynu ar ofynion cyllid* | *Ar gyfer y sector perchnogion-feddianwyr, y Rhaglen Cartrefi Clyd yw'r mecanwaith cyflenwi allweddol yn yr ardal hon. Ers 2011, mae dros £394 miliwn wedi'i fuddsoddi, er budd dros 67,000 o gartrefi. Bydd Llywodraeth Cymru'n parhau i ariannu'r rhaglen bresennol tan o leiaf Mai 2023[9].*<br>*Daeth ymgynghoriad ar iteriad nesaf y Rhaglen Cartrefi Cynnes[8] i ben ym mis Ebrill 2022, ac mae'n cael ei adolygu ar hyn o bryd.*<br>*Bydd Llywodraeth Cymru'n gweithio gyda Chyllid y DU, Banc Datblygu Cymru a rhanddeiliaid y sector i ystyried sut y gallwn ddatblygu a threialu cynhyrchion cyllid amgen i gefnogi perchennog-feddianwyr sy'n gwneud gwaith ôl-osod.[9]* |



[8] Gwella effeithlonrwydd ynni cartref i gefnogi (llyw.cymru)

[9] Cymru Sero Net Cyllideb Garbon 2 (2021 i 2025) | LLYW. CYMRU

| Cyf | Cam | Amserlen | Arweinwyr | Galluogwyr Posibl | Statws cyllid | Statws cynnydd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 3C | **Sicrhau bod arolygon PAS 2035 a chynllun clir o fesurau ôl-osod yn cael eu paratoi ar gyfer cartrefi cymdeithasol unigol, yn unol â Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC).** | Tymor canolig | Awdurdodau Lleol (sy’n dal stoc)<br>Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig | Llywodraeth Cymru | *Angen rhagor o waith i benderfynu ar ofynion cyllid* | *Fel rhan o'r SATC, erbyn 2023 bydd angen arolwg PAS 2035 (y Fanyleb sydd ar gael yn gyhoeddus sy'n gosod asesiad cyson ar gyfer mesurau ôl-osod ynni) a bydd angen cynllun clir ar gyfer cartrefi unigol.*[10] |
| 3D | **Adolygu'r ddarpariaeth gymorth bresennol i denantiaid a landlordiaid yn y sector rhentu preifat i sicrhau bod safonau effeithlonrwydd ynni gofynnol yn cael eu bodloni. Adolygu darpariaethau gorfodi er mwyn sicrhau bod safonau statudol gofynnol yn y sector yn cael eu cyflawni.** | Tymor canolig | Llywodraeth y DU<br>Llywodraeth Cymru<br>Awdurdodau Lleol | | *Angen rhagor o waith i benderfynu ar ofynion cyllid* | *Mae Llywodraeth y DU wedi cwblhau ymgynghoriad ar gynigion i gynyddu'r safon ofynnol i unrhyw eiddo gael ei rentu yn y sector rhentu preifat (PRS) i EPC C neu uwch.*[11] *Yr arwyddion presennol yw y bydd ymateb ffurfiol, ac yna rheoliadau diwygiedig yn cael eu cyhoeddi tua diwedd 2022. Wrth aros am ganlyniad yr adolygiad, bydd Llywodraeth Cymru yn adolygu'r pecyn cymorth sydd ar gael i landlordiaid sy'n ymuno â Chynllun Prydlesu PRS i sicrhau ei fod hefyd yn cefnogi gwelliannau ffabrig yn gyntaf.* |
| 3E | **Adolygu Hawliau Datblygu a Ganiateir yn barhaus yng Nghymru, i gefnogi gosodiadau ynni adnewyddadwy domestig ymhellach ar gyfer deiliaid tai a datblygwyr tai.** | Tymor byr | Llywodraeth Cymru | | *Dim angen cyllid* | *Mae hyn yn parhau gan fod hawliau datblygu a ganiateir yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.* |



[10] Safon Ansawdd Tai Cymru: drafft (llyw.cymru)

[11] Gwella perfformiad ynni cartrefi sy'n cael eu rhentu'n breifat - GOV.UK (www.gov.uk)

# 4. Sicrhau newid i drafnidiaeth carbon is

**D.S.** Mae nifer o gamau ynghylch lleihau'r galw drwy deithio llesol a defnydd cynyddol o drafnidiaeth gyhoeddus gynaliadwy wedi'u cynnwys yn **Llwybr Newydd – Strategaeth Drafnidiaeth Cymru 2021**[12] sy’n cyflwyno’r weledigaeth ar gyfer sut y gall y system drafnidiaeth helpu i gyflawni blaenoriaethau Cymru a rhoi Cymru ar lwybr i greu cymdeithas fwy ffyniannus, gwyrdd, a chyfartal. Mae'r strategaeth yn ymrwymo i sicrhau gostyngiad sylweddol mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr o drafnidiaeth drwy leihau'r galw, cefnogi gwasanaethau a seilwaith carbon isel a thrwy newid moddol ac yn cynnwys tair prif flaenoriaeth ar gyfer y pum mlynedd nesaf. Blaenoriaeth 1: Dod â gwasanaethau i bobl i leihau'r angen i deithio; Blaenoriaeth 2: Caniatáu i bobl a nwyddau symud yn hawdd o ddrws i ddrws drwy wasanaethau trafnidiaeth a seilwaith hygyrch, cynaliadwy ac effeithlon; Blaenoriaeth 3: Annog pobl i newid i gludiant mwy cynaliadwy. Ar y sail hon, nid yw’r camau hyn yn cael eu hefelychu isod.

## Camau strategol



| Cyf | Cam | Amserlen | Arweinwyr | Galluogwyr Posibl | Statws cyllid | Statws cynnydd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 4A | **Sicrhau aliniad rhwng Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol, y Strategaeth Ynni a Chynlluniau Ynni Ardal Leol sy'n dod i'r amlwg.** | Tymor canolig i hir | Llywodraeth Cymru<br>Cyd-bwyllgor Corfforaethol Gogledd Cymru | Trafnidiaeth Cymru | *Dim angen cyllid* | *Bydd cynlluniau ar gyfer trafnidiaeth ranbarthol yn nodi ymyriadau lleol i ddarparu system drafnidiaeth hygyrch, gynaliadwy ac effeithlon, fel y nodir yn Strategaeth Drafnidiaeth Cymru.*<br>*Bydd Cyd-bwyllgorau Corfforaethol yn datblygu cynlluniau trafnidiaeth rhanbarthol. Bydd y rhain yn cyd-fynd â Cymru'r Dyfodol - y Cynllun Cenedlaethol 2040 a'r cynlluniau datblygu strategol sy'n dod i'r amlwg.* |

12 Llwybr Newydd: Strategaeth Drafnidiaeth Cymru 2021 | LLYW. CYMRU

| Cyf | Cam | Amserlen | Arweinwyr | Galluogwyr Posibl | Statws cyllid | Statws cynnydd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | *Mae Strategaeth Drafnidiaeth Cymru yn ymrwymo i sicrhau dull cydgysylltiedig o benderfyniadau buddsoddi mewn seilwaith ar draws Llywodraeth Cymru a chynllunio ynni rhanbarthol.* |
| 4B | **Archwilio cymhellion ariannol ar draws pob math o gerbydau, gan gynnwys cerbydau gwasanaethau cyhoeddus, fflydoedd masnachol a diwydiannol a cherbydau preifat, er mwyn sicrhau cynnydd yn y nifer sy'n defnyddio cerbydau dim allyriadau.**<br>• Ymgysylltu â Llywodraeth y DU ar y cynnydd a wnaed ar ddatblygu cynllun sgrapio cenedlaethol y DU gyfan ar gyfer cerbydau hŷn, gan gefnogi modelau economi gylchol<br>• Archwilio opsiynau i wneud cerbydau dim allyriadau yn fwy fforddiadwy i ddinasyddion<br>• Archwilio opsiynau ar gyfer modelau perchnogaeth amgen ar gyfer cerbydau gwasanaethau cyhoeddus. | Tymor canolig | Llywodraeth y DU<br>Llywodraeth Cymru | Trafnidiaeth Cymru<br>Awdurdodau Lleol | *Angen rhagor o waith i benderfynu ar ofynion cyllid* | *Mae Strategaeth Trafnidiaeth Cymru yn ymrwymo i leihau cost teithio cynaliadwy trwy fentrau fel cynlluniau sgrapio ar gyfer cerbydau hŷn, grantiau tuag at gost beiciau trydan, a thrwy ymestyn cynlluniau teithio rhatach i'r rhai sydd ei angen fwyaf.* |
| 4C | **Cydweithio ar gyfleoedd i ddatgarboneiddio fflyd y sector cyhoeddus, cerbydau gwasanaethau cyhoeddus, a fflydoedd masnachol a diwydiannol a chydlynu gwaith dylunio a datblygu seilwaith cysylltiedig ar draws ffiniau awdurdodau lleol.** | Tymor canolig | Awdurdodau Lleol | Uchelgais Gogledd Cymru<br>Llywodraeth Cymru | *Dim angen cyllid* | *Mae llawer o gyrff cyhoeddus Gogledd Cymru wedi cymryd rhan mewn adolygiadau fflyd diweddar ac yn paratoi cynlluniau pontio fflyd. Mae nifer o awdurdodau lleol eisoes wedi gosod mannau gwefru cyhoeddus ar gyfer cerbydau trydan ochr yn ochr â'r ddarpariaeth ar gyfer cerbydau fflyd.* |

| Cyf | Cam | Amserlen | Arweinwyr | Galluogwyr Posibl | Statws cyllid | Statws cynnydd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **4D** | **Cydweithio i ddarparu'r seilwaith gwefru cyhoeddus ar gyfer cerbydau trydan mwyaf priodol ar draws y rhanbarth, gan alinio â'r gwaith cenedlaethol sy'n cael ei wneud drwy Trafnidiaeth Cymru.** | Tymor byr i ganolig | Awdurdodau Lleol<br>Llywodraeth Cymru | Trafnidiaeth Cymru<br>SPEN | *Angen rhagor o waith i benderfynu ar ofynion cyllid* | *Mae pwyntiau gwefru cerbydau trydan wedi'u cyflwyno drwy gyllid Llywodraeth Cymru a Buddsoddiad Adferiad Gwyrdd SPEN.*<br>*Mae'r Strategaeth Gwefru Cerbydau Trydan yn amlinellu gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer gwefru cerbydau trydan yng Nghymru, ac mae Strategaeth Trafnidiaeth Cymru yn ymrwymo i gyflawni hyn erbyn 2040.* |
| **4E** | **Adolygu'r cyfnod cyllid a hyd y contractau sy'n gysylltiedig â'r Gronfa Trafnidiaeth Leol.** | Tymor byr | Llywodraeth Cymru<br>Awdurdodau Lleol | | *Dim angen cyllid* | *Heb ddechrau.* |
| **4F** | **Cefnogi codi ymwybyddiaeth yn well o gyllid Llywodraeth y DU ar gyfer datblygu seilwaith gwefru cerbydau trydan, fel y cynllun gwefru preswyl ar y stryd.** | Tymor byr | Llywodraeth Cymru | Awdurdodau Lleol<br>Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru | *Dim angen cyllid* | *Mae Llywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi bod yn ymgysylltu ag awdurdodau lleol ynghylch y cyllid sydd ar gael a chael gafael arno.* |
| **4G** | **Parhau i gefnogi sefydliadau fel clybiau ceir cymunedau lleol i ddarparu seilwaith a gwasanaethau trafnidiaeth carbon isel sy'n canolbwyntio ar y gymuned.** | Tymor byr i ganolig | Llywodraeth Cymru<br>Awdurdodau Lleol | | *Angen rhagor o waith i benderfynu ar ofynion cyllid* | *Mae Strategaeth Trafnidiaeth Cymru yn ymrwymo i symud oddi wrth berchnogaeth cerbydau unigol i atebion rhannu, gan gynnwys rhannu car a chlybiau ceir. Nodir bod twf modelau a gwasanaethau o'r fath yn flaenoriaeth i'w ddarparu o fewn y pum mlynedd nesaf. Bydd cyllid fel Cronfa Trawsnewid Cerbydau Allyriadau Isel Iawn* |

| Cyf | Cam | Amserlen | Arweinwyr | Galluogwyr Posibl | Statws cyllid | Statws cynnydd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | *Llywodraeth Cymru yn cael ei ddefnyddio i roi hwb i fentrau o'r fath.* |
| 4H | **Archwilio opsiynau o ran buddsoddi mewn cyfleuster cludo nwyddau trên ym Mhorthladd Caergybi fel rhan o ddatblygiad y cynllun logisteg a chludo nwyddau aml-foddol.** | Tymor canolig | Llywodraeth Cymru | Croesawu Awdurdod Lleol | *Angen rhagor o waith i benderfynu ar ofynion cyllid* | *Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Llywodraeth y DU, y sector a phartneriaid eraill ar Gynllun Logisteg a Chludo nwyddau i Gymru.*<br>*Mae Strategaeth Trafnidiaeth Cymru yn ymrwymo i integreiddio cludo nwyddau a logisteg yn bolisi cynllunio trafnidiaeth ehangach a defnydd tir, gan gynnwys cydleoli gweithgynhyrchu, ynni, hamdden a thwristiaeth gyda phorthladdoedd a hybiau cludo nwyddau. Mae cydnabod porthladdoedd a thrafnidiaeth forwrol fel wyneb allweddol o bolisi ehangach ar nwyddau a logisteg yn cael ei nodi fel blaenoriaeth.* |
| 4I | **Adolygu gweithgareddau a dulliau presennol o ddatgarboneiddio cerbydau nwyddau trwm ledled y DU, Iwerddon ac Ewrop a sut y gallai hyn effeithio ar Gynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol.** | Tymor byr | Llywodraeth Cymru | Uchelgais Gogledd Cymru | *Angen rhagor o waith i benderfynu ar ofynion cyllid* | *Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gefnogi'r sector i dreialu technolegau newydd, gan ddefnyddio cymhellion ariannol sydd ar gael gan Lywodraeth y DU. Bydd y technolegau hyn yn ceisio cyd-fynd â chyfleoedd sy'n dod i'r amlwg i gynhyrchu ynni glân, fel yr Hwb Hydrogen arfaethedig yng Nghaergybi.* |

## 5. Manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i'r sector masnachol a diwydiannol gefnogi'r trawsnewid ynni ac ysgogi twf economaidd

### Camau strategol

| Cyf | Cam | Amserlen | Arweinwyr | Galluogwyr Posibl | Statws cyllid | Statws cynnydd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 5A | **Sefydlu Grŵp Sector Diwydiannol a Masnachol Gogledd Cymru sy'n canolbwyntio ar gefnogi datgarboneiddio'r sector masnachol a diwydiannol.**<br>Rhan o rôl y Grŵp fydd:<br>- Ymgysylltu â Diwydiant Sero Net Cymru (DSNC) a sefydliadau perthnasol eraill er mwyn deall mannau poblogaidd allyriadau yn well a lefel y datgarboneiddio masnachol a diwydiannol sydd ei angen yng Ngogledd Cymru, er mwyn cyrraedd targed sero net cenedlaethol Cymru.<br>- Monitro a dadansoddi cynnydd parhaus prosiectau datgarboneiddio yn y sectorau masnachol a diwydiannol er mwyn sicrhau bod arbedion a ragwelir yn cyflawni'r lefel o ddatgarboneiddio sydd ei angen i fodloni sero net . | Tymor byr | Cyngor Busnes Gogledd Cymru a Mersi Dyfrdwy | Llywodraeth Cymru<br>Fforwm Datgarboneiddio Glannau Dyfrdwy<br>SPEN | *Angen rhagor o waith i benderfynu ar ofynion cyllid* | *Mae'r Cyngor Busnes yn rhedeg rhwydwaith rhanbarthol Sero Net Gogledd Cymru ar gyfer busnesau..*<br>*Mae Fforwm Datgarboneiddio Glannau Dyfrdwy wedi'i sefydlu i ddod â busnesau yn yr ardal Glannau Dyfrdwy at ei gilydd i helpu i gyflymu gweithgarwch datgarboneiddio.*<br>*Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu Diwydiant Sero Net Cymru(DSNC) i weithio gyda Chlwstwr Diwydiannol De Cymru i ddechrau gyda'r bwriad o ymestyn i Gymru gyfan lle a phryd mae angen cymorth. ByddDSNC hefyd yn cydweithio'n agos gyda chlystyrau diwydiannol blaenllaw eraill y DU i sicrhau bod gan Gymru fynediad at arferion gorau.* |
| 5B | **Deall y rôl y gall micro-gridiau ac atebion arloesol eraill ei chwarae mewn clystyrau diwydiannol presennol fel y rhai yng Nglannau Dyfrdwy a Wrecsam.** | Tymor canolig | Llywodraeth Cymru | Croesawu awdurdodau lleol<br>SPEN | *Angen rhagor o waith i benderfynu* | *Mae astudiaeth Grid y Dyfodol i Gymru ar y gweill ac yn cynnwys Llywodraeth* |

| Cyf | Cam | Amserlen | Arweinwyr | Galluogwyr Posibl | Statws cyllid | Statws cynnydd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | *ar ofynion cyllid* | *Cymru, Gweithredwyr Rhwydwaith Ynni ac Ofgem.* |
| **5C** | **Archwilio datblygiad mecanweithiau cymorth ar gyfer busnesau bach a chanolig eu maint (BBaCh) i'w hannog i gynnal gwelliannau effeithlonrwydd ynni ar adeiladau masnachol.**<br>• Sefydlu 'siop un stop' am gyngor i gefnogi busnesau llai yn y cyfnod pontio i sero net. Dylai hyn gyd-fynd ag unrhyw fentrau sydd eisoes yn bodoli gan Busnes Cymru. | Tymor canolig | Busnes Cymru | | *Angen rhagor o waith i benderfynu ar ofynion cyllid* | *Mae Busnes Cymru wedi lansio'r grant carbon sero-net i gwmnïau newydd ym mis Chwefror 2022.*<br>*Busnes Cymru sydd hefyd yn rhedeg yr Addewid Twf Gwyrdd, sy'n helpu busnesau Cymru i gymryd camau rhagweithiol i wella'u cynaliadwyedd.*<br>*Fel rhan o'r ymgyrch Ras i Sero a gefnogir gan* y Cenhedloedd Unedig, *sefydlodd Llywodraeth y DU Hwb Hinsawdd Busnes y DU, siop un stop am gyngor ar gamau y gall busnesau bach a chanolig eu cymryd i fesur a rheoli allyriadau.* |

DRAFFT TERFYNOL

# Atodiad 1: Mapio Blaenoriaethau Strategol

Mae'r tabl isod yn mapio pob cam strategol i flaenoriaethau strategol perthnasol sy'n cael eu hamlinellu yn y Strategaeth Ynni. Er mwyn hwyluso'r cyfeirio, caiff blaenoriaethau strategol eu talfyrru drwy ddefnyddio'r cyfeirnod rhifol:

1. Harneisio'r doreth o adnoddau carbon isel lleol i ddod yn bwerdy gwyrdd ac arallgyfeirio'r cymysgedd ynni
2. Dod yn arweinydd byd-eang mewn technolegau gwynt ar y môr a morol
3. Gwella effeithlonrwydd ynni tai'r rhanbarth a chyflymu'r broses o ddatgarboneiddio stoc adeiladau Gogledd Cymru
4. Sicrhau newid i drafnidiaeth carbon is
5. Manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i'r sector masnachol a diwydiannol gefnogi'r trawsnewid ynni ac ysgogi twf economaidd.

| | | **Cyfeirnod Blaenoriaeth Strategol** | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cam strategol** | **Cyf y Cam** | **1** | **2** | **3** | **4** | **5** |
| **Sicrhau aliniad effeithiol rhwng strategaethau, cynlluniau a mentrau ynni lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.**<br>• Dylai'r trawsnewid gael ei arwain gan bolisïau cyson ar lefel genedlaethol sy'n hidlo i lawr i lefelau rhanbarthol a lleol. Wrth ddatblygu cynlluniau datblygu lleol a strategol dylid ystyried agweddau perthnasol y Strategaeth Ynni. | **A** | + | + | + | + | + |
| **Datblygu Cynlluniau Ynni Ardal Leol (LAEP) ym mhob ardal awdurdod lleol i gefnogi datblygiad map ffyrdd ar gyfer datgarboneiddio'r system ynni, drwy ddull system gyfan, aml-fector.**<br>• Nodi cyfleoedd lleol i ddatblygu prosiectau ynni, gan gynnwys ynni solar PV, gwynt ar y tir ac ar y môr, niwclear, hydro a llanw. | **B** | + | + | + | + | + |
| **Arwain ar ddatblygu'r gofynion sgiliau a nodwyd yn Adroddiad Sgiliau Gwyrdd y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol (RSP) a Chynllun Gweithredu Sgiliau Sero Net Llywodraeth Cymru.**<br>• Adolygu'r galluoedd sgiliau a'r gallu presennol i gyflawni datgarboneiddio fel y cynigiwyd yng nghynllun Cymru Sero Net.<br>• Datblygu strategaeth i godi ymwybyddiaeth o alluoedd rhanbarthol (gan gynnwys gwynt ar y môr ac ar y tir, ynni morol, niwclear a solar PV). | **C** | + | + | + | + | + |

| | | Cyfeirnod Blaenoriaeth Strategol | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| • Sicrhau bod y cadwyni cyflenwi lleol yn weladwy i ddatblygwyr sy'n gweithredu yn y rhanbarth.<br>• Darparu hyfforddiant ac addysg briodol i alluogi pobl i gael mynediad at swyddi gwyrdd ar draws y cylch dysgu a dylid integreiddio cyfleoedd i addasu swyddi presennol i lwybrau gyrfa. | | | | | | |
| **Mewnbwn i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y Strategaeth Ymgysylltu â Newid Ymddygiad Cyhoeddus sy'n amlinellu sut y gall cymdeithas fod yn rhan o'r newidiadau y gall unigolion a chymunedau eu gwneud i helpu Cymru i gyrraedd sero net.** | **D** | + | | + | + | |
| **Datblygu map ffyrdd hydrogen rhanbarthol i gefnogi'r economi hydrogen ddatblygol, gan ystyried prosiectau hydrogen arfaethedig ar draws y rhanbarth.**<br>Dylai'r map ffyrdd:<br>• Ddarparu gweledigaeth glir o rôl hydrogen yn y system ynni ranbarthol yn y dyfodol.<br>• Ystyried cyfleoedd ar gyfer datgarboneiddio diwydiannol, defnyddiau trafnidiaeth ac ynni domestig.<br>• Cefnogi'r gwaith o ddatblygu'r hybiau hydrogen gan Fenter Môn yng Nghaergybi ac Uchelgais Gogledd Cymru.<br>• Archwilio rôl Dal, Defnyddio a Storio Carbon, yn enwedig yng nghyd-destun prosiectau traws-ffiniol fel Hynet. | **E** | + | + | + | + | + |
| **Parhau i archwilio a chefnogi cyfleoedd ar gyfer systemau ynni lleol clyfar yn y rhanbarth.**<br>• Archwilio cyfleoedd sy'n dod i'r amlwg o raglen Byw'n Iach Llywodraeth Cymru. Mae'r rhaglen yn cefnogi Awdurdodau Lleol Cymru i gyflwyno heriau i fusnesau sydd â chynnyrch, prosesau a gwasanaethau arloesol. | **F** | + | + | + | + | + |
| **Nodi piblinell o bortffolios prosiect ynni rhanbarthol sy'n sicrhau'r cwmpas mwyaf posibl ar gyfer denu buddsoddiad.** | **G** | + | + | + | + | + |
| **Cryfhau'r cysylltiad rhwng blaenoriaethau ymchwil, datblygu ac arloesi a blaenoriaethau'r Strategaeth Ynni**. | **H** | + | + | + | + | + |
| **Parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol ar ddatblygu cynllun tymor hir ar gyfer y rhwydweithiau ynni ar draws y rhanbarth a Chymru.** | **I** | + | + | + | + | + |

| | | Cyfeirnod Blaenoriaeth Strategol | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ymgysylltu â Llywodraeth Cymru i nodi ac adeiladu ar y cyfleoedd y gallai Ynni Cymru eu darparu i Ogledd Cymru.** | **2A** | + | + | | | |
| **Archwilio sut i wella cyfathrebu ynghylch ffynonellau cyllid sydd ar gael ar gyfer datblygu a darparu amrywiaeth o brosiectau cynhyrchu pŵer carbon isel (e.e. gwynt ar y tir ac ar y môr, solar PV, niwclear, ac ynni llanw a morol).** | **2B** | + | + | | | |
| **Ymgysylltu â Llywodraeth y DU i gefnogi datblygiad safleoedd Wylfa a Thrawsfynydd ar gyfer prosiectau niwclear newydd:**<br>• Nodi'r gofynion e.e. proses dewis safle ar gyfer safleoedd newydd a Datganiadau Polisi Cenedlaethol wedi'u diweddaru.<br>• Cefnogi cyflwyniadau rhanbarthol i'r Gronfa Galluogi Niwclear. | **2C** | + | | | | |
| **Ymgysylltu â Llywodraeth Cymru i benderfynu sut y gellir darparu mwy o berchnogaeth leol ar brosiectau ynni yn unol â chanllawiau cyhoeddedig ar berchnogaeth leol a rhannol yng Nghymru.** | **2D** | + | + | | | |
| **Archwilio potensial sefydlu canolfan gyngor i gefnogi mentrau datgarboneiddio / ynni carbon isel rhanbarthol.** | **2E** | + | + | + | + | + |
| **Manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd ar gyfer caffael cyhoeddus i gefnogi'r broses o gyflymu cynhyrchu ynni adnewyddadwy a sicrhau gwerth economaidd a chymdeithasol lleol.**<br>• Sicrhau bod caffael cyhoeddus yn cryfhau cadwyni cyflenwi lleol / swyddi lleol (gwerth cymdeithasol).<br>• Gofyn i'r gadwyn gyflenwi gyflawni uchelgeisiau carbon y sector cyhoeddus drwy fframweithiau caffael. | **2F** | + | + | | | + |
| **Manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd ar gyfer cronfeydd buddion cymunedol o brosiectau seilwaith ynni mawr i gefnogi mentrau datgarboneiddio lleol a rhanbarthol, gan gydnabod yr angen i dargedu'r cymunedau a'r ardaloedd hynny yr effeithir arnynt fwyaf gan ddatblygiadau o'r fath.** | **2G** | + | + | | | |
| **Cefnogi gwelliannau arfaethedig i seilwaith porthladdoedd y rhanbarth er mwyn sicrhau mwy o fudd rhanbarthol o brosiectau ynni gwynt ar y môr a llanw sydd wedi'u cynllunio.** | **2H** | + | + | | | |

| | | Cyfeirnod Blaenoriaeth Strategol | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ymgysylltu â'r adolygiad cydsynio morol gan Lywodraeth Cymru a nodi'r goblygiadau ar gyfer prosiectau rhanbarthol.** | **2I** | + | + | | | |
| **Ymgysylltu â Llywodraeth Cymru ar ddatblygu dulliau cynnal refeniw ar gyfer prosiectau ynni morol.** | **2J** | + | + | | | |
| **Parhau i archwilio'r potensial ar gyfer prosiectau môr-lynnoedd llanw yng Ngogledd Cymru.** | **2K** | + | + | | | |
| **Rhoi cymorth a chymhellion i aelwydydd osod mesurau effeithlonrwydd ynni a systemau gwresogi carbon-isel, gan sicrhau bod cymorth o'r fath wedi'i dargedu at y rhai mewn tlodi tanwydd a/neu sydd â'r angen mwyaf.** | **3A** | | | + | | |
| **Adolygu mecanweithiau ariannol presennol ac archwilio mecanweithiau ariannol newydd posibl i gefnogi perchennog-feddianwyr a pherchnogion adeiladau sy'n ceisio gwneud gwaith ôl-osod effeithlonrwydd ynni.** | **3B** | | | + | | |
| **Sicrhau bod arolygon PAS 2035 a chynllun clir o fesurau ôl-osod yn cael eu paratoi ar gyfer cartrefi cymdeithasol unigol, yn unol â Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC).** | **3C** | | | + | | |
| **Adolygu'r ddarpariaeth gymorth bresennol i denantiaid a landlordiaid yn y sector rhentu preifat i sicrhau bod safonau effeithlonrwydd ynni gofynnol yn cael eu bodloni. Adolygu darpariaethau gorfodi er mwyn sicrhau bod safonau statudol gofynnol yn y sector yn cael eu cyflawni.** | **3D** | | | + | | |
| **Adolygu Hawliau Datblygu a Ganiateir yn barhaus yng Nghymru, i gefnogi gosodiadau ynni adnewyddadwy domestig ymhellach ar gyfer deiliaid tai a datblygwyr tai.** | **3E** | | | + | | |
| **Sicrhau aliniad rhwng Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol, y Strategaeth Ynni a Chynlluniau Ynni Ardal Leol sy'n dod i'r amlwg.** | **4A** | | | | + | |
| **Archwilio cymhellion ariannol ar draws pob math o gerbydau, gan gynnwys cerbydau gwasanaethau cyhoeddus, fflydoedd masnachol a diwydiannol a cherbydau preifat, er mwyn sicrhau cynnydd yn y nifer sy'n defnyddio cerbydau dim allyriadau.** | **4B** | | | | + | |

| | | Cyfeirnod Blaenoriaeth Strategol | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| • Ymgysylltu â Llywodraeth y DU ar y cynnydd a wnaed ar ddatblygu cynllun sgrapio cenedlaethol y DU gyfan ar gyfer cerbydau hŷn, gan gefnogi modelau economi gylchol<br>• Archwilio opsiynau i wneud cerbydau dim allyriadau yn fwy fforddiadwy i ddinasyddion<br>• Archwilio opsiynau ar gyfer modelau perchnogaeth amgen ar gyfer cerbydau gwasanaethau cyhoeddus. | | | | | | |
| **Cydweithio ar gyfleoedd i ddatgarboneiddio fflyd y sector cyhoeddus, cerbydau gwasanaethau cyhoeddus, a fflydoedd masnachol a diwydiannol a chydlynu gwaith dylunio a datblygu seilwaith cysylltiedig ar draws ffiniau awdurdodau lleol.** | **4C** | | | | + | |
| **Cydweithio i ddarparu'r seilwaith gwefru cyhoeddus ar gyfer cerbydau trydan mwyaf priodol ar draws y rhanbarth, gan alinio â'r gwaith cenedlaethol sy'n cael ei wneud drwy Trafnidiaeth Cymru.** | **4D** | | | | + | |
| **Adolygu'r cyfnod cyllid a hyd y contractau sy'n gysylltiedig â'r Gronfa Trafnidiaeth Leol.** | **4E** | | | | + | |
| **Cefnogi codi ymwybyddiaeth yn well o gyllid Llywodraeth y DU ar gyfer datblygu seilwaith gwefru cerbydau trydan, fel y cynllun gwefru preswyl ar y stryd.** | **4F** | | | | + | |
| **Parhau i gefnogi sefydliadau fel clybiau ceir cymunedau lleol i ddarparu seilwaith a gwasanaethau trafnidiaeth carbon isel sy'n canolbwyntio ar y gymuned.** | **4G** | | | | + | |
| **Archwilio opsiynau o ran buddsoddi mewn cyfleuster cludo nwyddau trên ym Mhorthladd Caergybi fel rhan o ddatblygiad y cynllun logisteg a chludo nwyddau aml-foddol.** | **4H** | | | | + | |
| **Adolygu gweithgareddau a dulliau presennol o ddatgarboneiddio cerbydau nwyddau trwm ledled y DU, Iwerddon ac Ewrop a sut y gallai hyn effeithio ar Gynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol.** | **4I** | | | | + | |
| **Sefydlu Grŵp Sector Diwydiannol a Masnachol Gogledd Cymru sy'n canolbwyntio ar gefnogi datgarboneiddio'r sector masnachol a diwydiannol.** | **5A** | | | | | + |

| | | Cyfeirnod Blaenoriaeth Strategol | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Deall y rôl y gall micro-gridiau ac atebion arloesol eraill ei chwarae mewn clystyrau diwydiannol presennol fel y rhai yng Nglannau Dyfrdwy a Wrecsam.** | **5B** | + | | | | + |
| **Archwilio datblygiad mecanweithiau cymorth ar gyfer busnesau bach a chanolig eu maint (BBaCh) i'w hannog i gynnal gwelliannau effeithlonrwydd ynni ar adeiladau masnachol.**<br>• Sefydlu 'siop un stop' am gyngor i gefnogi busnesau llai yn y cyfnod pontio i sero net. Dylai hyn gyd-fynd ag unrhyw fentrau sydd eisoes yn bodoli gan Busnes Cymru. | **5C** | | | + | | + |

# Atodiad 2: Camau wedi'u categoreiddio fesul rhanddeiliad arweiniol

| Arweinydd | Blaenoriaeth strategol | Camau |
|---|---|---|
| Awdurdodau Lleol | Trawsbynciol | A, B, D, G, I |
| | 1&2 | 2A, 2B, 2C, 2D, 2E, 2F, 2I, 2J, 2K |
| | 3 | 3A, 3B, 3C, 3D |
| | 4 | 4C, 4D, 4E, 4G |
| Llywodraeth Cymru | Trawsbynciol | C, E, G, H, I |
| | 1&2 | 2C, 2E, 2F, 2G, 2H, 2I, 2K |
| | 3 | 3A, 3B, 3D, 3E |
| | 4 | 4A, 4B, 4D, 4E, 4F, 4G, 4H, 4I |
| | 5 | 5B |
| Uchelgais Gogledd Cymru | Trawsbynciol | B, E, F, I |
| | 1&2 | 2A, 2B, 2C, 2D, 2E, 2H, 2J, 2K |
| Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol | Trawsbynciol | C |
| Llywodraeth y DU | 3 | 3A, 3D |

| | | |
|---|---|---|
| | 4 | 4B |
| | | |
| Prifysgol Bangor / M-Sparc | Trawsbynciol | H |
| Prifysgol Glyndwr | Trawsbynciol | H |
| Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig | 3 | 3C |
| Busnes Cymru | 5 | 5C |
| Cyd-bwyllgorau Corfforaethol Gogledd Cymru | 4 | 4A |
| Cyngor Busnes Gogledd Cymru a Merswy Dyfrdwy | 5 | 5A |
| Cyrff sector cyhoeddus | 1&2 | 2F |
| Gwasanaeth Ynni | 1&2 | 2B |

# Atodiad 3: Heriau a nodwyd gan randdeiliaid

Yn ystod y gweithdy, gofynnwyd i'r cyfranogwyr beth oedd yr heriau uniongyrchol sy’n gysylltiedig â chyflawni pob un o'r blaenoriaethau strategol a amlinellir yn y Strategaeth Ynni Rhanbarthol. Crynhoir y rhain isod. Mae'n bwysig nodi bod yr adborth hwn yn destun cyfraniadau yn y gweithdy ac o'r herwydd efallai na fydd yn adlewyrchu pob her sy'n bodoli.

**(1) Harneisio'r doreth o adnoddau carbon isel lleol i ddod yn bwerdy gwyrdd ac arallgyfeirio'r cymysgedd ynni + (2 Dod yn arweinydd byd-eang mewn technolegau gwynt ar y môr a morol**

- Mae’n rhaid datblygu'r seilwaith ategol angenrheidiol yn gyflym.
- Mae angen mwy o fuddsoddiad er mwyn cynyddu'r technolegau angenrheidiol.
- Gwrthwynebiad cyhoeddus i brosiectau seilwaith ar raddfa fawr.
- Gall fod yn anodd i brosiectau bach fod yn hyfyw yn ariannol heb gymorthdaliadau.
- Cyfyngiadau sylweddol i seilwaith y grid.



### (3) Gwella effeithlonrwydd ynni tai'r rhanbarth a chyflymu'r broses o ddatgarboneiddio stoc adeiladau Gogledd Cymru

- Mae angen mwy o gymhellion i aelwydydd wneud newidiadau.
- Nid yw llawer o gartrefi ar y grid nwy felly mae angen atebion eraill.
- Mae bwlch o ran sgiliau rhanbarthol, e.e. darparwyr pympiau gwres.
- Yn aml mae mesurau carbon isel yn gofyn am gostau uchel ymlaen llaw i aelwydydd.
- Mae'r rhan fwyaf o'r sector tai yn eiddo preifat.
- Mae diffyg cyfathrebu clir ynghylch manteision newid ymddygiad i aelwydydd.

### (4) Sicrhau newid i drafnidiaeth carbon is

- Mae angen cynnydd mewn seilwaith ategol, e.e. gwefru cerbydau trydan, beiciau a llwybrau i gerddwyr.
- Mae prinder yn y cerbydau carbon isel newydd sydd ar gael, gall gymryd hyd at chwe mis i'w dosbarthu.
- Gall cost cerbydau carbon isel fod yn ataliol.
- Mae ansicrwydd ynglŷn â chyfeiriad y polisi.
- Mae diffyg gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus dibynadwy a fforddiadwy.

Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru
North Wales Economic Ambition Board

**Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru**
**30 Medi 2022**

| | |
|---|---|
| **TEITL:** | Cynllun Twf Gogledd Cymru - Sganio'r Gorwel |
| **AWDUR:** | Alwen Williams, Cyfarwyddwr Portffolio<br>Hedd Vaughan-Evans, Pennaeth Gweithrediadau |

**1. PWRPAS YR ADRODDIAD**

1.1. Pwrpas yr adroddiad yw gosod egwyddorion a phroses arfaethedig er mwyn adnabod ffordd ymlaen a ffefrir pan gaiff prosiectau eu tynnu allan o Gynllun Twf Gogledd Cymru.

**2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR**

2.1. Bod y Bwrdd yn nodi, yn dilyn tynnu unrhyw brosiect yn ôl o’r Cynllun Twf, y bydd adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno mewn cyfarfod yn y dyfodol i argymell y paramedrau a’r meini prawf sgorio ar gyfer yr ymarfer sganio’r gorwel fesul achos.

**3. Y RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

3.1. Fel sydd wedi'i nodi yn yr adroddiad.

**4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL**

4.1. Ym mis Rhagfyr 2020, fe wnaeth y Bwrdd Uchelgais a Llywodraethau Cymru a'r DU gytuno ar y Cytundeb Terfynol ar gyfer Cynllun Twf Gogledd Cymru.

4.2. Mae gan Gynllun Twf Gogledd Cymru broses rheoli newid yn ei lle i sicrhau bod newidiadau posib i sgôp y Cynllun Twf a'r prosiectau yn cael eu dal, eu hasesu a lle bo hynny'n berthnasol, eu hystyried gan y Bwrdd.

4.3. Mae’r Cytundeb Twf Terfynol yn nodi sefyllfa'r bwrdd mewn perthynas â phrosiectau amgen posib:

*"Rhaid i unrhyw brosiectau newydd neu amgen sydd i'w cyflwyno am ystyriaeth, ddangos eu bod yn cyflawni yn erbyn yr achos busnes rhaglen perthnasol ac amcanion yr achos busnes portffolio. Lle mae'r prosiectau hyn o fewn yr amlen ariannol gytûn bresennol ar gyfer y bartneriaeth, byddai angen i'r Bwrdd Uchelgais Economaidd wneud penderfyniad yn eu cylch."*

Egwyddorion

4.5. Bydd yr egwyddorion a ganlyn yn tanategu'r broses i adnabod ffordd ymlaen a ffefrir pan gaiff prosiectau eu tynnu allan o Gynllun Twf Gogledd Cymru:

- Egwyddor 1: Cyn ystyried prosiectau newydd, i ddechrau, bydd y Bwrdd yn ystyried ceisiadau gan brosiectau presennol ar gyfer cyllid ychwanego, ar sail achos wrth achos, lle:
  - mae gan brosiectau OBC neu FBC wedi'i gymeradwyo yn ei le
  - gall prosiectau arddangos rhesymeg glir am unrhyw gynnydd mewn costau
  - gall prosiectau arddangos bod opsiynau er mwyn lleihau cost/sgôp wedi'u gwerthuso
  - gall prosiectau dystiolaethu fod y busnes yn dal i ddarparu gwerth am arian a chymhareb cost a budd gadarnhaol
  - mae prosiectau yn gwneud cais am gyfran o'r gost ychwanegol ac yn gallu arddangos pam na all ariannwr y prosiect ysgwyddo'r costau ychwanegol yn llawn neu wneud hynny drwy ffynonellau cyllid eraill

- Egwyddor 2: Fel rhan o’r ymarfer sganio’r gorwelion, dylai'r holl opsiynau gael eu hystyried fel rhan o'r broses i adnabod ffordd ymlaen a ffefrir, gan gynnwys:
  - Adnabod prosiect neu brosiectau newydd
  - Ehangu prosiectau presennol
  - Cadw cyfran o'r cyllid fel arian wrth gefn i'r portffolio
  - Cyfuniad o’r uchod

- Egwyddor 3: Rhaid i'r ffordd ymlaen a ffefrir gyflawni yn erbyn targedau achos busnes y portffolio a cheisio cyflawni lefel gymharol o fuddion i'r prosiect a dynnir yn ôl o'r Cynllun Twf

- Egwyddor 4: Rhaid i'r ffordd ymlaen a ffefrir gyflawni yn erbyn achos busnes perthnasol y rhaglen a'i dargedau a, gymaint â phosib, mynd i'r afael â'r bwlch a adewir wrth i'r prosiect gael ei dynnu'n ôl o'r Cynllun Twf.

- Egwyddor 5: Rhaid i unrhyw brosiectau newydd yn y ffordd ymlaen a ffefrir allu arddangos effaith ranbarthol yn yr un ffordd â phrosiectau presennol.

Y Broses Arfaethedig

4.6. Mae'r isod yn amlinellu sut allai'r broses er mwyn adnabod ffordd ymlaen a ffefrir ddigwydd gan gynnwys rolau allweddol o fewn y broses:

**Cam 1: Sganio'r Gorwel**
- Y Bwrdd Uchelgais Economaidd i gytuno ar feini prawf, sgorio a phwysoliad ar gyfer y gweithgaredd sganio'r gorwel gan gynnwys targedau ar gyfer swyddi, buddsoddi a meini prawf cyflawni
- Ymgymryd â sganio'r gorwel yn cynnwys galwad cyhoeddus am brosiectau
- Asesiad porth caled cychwynnol gan y Cyfarwyddwr Portffolio yn unol a’r meini prawf i ddileu cynigion nad ydynt yn bodloni lefel ofynnol gytûn o ddeilliannau (swyddi ac ati) ac adnabod y rhestr hir

**Cam 2: Creu Rhestr Hir a Rhestr Fer**
- Asesiad manwl o'r rhestr hir yn erbyn y meini prawf cytûn i adnabod rhestr fer
- Cais am wybodaeth ychwanegol gan y prosiectau sydd ar y rhestr fer
- Asesiad rhestr fer yn cynnwys cyflwyniadau i'r Bwrdd Uchelgais i adnabod ffordd ymlaen a ffefrir

**Cam 3: Cymeradwyo a Datblygu'r Achosion Busnes**

- Argymhelliad ffurfiol i'r Bwrdd Uchelgais i gytuno ar ffordd ymlaen a ffefrir;
- Dechrau datblygu'r achos(ion) busnes

**5. GOBLYGIADAU ARIANNOL**

5.1. Cedwir cyllid sydd wedi'i glustnodi dros dro i brosiect sydd wedi'i dynnu'n ôl o Gynllun Twf Gogledd Cymru o fewn y portffolio ehangach ac mae'r penderfyniad ar brosiect neu brosiectau amgen yn fater i'r Bwrdd Uchelgais ei benderfynu.

**6. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL**

6.1. Mae'r Cytundeb Twf Terfynol y cytunwyd arno rhwng partneriaid y Bwrdd Uchelgais, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn amlinellu'r paramedrau eang y mae'n rhaid i broses i adnabod prosiectau newydd neu amgen lynu wrthynt.

6.2. Yn unol â Chytundeb Llywodraethu 2 a'r Cynllun Busnes Cyffredinol, bydd dewis unrhyw brosiectau newydd neu amgen yn fater i'r Bwrdd Uchelgais benderfynu arnynt o fewn yr amlen fforddiadwyedd gytûn ar gyfer y bartneriaeth a lle mae'r prosiectau'n cyflawni yn erbyn amcanion y Cynllun Twf a'i raglenni.

---

**YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:**

**i. Swyddog Monitro - Awdurdod Lletya:**
"Rwyf wedi cael cyfle i gynghori ar gynnwys yr adroddiad dim sylwadau pellach i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb."

**ii. Swyddog Cyllid Statudol (Swyddog Adran 151 yr Awdurdod Lletya):**
"Rwyf yn cefnogi'r penderfyniad a geisir. Mae'r ffordd ymlaen a gynhigir yn ymarferol a rhesymol."

# Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru

**TEITL:** Safle Strategol Allweddol Bodelwyddan

**AWDUR:** Alwen Williams, Cyfarwyddwr Portffolio
David Mathews, Rheolwr Rhaglen Tir ac Eiddo

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1. Pwrpas yr adroddiad yw argymell tynnu prosiect Safle Strategol Allweddol Bodelwyddan allan o Gynllun Twf Gogledd Cymru.

1.2. Mae gan Gynllun Twf Gogledd Cymru broses rheoli newid yn ei lle i sicrhau bod newidiadau posib i sgôp y Cynllun Twf a'r prosiectau yn cael eu dal, eu hasesu a lle bo hynny'n berthnasol, eu hystyried gan y Bwrdd.

## 2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

2.1. Bod y Bwrdd yn tynnu prosiect Safle Strategol Allweddol Bodelwyddan allan o Gynllun Twf Gogledd Cymru yn ffurfiol ac yn rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU am y penderfyniad.

2.2. Bod y Bwrdd yn nodi bod cyllid sydd wedi'i glustnodi dros dro i'r prosiect yn cael ei gadw o fewn Cynllun Twf Gogledd Cymru a bod y penderfyniad ar brosiect neu brosiectau amgen yn fater i'r Bwrdd Uchelgais ei benderfynu.

2.3. Gofyn i'r Swyddfa Rheoli Portffolio gyflwyno papur i gyfarfod nesaf y Bwrdd yn amlinellu'r broses ar gyfer dewis prosiect amgen er mwyn i'r Bwrdd ei ystyried.

## 3. Y RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

3.1. Fel sydd wedi'i nodi yn yr adroddiad.

## 4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

4.1. Ym mis Rhagfyr 2020, fe wnaeth y Bwrdd Uchelgais a Llywodraethau Cymru a'r DU gytuno ar y Cytundeb Terfynol ar gyfer Cynllun Twf Gogledd Cymru.

4.2. Mae gan Gynllun Twf Gogledd Cymru broses rheoli newid yn ei lle i sicrhau bod newidiadau posib i sgôp y Cynllun Twf a'r prosiectau yn cael eu dal, eu hasesu a lle bo hynny'n berthnasol, eu hystyried gan y Bwrdd.

4.3. Daeth Caniatâd Cynllunio Amlinellol y prosiect fel y bwriadwyd yn wreiddiol o 1,700 a mwy o unedau preswyl, 26 hectar o dir cyflogaeth, canolfan leol, ysgol, canolfan feddygol, gwesty, cartref gofal ychwanegol, defnydd hamdden wedi dod i ben ym mis Mawrth 2021. Roedd y ddau ddatblygwr sector preifat wedi tynnu'n ôl o'r prosiect cyn i'r caniatâd ddod i ben.

4.4. Mae'r prosiect yn un o chwech o fewn y rhaglen Tir ac Eiddo ac amcangyfrifwyd ei fod yn cyflawni 26 acer o dir cyflogaeth, 1,715 o dai newydd, ysgol gynradd, canolfan leol, cyfleusterau hamdden ac adloniant, 576 o swyddi, £20m y flwyddyn o GVA ac oddeutu £185m o fuddsoddiad cyfalaf.

Y Cais i Newid

4.5. Y cais i newid yw tynnu prosiect Safle Strategol Allweddol Bodelwyddan allan o Gynllun Twf Gogledd Cymru a'r Rhaglen Tir ac Eiddo.

Sail Resymegol

4.6. Rhaglennir i'r Adolygiad o Gynllun Datblygu Lleol Cyngor Sir Ddinbych ar gyfer 2023.. Mae'r wybodaeth aelwydydd wedi'i diweddaru ar gyfer y cyfnod 2023-33 a'r Arolwg Tir Cyflogaeth 2021 ar gyfer yr un cyfnod yn amcangyfrif bod y galw am gartrefi newydd a thir cyflogaeth ar gyfer prosiect Bodelwyddan yn gostwng i 400 o gartrefi a 5 ha. Mae'r llinell amser ar gyfer mabwysiadu'r Cynllun Cyflenwi Lleol a adolygwyd hefyd wedi'i ymestyn ac amcangyfrifir na fydd y Cynllun newydd yn cael ei fabwysiadu tan ganol 2025.

4.7. Effaith y llinell amser mabwysiadu estynedig i ddarparu sicrwydd polisi yw bod y datblygiad prosiect dilynol, arolygon, cytundebau perchennog tir, cydsyniadau statudol a darparu gwasanaethau statudol i'r safle yn cael ei redeg am y cyfnod rhwng 2026 a thua 2030. Gallai'r llinell amser cyflwyno estynedig hon ar gyfer prosiect y Bwrdd Uchelgais gymryd mwy o amser na'r llinell amser uchod. Byddai amserlen fyrrach i gyflwyno allbynnau'r prosiect hyd at 2035.

4.8. Amcangyfrifir mai'r llinell amser ar gyfer cwblhau elfen y prosiect a ariennir gan y Cynllun Twf yw canol 2030 ar hyn o bryd. Cyfanswm y gyllideb ymyrraeth ar gyfer cwmpas gwreiddiol y gwaith oedd £10m tua 2018. Amcangyfrifwyd bod y gyllideb hon tua £15.7m yn 2021 ac wrth i chwyddiant cost adeiladu gynyddu'n uwch na RPI/CPI yna mae cyllideb y Cynllun Twf yn cael ei herydu mewn amser real.

4.9. Mae'r sail resymegol dros y cais i newid i ddileu'r Prosiect o'r Cynllun Twf fel a ganlyn:

- Llinell Amser Cyflawni - mae hyn wedi ymestyn yn sylweddol ac nid oes disgwyl cwblhau'r prosiect cyn canol 2030 ac o bosib y tu hwnt i hynny.
- Allbynnau'r Prosiect – mae'r rhain tua 80% yn is na'r rhai a amcangyfrifwyd adeg Cytundeb Terfynol Cynllun Twf Gogledd Cymru.
  Mae'r llinell amser is i gyflawni'r allbynnau wedi'i dynnu'n ôl i 2031-2035.
- Cyllideb y Cynllun Twf - Asesir cyllideb gyfalaf y prosiect ar hyn o bryd fel un sylweddol is na'r hyn y bydd ei angen i gyflawni'r prosiect llai erbyn 2030.

| KSS Bodelwyddan | Prosiect OPC 2016 | Adolygiad CDLl 2023 | Gwahaniaeth |
|---|---|---|---|
| Nifer y Cartrefi | 1,715 | 400 | - 1,315 |
| Tir Cyflogaeth (Ha) | 26 | 5 | - 21 |
| Amcan o FTE | 376 | 130 | - 246 |
| Amcangyfrif o gynnydd GVA y flwyddyn | £20,063m | £5.936m | - £14.127m |
| Buddsoddiad Cyfalaf | £185m | Tua £40m | - £145m |

Effaith

4.10. Bydd tynnu'r prosiect o'r Cynllun Twf a'r Rhaglen Tir ac Eiddo yn caniatáu i brosiectau newydd gael eu hystyried o fewn y Rhaglen sy'n adlewyrchu blaenoriaethau cyfredol y partneriaid.

4.11. Byddai dileu'r prosiect yn effeithio ar y targedau disgwyliedig o ran swyddi, GVA a buddsoddiad a nodir yn Achos Busnes y Portffolio fel y nodir yn y tabl isod. Gallai'r prosiectau amgen ddisodli'r allbynnau hyn yn llawn neu'n rhannol ond ni fydd hyn yn sicr nes bod y prosiectau newydd yn cael eu cymeradwyo.

| **Targedau prosiectau Achos Busnes y Portffolio** | | |
|---|---|---|
| **Swyddi Net** | **GVA net (cronnus)** | **Buddsoddiad** |
| 250 | £125m | £82m |

4.12. Byddai angen diweddaru amcanion gwario'r rhaglen Tir ac Eiddo gan eu bod yn cyfeirio'n benodol at ddeilliannau cronnus y prosiect.

Argymhelliad y PMO, y Bwrdd Rhaglen a'r Bwrdd Portffolio

4.13. Argymhelliad y Bwrdd Rhaglen Tir ac Eiddo yw "Argymell i'r Bwrdd Portffolio gael gwared ar brosiect KSS Bodelwyddan o Gynllun Twf Gogledd Cymru ac, i ddechrau, gadw unrhyw arian a ryddhawyd gyda'r Rhaglen Tir ac Eiddo"

4.14. Fe wnaeth y Bwrdd Portffolio ystyried y papur ar 16 Medi 2022 ac fe wnaeth gadarnhau'r argymhellion i'w hystyried gan y Bwrdd Uchelgais.

4.15. Mae'r PMO yn argymell tynnu'r prosiect yn ôl am y rhesymau a nodir yn yr adroddiad. Mae'r ffordd arfaethedig ymlaen yn dileu'r ansicrwydd parhaus ynghylch cyflawni'r prosiect a gwireddu buddion. Byddai'r penderfyniad yn galluogi dewis prosiect neu brosiectau amgen a fydd yn galluogi i'r Bwrdd Uchelgais i gyflawni'r targedau a nodir yng Nghytundeb Terfynol y Cynllun Twf.

**5. GOBLYGIADAU ARIANNOL**

5.1. Bydd y cyllid a glustnodwyd dros dro i'r prosiect (£9.85m) yn cael ei gadw o fewn y Cynllun Twf i gael ei ail glustnodi gan y Bwrdd Uchelgais.

**6. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL**

6.1. Mae gofyn i hysbysu Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU am unrhyw newidiadau sy'n effeithio ar sgôp Cynllun Twf Gogledd Cymru.

6.2. Mae dewis prosiect amgen yn fater i'r Bwrdd Uchelgais benderfynu o fewn y paramedrau a nodir yng Nghytundeb Terfynol y Cynllun Twf.

---

**YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:**

**i. Swyddog Monitro - Awdurdod Lletya:**
"Mae'n rhan o swyddogaethau y Bwrdd Uchelgais Economaidd i gadw Prosiectau o fewn ei Raglenni dan adolygiad a lle'n briodol cymryd y camau angenrheidiol i ymateb i newid amgylchiadau o sylwedd. Yn yr achos penodol yma a gan ddal sylw at faint y newidiadau a'r ardrawiad ar allbynnau posib sydd yn rhan o gytundebau ariannu y Cytundeb Twf mae'r argymhelliad yn briodol."

ii. **Swyddog Cyllid Statudol (Swyddog Adran 151 yr Awdurdod Lletya):**
"Mae'r penderfyniad a geisir yn rhesymol a dealladwy o dan yr amgylchiadau, ac yn dilyn asesiad fanwl o'r sefyllfa. Mae oblygiadau ariannol y penderfyniad wedi eu hegluro'n glir, gan gynnwys y gwaith pellach fydd ei angen i adnabod prosiectau amgen."

**BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU**
**30 Medi 2022**

| | |
|---|---|
| **TEITL:** | Cais i Newid Morlais |
| **AWDUR:** | Henry Aron (Rheolwr y Rhaglen Ynni, Uchelgais Gogledd Cymru) |

**1. PWRPAS YR ADRODDIAD**

1.1. Ceisio cymeradwyaeth y Bwrdd i argymhellion y PMO ynghylch Cais i Newid Morlais

**2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR**

2.1. Bod y Bwrdd yn cymeradwyo'r cais i newid.

2.1 Bod y Bwrdd yn nodi y bydd y cais i newid yn golygu y bydd angen i Fenter Môn ddatblygu a chyflwyno achos busnes amlinellol newydd i'r Bwrdd ei ystyried.

**3. Y RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

3.1. Ym mis Mai 2021, fe wnaeth y Bwrdd Uchelgais gymeradwyo achos busnes amlinellol (OBC) am gyllid o £9m tuag at ddatblygiad Morlais B. Yn sgil cyfuniad o gyfyngiadau ariannu, tynnodd Menter Môn yr OBC yn ôl yn hydref 2021. Wedi tynnu'r OBC yn ôl, mae Menter Môn wedi paratoi cais i newid yn gofyn am gefnogaeth gan y Bwrdd i gadw'r £9m a glustnodwyd o Raglen Ynni Carbon Isel y Cynllun Twf. Byddai hyn yn galluogi i Fenter Môn ddatblygu a chyflwyno achos busnes amlinellol diwygiedig am brosiect diwygiedig o'r enw Prosiect Cydnerth. Yn unol â phroses rheoli newid Cynllun Twf Gogledd Cymru, mae angen cymeradwyaeth y Bwrdd ar gyfer y cynnig hwn.

**4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL**

4.1. Ym mis Mai 2021, fe wnaeth y Bwrdd Uchelgais gymeradwyo achos busnes amlinellol am gyllid o £9m tuag at ddatblygiad Morlais B. Yn sgil cyfuniad o gyfyngiadau ariannu, tynnodd Menter Môn yr OBC yn ôl yn hydref 2021.

4.2. Wedi tynnu'r OBC yn ôl, mae Menter Môn wedi paratoi cais i newid yn gofyn am gefnogaeth gan y Bwrdd Uchelgais i gadw'r £9m a glustnodwyd o Raglen Ynni Carbon Isel y Cynllun Twf. Byddai hyn yn galluogi i Fenter Môn ddatblygu a chyflwyno achos busnes amlinellol diwygiedig am brosiect diwygiedig o'r enw Prosiect Cydnerth.

4.3. Cadarnhawyd y Cais i Newid gan y Bwrdd Rhaglen Ynni ym mis Mai 2022 a'r Bwrdd Portffolio ym mis Medi 2022, yn ddarostyngedig i dderbyn cefnogaeth gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru.

**Crynodeb o'r Cais i Newid**

**Newid i'r Sgôp**

4.4. Roedd yr OBC gwreiddiol yn golygu bod y Cynllun Twf a Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru yn cyd-ariannu'r cysylltiad 20MW i'r Rhwydwaith Dosbarthu a'r cysylltiad pellach i'r National Grid. O ganlyniad i'r cyfyngiadau ariannu a arweiniodd at dynnu'r achos busnes amlinellol yn ôl, cyflwynodd Menter Môn Brosiect Sgôp Llai i Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru, gan sicrhau £31m i gyflawni'r isadeiledd trydanol ar y tir hyd at y pwynt o gysylltu â'r Rhwydwaith Dosbarthu (SPEN) ym Mharc Cybi. Bydd hyn yn caniatáu i'r prosiect ehangu i 20MW o dyrbinau llanw mewn defnydd. Aeth y prosiect sgôp llai a ddisgrifir uchod drwy Benderfyniad Buddsoddi Terfynol ar 18 Mawrth 2022 ac mae'r wedd cyflawni / adeiladu bellach wedi dechrau. Yn sgil cynnydd diweddar ac wedi i Lywodraeth y DU gadarnhau mecanwaith cefnogaeth cymhorthdal penodol ar gyfer ynni llanw, mae'r amodau ar gyfer canlyniad llwyddiannus ym Morlais bellach yn llawer mwy ffafriol.

4.5. Bydd cyllid WEFO yn hwyluso gwedd gyntaf y prosiect hyd at 20MW. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, nid oes cyllid wedi'i sicrhau ar gyfer y wedd ehangu, hyd at 240MW, a fyddai'n hwyluso twf y prosiect, defnydd / buddsoddiad pellach gan ddatblygwyr llanw a chyflawni mwyafrif y swyddi a'r buddion rhanbarthol.

4.6. Mae Menter Môn yn ceisio cefnogaeth gan y Bwrdd i gadw'r £9m sydd wedi'i glustnodi o'r Cynllun Twf i chwalu'r rhwystrau a ganlyn i dwf: cysylltiad i'r National Grid (tua £7.5m) a Monitro effeithiau amgylcheddol is-forol (tua £1.5m). Os caiff ei gefnogi, byddai Menter Môn yn datblygu ac yn cyflwyno achos busnes amlinellol ar gyfer y prosiect diwygiedig yng ngwanwyn 2023, gyda'r wedd cyflawni yn dechrau yng ngwanwyn 2024. Enw'r prosiect diwygiedig yw'r 'Prosiect Cydnerth'.

**Newid i'r Amserlen**

4.7. Byddai'r newid yn arwain at oedi i wariant y Cynllun Twf o tua 2 flynedd. Mae Menter Môn wedi targedu mis Gorffennaf 2023 i gymeradwyo'r OBC, gyda'r gwaith o gyflawni'r prosiect yn dechrau ym mis Mehefin 2024

**Newid i'r Buddion a'r Deilliannau**

4.8. Nid yw'r buddion cyffredinol a ragwelwyd ar gyfer prosiect Morlais yn y Gogledd wedi newid. Y gwahaniaeth yw y bydd y buddion yn cael eu rhannu rhwng y prosiect a ariennir gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru a'r Prosiect Cydnerth. Bydd mwyafrif y buddion a'r deilliannau a ragwelwyd yn yr achos busnes amlinellol gwreiddiol yn cael eu sicrhau drwy'r Prosiect Cydnerth. Mae hi'n bwysig nodi y bydd cyfraniad uniongyrchol llai i amcanion gwariant y rhaglen o ganlyniad i'r prosiect a ariennir drwy Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru bellach ar wahân i brosiect y Cynllun Twf. Bydd yr achos busnes amlinellol diwygiedig yn amlinellu'r deilliannau a'r buddion yn fanylach.

**Prif Faterion a Risgiau**

4.9. Mae mesurau diogelu yng nghytundeb cyllido Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru yn cyfyngu ar allu'r prosiect ar hyn o bryd i gael rhagor o arian a chaffael asedau ychwanegol heb gymeradwyaeth gan Swyddfa Cyllido Ewropeaidd Cymru. Fel y nodir yn eu llythyr at y Cyfarwyddwr Portffolio (Atodiad 1), mae Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru wedi cadarnhau

bod cefnogaeth 'mewn egwyddor' i'r cynnig. Fodd bynnag, bydd mesurau diogelu o fewn y cytundeb cyllido rhwng Menter Môn a Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru yn mynnu bod Menter Môn yn derbyn cydsyniad gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru cyn cyflwyno'r achos busnes amlinellol i'r Bwrdd.

4.10. Bydd y cyfraniad at amcanion gwariant rhaglenni a gyflawnir gan y prosiect Cydnerth yn is na'r hyn a gymeradwywyd yn wreiddiol yn achos busnes amlinellol Morlais ac yn is na'r amcangyfrifon a wnaed yn Achos Busnes y Portffolio. Mae'r manteision cyffredinol i'r Gogledd yn aros yr un fath â'r hyn a ragwelwyd yn wreiddiol.

4.11. Yn sgil cyfyngiadau Cymorth Gwladwriaethol, ni all cyllid y Cynllun Twf fod yn arian grant. Rhoddir sylw i'r opsiynau cyllido (e.e. benthyciad, ecwiti neu fodelau ariannu eraill) o fewn yr achos busnes amlinellol newydd.

## 5. GOBLYGIADAU ARIANNOL

5.1. Ni fyddai unrhyw newid i gyfanswm y cyllid Cynllun Twf a glustnodir tuag at y prosiect. Fodd bynnag, bydd cyfraniad y prosiect at amcanion gwariant rhaglenni a gyflawnir gan y prosiect Cydnerth yn is na'r hyn a gymeradwywyd yn wreiddiol yn achos busnes amlinellol Morlais ac yn is na'r amcangyfrifon a wnaed yn Achos Busnes y Portffolio yn sgil dileu cyllid Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru.

## 6. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL

6.1. Bydd y cais i newid yn golygu y bydd angen i Fenter Môn ddatblygu a chyflwyno achos busnes amlinellol newydd i'r Bwrdd ei ystyried. Mae Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru wedi cadarnhau bod cefnogaeth 'mewn egwyddor' i'r cynnig. Fodd bynnag, bydd mesurau diogelu o fewn y cytundeb cyllido rhwng Menter Môn a Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru yn mynnu bod Menter Môn yn derbyn cydsyniad gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru cyn cyflwyno'r achos busnes amlinellol i'r Bwrdd.

## 7. YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD

7.1. Cadarnhawyd y cais i newid gan y Bwrdd Rhaglen Ynni a'r Bwrdd Portffolio.

---

**ATODIADAU:**

| | |
|---|---|
| Atodiad 1 | Llythyr Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru i Uchelgais Gogledd Cymru ynghylch y Prosiect Cydnerth. |

**YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:**

i. **Swyddog Monitro - Corff Atebol:**

"Fel a nodwyd yn yr adroddiad bydd angen i Fenter Mon a'r BUE rhoi ystyriaeth ofalus a gweithredu gofynion Rheolaeth Cymhorthdal a Chymorth Gwladol."

ii. **Swyddog Cyllid Statudol (Swyddog Adran 151 yr Awdurdod Lletya):**

"Nid oes gennyf wrthwynebiad i'r penderfyniad a geisir."

**Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru**
**Welsh European Funding Office**
**Grŵp yr Economi, y Trysorlys a'r Cyfansoddiad**
**Economy, Treasury and Constitution Group**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Alwen Williams
Portfolio Director
Ambition North Wales

21 September 2022

Dear Alwen,

Thank you for your letter, dated 14 September 2022, regarding Menter Môn's proposal for funding from the North Wales Growth Deal's Low Carbon Energy Programme.

In principle, WEFO supports the submission of Menter Môn Morlais Ltd.'s ("**MMM**") proposal for funding from the North Wales Growth Deal. The matters already outlined in my letter to MMM, dated 15 August 2022 (a copy of which is attached to this letter with the permission of MMM), will still need to be addressed. However, we do of course acknowledge that these matters can only be addressed during the funding assurance and approval process outlined in your letter and look forward to receiving further updates on these in due course.

Please note that this letter is our agreement in principle to MMM developing its revised outline business case with you and shall not be construed as constituting a promise or warranty as to our future conduct or ability to provide further consents in relation to the Cydnerth project and/or the WEFO funding package with MMM. We look forward to continuing our discussions with you and MMM but would note that the continued engagement and dialogue process on the part of the WEFO should not be construed in any way as giving rise to any form of commitment or legitimate expectation in relation to such potential consent.

Yours Sincerely

Peter Ryland

Peter Ryland
Chief Executive
Welsh European Funding Office

**Cronfeydd yr UE: Buddsoddi yng Nghymru**
**EU Funds: Investing in Wales**
UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION
Llywodraeth Cymru
Welsh Government
RegioStars
Winners 2008, 2009, 2011, 2014 & 2018
EU Regional Policy
Regions of Excellence
Winner 2011

Swyddfa Merthyr Tudful / Merthyr Tydfil Office
Rhydycar / Rhydycar
Merthyr Tudful / Merthyr Tydfil
CF48 1UZ

Ffôn/Tel: 0300 062 8779
E-Bost/E-Mail:Peter.Ryland@gov.wales

**Rydym yn croesawu gohebiaeth Gymraeg. Cewch ateb Cymraeg i bob gohebiaeth Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.**

**We welcome correspondence in Welsh. Correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not involve any delay.**